**Rhif: WG43708**

Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion ac ymateb y Llywodraeth

# Adolygiad o Ran L a Rhan F o'r Rheoliadau Adeiladu – Cam 2A

# Newidiadau i Ran L (arbed tanwydd ac ynni) a Rhan F (awyru) o'r Rheoliadau Adeiladu ar gyfer anheddau presennol a lleihau'r risg o orgynhesu mewn anheddau newydd.

Hydref 2021

This document is also available in English
Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg

© Hawlfraint y Goron 2021 WG43708 ISBN digidol 978-1-80391-097-0

# Cynnwys

| | | Tudalen |
|---|---|---|
| 1. | Cyflwyniad a Throsolwg o'r ymatebion i'r ymgynghoriad | 1 |
| 2. | Ymatebion i'r ymgynghoriad – crynodeb ac ymateb y Llywodraeth | 4 |
| 3. | Y camau nesaf | 71 |
| 4. | Atodiad A | 72 |

# 1. Cyflwyniad

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad "Adolygiad o Ran L a Rhan F o'r Rheoliadau Adeiladau – Cam 2A: Newidiadau i Ran L (arbed tanwydd ac ynni) a Rhan F (awyru) o'r Rheoliadau Adeiladu ar gyfer anheddau presennol a lleihau'r risg o orgynhesu mewn anheddau newydd" (a agorodd ar 25 Tachwedd 2020 ac a ddaeth i ben ar 17 Chwefror 2021), ac mae ei strwythur yn seiliedig ar y cwestiynau yn yr ymgynghoriad.

1.2 Safbwyntiau a fynegwyd gan ymatebwyr i'r ymgynghoriad sydd yn y crynodeb hwn ac nid ydynt o reidrwydd yn adlewyrchu safbwyntiau Llywodraeth Cymru.

**Rheoliadau Adeiladu**

1.3 Mae Rheoliadau Adeiladu yn rheoli mathau penodol o waith adeiladu, yn bennaf codi ac ymestyn adeiladau a darparu neu ymestyn gwasanaethau neu ffitiadau penodol, yn bennaf er mwyn sicrhau bod adeiladau yn cyrraedd safonau penodol o ran iechyd, diogelwch, llesiant, cyfleustra a chynaliadwyedd.

1.4 Yr unigolyn sy'n gwneud y gwaith sy'n gyfrifol am gydymffurfio â'r Rheoliadau Adeiladu ac mae'r system rheoli adeiladu yn helpu i sicrhau bod y lefel ofynnol o berfformiad wedi'i chyflawni. Rôl y corff rheoli adeiladu, sef yr awdurdod lleol neu Arolygydd Cymeradwy yn y sector preifat, yw gweithredu fel gwiriad trydydd parti annibynnol er mwyn helpu i sicrhau cydymffurfiaeth. Fel dewis amgen yn lle gwiriadau trydydd parti gan gorff rheoli adeiladu, gall rhai mathau o waith gael eu hunanardystio gan osodwyr sydd wedi'u cofrestru fel aelod o gynllun hunanardystio personau cymwys ac yr aseswyd eu bod yn gymwys i wneud hynny.

1.5 Mae Rheoliadau Adeiladu yn dylanwadu'n fawr ar y ffordd y caiff ein hadeiladau eu codi a'u defnyddio. Felly, maent yn helpu i sicrhau manteision sylweddol i gymdeithas. Gall rheoleiddio hefyd osod costau ar fusnesau ac unigolion. Mae natur "swyddogaethol" y Rheoliadau Adeiladu, lle mae rheoliadau yn nodi'r gofyniad cyffredinol yn hytrach na rhagnodi sut mae'n rhaid iddo gael ei fodloni, yn ceisio lleihau'r gost hon yn ogystal â sicrhau na chaiff arloesedd ei rwystro. Wedyn, mae canllawiau yn y Dogfennau Cymeradwy sy'n ategu'r Rheoliadau yn nodi rhai o'r ffyrdd y gellir bodloni'r gofynion hyn er nad oes rhaid eu dilyn os gellir dangos bod y lefel ofynnol o berfformiad wedi'i chyflawni mewn ffordd wahanol. Mae'r dull hwn o weithredu yn rhoi eglurder i gyrff rheoli adeiladu a'r diwydiant fel ei gilydd.

# 1.1 Ymatebion i'r Ymgynghoriad – Trosolwg

**Yr ymatebwyr**

1.1 Cafwyd 80 o ymatebion i'r ymgynghoriad ac rydym yn ddiolchgar i bawb a ymatebodd. Mae'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad wedi cael eu darllen a'u hystyried fel rhan o'r dadansoddiad hwn.

1.2 Gofynnwyd i ymatebwyr a gwblhaodd y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad nodi i ba un o'r 15 o sectorau a nodwyd ar y ffurflen y mae eu sefydliad yn perthyn (gan gynnwys opsiwn ‘arall’ hunanddynodedig). Mae'r tabl isod yn dangos nifer yr ymatebion a gafwyd gan bob sector.

| **Math o Sefydliad** | **Nifer yr Ymatebwyr** | **%** |
|---|---|---|
| Pensaer | 3 | 3.75 |
| Adeiladwr / Datblygwr | 1 | 1.25 |
| Arolygydd Cymeradwy Rheoli Adeiladu | 1 | 1.25 |
| Meddiannydd Adeilad/Preswylydd | 1 | 1.25 |
| Datblygwr Meddalwedd Adeiladu ac Ynni | 1 | 1.25 |
| Dylunydd / Peiriannydd / Syrfëwr | 1 | 1.25 |
| Cynllun Achredu Aseswyr Ynni | 1 | 1.25 |
| Sector Ynni | 6 | 7.5 |
| Awdurdod Lleol | 8 | 10 |
| Gwneuthurwr/Cadwyn Gyflenwi | 24 | 30 |
| Corff Proffesiynol | 4 | 5 |
| Rheolwr Eiddo / Cymdeithas Dai / Landlord | 2 | 2.5 |
| Cymdeithas Fasnach | 7 | 8.75 |
| Adeiladwr Tai Mawr | 3 | 3.75 |
| Parti Arall sydd â Diddordeb | 17 | 21.25 |

## Ymdrin â'r ymatebion

1.3 Darparwyd ffurflen ymateb safonol er hwylustod, ond, lle na wnaeth ymatebwyr ddefnyddio'r ffurflen, priodolwyd sylwadau i'r cwestiwn mwyaf priodol. Hefyd, roedd gan rai o'r cwestiynau dri ateb posibl; ydw, nac ydw, ddim yn siŵr. Lle nad yw ymatebwyr wedi ateb gan ddefnyddio'r ymatebion safonol a gynigiwyd, ond eu bod wedi mynegi eu barn yn glir wrth ateb, mae'r ymateb hwnnw wedi'i adlewyrchu yn y dadansoddiad ystadegol. Er enghraifft, lle defnyddiodd ymatebydd yr ymadrodd ‘Rwy'n cefnogi'r cynnig’ nodwyd ydw fel ei ateb. Lle nad oedd ymateb clir, nodwyd ‘heb ymateb’ yn y dadansoddiad ystadegol, a chafodd yr ymatebion eu cynnwys yn y crynodeb o sylwadau.

# 2. Ymatebion i'r ymgynghoriad – crynodeb byr ac ymateb y Llywodraeth

## Pennod 2 – Safonau Rhan L ar gyfer Anheddau Presennol (Cwestiynau 1 i 15)

2.1 Edrychodd y bennod hon yn yr ymgynghoriad ar newidiadau i'r ffordd y cymhwysir y Rheoliadau Adeiladu at anheddau presennol a chynigiwyd y newidiadau canlynol:

- Codi safonau ar gyfer gwaith rheoledig mewn anheddau presennol, lle y gellir dangos bod hyn yn gosteffeithiol.
- Rhai diwygiadau i'r gofynion o ran gwelliannau canlyniadol.
- Trosi gofynion perthnasol o'r Gyfarwyddeb Perfformiad Ynni Adeiladau (EPBD)

### Safonau perfformiad ar gyfer adeiladwaith (C1-6)

**Cwestiwn 1**

**Cwestiwn 1: A ydych yn cytuno â'r safonau adeiladwaith gofynnol arfaethedig ar gyfer estyniadau fel y'u nodir yn Nhabl 4.1?**

| | Pawb a ymatebodd i'r cwestiwn hwn | Pensaer | Adeiladwr / Datblygwr | Arolygydd Cymeradwy Rheoli Adeiladu | Meddiannydd Adeilad/ Preswylydd | Dylunydd Meddalwedd Adeiladu ac Ynni Datblygwr | Dylunydd / Peiriannydd / Syrfëwr | Cynllun Achredu Aseswyr Ynni | Sector Ynni | Awdurdod Lleol | Gwneuthurwr/Cadwyn Gyflenwi | Corff Proffesiynol | Rheolwr Eiddo / Cymdeithas Dai / Landlord | Cymdeithas Fasnach | Adeiladwr Tai Mawr | Parti Arall sydd â Diddordeb |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm** | **60** | **3** | **1** | **1** | **1** | **1** | **1** | **1** | **4** | **8** | **16** | **4** | **2** | **4** | **0** | **13** |
| Ydw | 77% | 67% | 100% | 100% | 100% | 0% | 100% | 100% | 100% | 100% | 75% | 75% | 100% | 75% | - | 54% |
| Nac ydw | 15% | 33% | 0% | 0% | 0% | 100% | 0% | 0% | 0% | 0% | 13% | 25% | 0% | 25% | - | 23% |
| Ddim yn siŵr | 8% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 13% | 0% | 0% | 0% | - | 23% |

2.2 Roedd 77% o'r ymatebwyr i Gwestiwn 1 yn cytuno â'r safonau adeiladwaith gofynnol gwell arfaethedig ar gyfer estyniadau i anheddau.

- Roedd y rhesymau a roddwyd dros yr ymateb yn cynnwys yr angen i wneud anheddau presennol yn fwy effeithlon o ran ynni, bod y safonau gwell yn rhesymol ac yn ymarferol, a bod y gwerthoedd yn cyd-fynd â safonau adeiladau newydd.

- Awgrymodd un ymatebydd fod anawsterau ymarferol yn gysylltiedig â chyrraedd y safon newydd ar gyfer inswleiddio nenfwd ar oleddf oherwydd trwch y deunydd inswleiddio sy'n angenrheidiol a rhoddodd fanylion ategol. Nododd yr un ymatebydd hefyd nad yw'r tabl diwygiedig o safonau gofynnol yn cynnwys y nodyn ynglŷn â chymhareb arwynebedd llawr perimedr mwyach, ond ei fod wedi'i gynnwys o hyd yn Nhabl 11.1 ar gyfer elfennau o adeiladwaith a gadwyd; er mwyn osgoi unrhyw gamddealltwriaeth, awgrymir y dylid naill ai cynnwys y nodyn yn Nhabl 4.1 neu ei hepgor yn Nhabl 11.1 er cysondeb.
- Awgrymodd tri ymatebydd y dylid mesur perfformiad adeiladau fel y'u hadeiladwyd er mwyn osgoi bwlch mewn perfformiad (gyda sylwadau tebyg mewn ymateb i gwestiynau eraill yn yr ymgynghoriad a oedd yn ymwneud â mathau eraill o waith adeiladu).
- Nodwyd y dylid cyfeirio at fersiynau diweddaraf BR443 a BR497.
- Nododd un ymatebydd fod Nodyn 4 i Dabl 4.1 yn awgrymu mai 6mm yw trwch 'safonol' gwydr a ddefnyddir mewn adeiladau preswyl, ond bod 4mm yn fwy cyffredin ac y dylid cyfeirio at hynny yn hytrach na 6mm.
- Argymhellodd dau ymatebydd y dylid rhoi rhagor o arweiniad ar unrhyw gynlluniau i wneud diwygiadau yn y dyfodol (gyda sylwadau tebyg wedi'u cynnwys mewn llawer o gwestiynau'r ymgynghoriad a oedd yn ymwneud â mathau eraill o waith adeiladu).

2.3 Roedd 15% o'r ymatebwyr yn anghytuno â'r cynigion.

- Rhoddodd un ymatebydd adborth manwl yn gwrthwynebu'r cynnig bod angen i strwythurau unionsyth a chyrbiau adeiladwyr gydymffurfio â gwerthoedd U ar gyfer waliau (gan awgrymu ei fod yn newid sylweddol na allai unrhyw gynnyrch sydd ar gael ar hyn o bryd ei gyflawni, gan gynnig testun amgen).
- Roedd yr un ymgeisydd hefyd o blaid y gwerth U cyfyngol arfaethedig ar gyfer ffenestri to, a'r newid i asesu'r rhain yn llorweddol (yn gyson â BR443). Fodd bynnag, galwodd am gysondeb o ran gwerthoedd cyfyngol a'r dull o asesu ffenestri to mewn adeiladau domestig ac annomestig newydd a phresennol er mwyn symleiddio gofynion a gwella cydymffurfiaeth (gan awgrymu bod angen adolygu Rhannau L2a ac L2b yn hyn o beth).
- Roedd un ymatebydd yn cytuno'n fras â'r cynigion ond, fel uchod, roedd am gael rhagor o fanylion ynglŷn â diwygiadau yn y dyfodol ac roedd hefyd yn mynegi pryderon nad yw'r cynnig yn cyfrif am asesu a sicrhau perfformiad ar ôl gosod. Mynegodd yr ymatebydd y pryder hefyd nad yw'r gofynion ar gyfer drysau yn ddigon manwl ac y dylai mathau gwahanol o ddrysau gael eu trin yn wahanol, yn ogystal â chynnig newidiadau i baragraff 4.5b a thynnu sylw at broblemau o ran eglurder ym mharagraff 4.5c.
- Argymhellodd un ymatebydd y dylai uchafswm gwerth U waliau fflatiau fod yr un fath â'r un ar gyfer tai ac y dylid pennu hydreiddedd aer o 5 m3/hr/m2 ar y mwyaf.
- Cynigiodd dau ymatebydd y dylid gwella'r safonau ymhellach yn gyffredinol er mwyn helpu i gyrraedd targedau carbon yn y tymor hwy, a'u llacio dim ond pan fyddant yn amhriodol yn dechnegol i'r adeilad.
- Argymhellodd dau ymatebydd arall y dylid cadw'r safonau adeiladwaith presennol, gan nodi heriau a fyddai'n gysylltiedig â'u diwygio. Roedd y rhesymau a roddwyd yn cynnwys yr anfanteision posibl sy'n gysylltiedig â gwahaniaethau sylweddol tebygol mewn gwerthoedd U rhwng elfennau newydd mewn estyniadau a'r elfennau presennol a gadwyd, a dymuniad i weld targedau ar gyfer y tŷ cyfan yn hytrach na gweithredu ar sail y

gwerthoedd unigol isaf. Argymhellodd un o'r ymatebwyr hyn y dylid ymgynghori ar BR443 hefyd, gan roi sylwadau manwl.

- Argymhellodd ymatebydd arall y dylai'r safonau gofynnol fod yn gyson ledled y DU (a gwnaeth sylwadau tebyg mewn ymateb i gwestiynau eraill yn yr ymgynghoriad).

2.4 Awgrymodd un ymatebydd, na nododd a oedd yn cytuno neu'n anghytuno â'r cynigion yn gyffredinol, werthoedd amgen ar gyfer toeau a waliau allanol a fyddai'n cyd-fynd â'r Ddogfen Gymeradwy yn Lloegr.

**Cwestiwn 2**

| | Pawb a ymatebodd i'r cwestiwn hwn | Pensaer | Adeiladwr / Datblygwr | Arolygydd Cymeradwy Rheoli Adeiladu | Meddiannydd Adeilad/Preswylydd | Dylunydd Meddalwedd Adeiladu ac Ynni Datblygwr | Dylunydd / Peiriannydd / Syrfëwr | Cynllun Achredu Aseswyr Ynni | Sector Ynni | Awdurdod Lleol | Gwneuthurwr/Cadwyn Gyflenwi | Corff Proffesiynol | Rheolwr Eiddo / Cymdeithas Dai / Landlord | Cymdeithas Fasnach | Adeiladwr Tai Mawr | Parti Arall sydd â Diddordeb |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cwestiwn 2: A ydych yn cytuno â'r safonau effeithlonrwydd ynni gofynnol arfaethedig ar gyfer ffenestri a drysau fel y'u nodir yn Nhabl 10.1?** | | | | | | | | | | | | | | | | |
| **Cyfanswm** | **60** | **3** | **1** | **1** | **1** | **1** | **1** | **1** | **4** | **8** | **17** | **4** | **2** | **3** | **0** | **13** |
| Ydw | 75% | 67% | 100% | 100% | 100% | 0% | 100% | 100% | 75% | 100% | 76% | 75% | 100% | 100% | - | 46% |
| Nac ydw | 15% | 33% | 0% | 0% | 0% | 100% | 0% | 0% | 25% | 0% | 6% | 25% | 0% | 0% | - | 31% |
| Ddim yn siŵr | 10% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 18% | 0% | 0% | 0% | - | 23% |

2.5 Roedd 75% o'r ymatebwyr i Gwestiwn 2 yn cytuno â'r safonau effeithlonrwydd ynni gwell ar gyfer ffenestri a drysau.

- Nododd dau ymatebydd y byddai'r gwerth U trothwy yng ngholofn (c) o Dabl 10.1 yn caniatáu gwydr dwbl heb wydr allyrredd isel ac argymhellwyd y dylid codi'r gwerth hwn i 2.0 W/m2K gan fod gwydr allyrredd isel yn safonol.
- Cytunodd un ymatebydd, fel yn achos ffenestri, y dylid cynnig gwerth U o 1.2 W/m2.K ar gyfer cwarelau canol yn lle gwerth U ar gyfer drws cyfan, gan na fyddai llawer o ddrysau gwydr yn bennaf megis drysau patio llithro mewn llinell neu ddrysau deublyg yn gallu bodloni gofyniad 1.4 heb wydr triphlyg.
- Awgrymodd un ymatebydd, ar gyfer uchafswm gwerthoedd amgen yng ngholofn (b) o Dabl 10.1, y dylid ei gwneud yn glir y dylai gwerthoedd U cwarelau canol gael eu pennu yn unol â BS EN 673.
- Argymhellodd dau ymatebydd y dylid pennu DSER band C (60% yn wydr) fel y safon ofynnol ar gyfer drysau.
- Hefyd, nodwyd ychydig o bwyntiau golygyddol, gan gynnwys cyfeiriad anghywir at nodyn "20" yn Nhabl 10.1 ac y dylai colofn (b) o Dabl 10.1 gyfeirio at ffenestri a drysau.

2.6 Roedd 15% o'r ymatebwyr yn anghytuno â'r cynigion.

- Gwnaeth un ymatebydd sylwadau manwl ar ffenestri to, y mae rhai ohonynt wedi'u cynnwys o dan Gwestiwn 1.
- Argymhellodd sawl ymatebydd y dylid gwella'r gwerthoedd U trothwy yng ngholofn (c) o Dabl 10.1 (fel y nodwyd hefyd gan ddau o'r ymatebwyr a ddywedodd eu bod yn cytuno'n gyffredinol â'r cynigion).
- Holodd un ymatebydd a oedd y gwerth U ar gyfer cwarelau canol drysau yng ngholofn (b) o Dabl 10.1 yn gymwys i ddrysau gwydr.
- Argymhellodd dau ymatebydd y gellid gwella pob un o'r safonau ymhellach gan fod amrywiaeth eang o gynhyrchion ar gael sy'n perfformio'n well.

2.7 Awgrymodd un ymatebydd na nododd yr hyn yr oedd yn ei ffafrio fod yr ail opsiwn a ganiateir yng nghymal 4.5 i werthuso gwerth U ffenestri (opsiwn b) yn cyfeirio at BS EN 14351-1 ond nad yw'n cyd-fynd â'r tybiaethau a nodwyd yn y safon ac na fydd yn caniatáu i ddylunwyr adeiladau wneud defnydd o'r Datganiad o Berfformiad a ddarperir gan y gwneuthurwyr. Nododd yr ymatebydd hefyd nad yw'r cyfeiriad at Ddogfen Dechnegol NTD 2 NARM yng nghymal 4.7 yn gyfredol mwyach, nac ychwaith Nodiadau 6 a 7 yn Nhabl 4.1, yn sgil cyhoeddi fersiwn newydd o BR443 yn ddiweddar. Nododd ymatebydd arall fod angen i Ganllaw'r Ffederasiwn Gwydr a Gwydro fod ar gael i bawb.

**Cwestiwn 3**

| | **Pawb a ymatebodd i'r cwestiwn hwn** | **Pensaer** | **Adeiladwr / Datblygwr** | **Arolygydd Cymeradwy Rheoli Adeiladu** | **Meddiannydd Adeilad/Preswylydd** | **Dylunydd Meddalwedd Adeiladu ac Ynni** | **Dylunydd / Peiriannydd / Syrfëwr** | **Cynllun Achredu Aseswyr Ynni** | **Sector Ynni** | **Awdurdod Lleol** | **Gwneuthurwr/Cadwyn Gyflenwi** | **Corff Proffesiynol** | **Rheolwr Eiddo / Cymdeithas Dai / Landlord** | **Cymdeithas Fasnach** | **Adeiladwr Tai Mawr** | **Parti Arall sydd â Diddordeb** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cwestiwn 3: A ydych yn cytuno â'r safonau gofynnol arfaethedig ar gyfer (i) heulfan neu bortsh heb ei (h)eithrio (paragraff 10.29) a (ii) arwahanu thermol ar gyfer heulfan neu bortsh er mwyn cael ei (h)eithrio rhag y gofynion effeithlonrwydd ynni fel y darperir yn Adran 10 (paragraff 10.28)?** | | | | | | | | | | | | | | | | |
| **Cyfanswm** | **56** | **2** | **1** | **1** | **1** | **1** | **1** | **1** | **3** | **8** | **16** | **3** | **2** | **4** | **0** | **12** |
| Ydw | 70% | 100% | 100% | 100% | 100% | 0% | 100% | 0% | 67% | 75% | 69% | 100% | 100% | 75% | - | 50% |
| Nac ydw | 14% | 0% | 0% | 0% | 0% | 100% | 0% | 100% | 0% | 0% | 19% | 0% | 0% | 25% | - | 17% |
| Ddim yn siŵr | 16% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 33% | 25% | 13% | 0% | 0% | 0% | - | 33% |

2.8 Roedd 70% o'r ymatebwyr i Gwestiwn 3 yn cytuno ag (i) y safonau gofynnol gwell arfaethedig ar gyfer heulfan neu bortsh heb ei (h)eithrio a (ii) y gofynion arfaethedig y dylai heulfan neu bortsh fod ar wahân yn thermol i'r brif annedd er mwyn iddi/iddo fod wedi'i (h)eithrio rhag y gofynion effeithlonrwydd ynni (pan fo gofynion eraill fel y'u nodwyd yn y Ddogfen Gymeradwy yn cael eu bodloni hefyd).

- Argymhellodd un ymatebydd, ar gyfer (ii), y dylai drws gradd allanol gael ei ragnodi hefyd rhwng heulfan/portsh a gweddill yr annedd.

- Cododd dau ymatebydd faterion a oedd yn ymwneud â rheolaeth reoleiddiol ymarferol o ran heulfannau ar ôl iddynt gael eu codi: yn benodol, tynnu rhwystrau thermol rhwng annedd a heulfan a gwresogi heulfannau. Awgrymwyd hefyd y dylai mwy o adeiladau ddod o dan y rheoliadau er mwyn helpu i wella effeithlonrwydd ynni, drwy leihau maint yr adeiladau sydd wedi'u heithrio.
- Awgrymodd un ymatebydd fod y cyfeiriad at golofn (a) o Dabl 10.1 ym mharagraff 10.28 yn anghywir i bob golwg am ei fod yn ymwneud â ffenestri a drysau yn unig yn hytrach na waliau.

2.9 Roedd 14% o'r ymatebwyr yn anghytuno â'r cynigion.

- Nododd tri ymatebydd y dylai'r safonau gofynnol ar gyfer heulfan neu bortsh heb ei (h)eithrio gyrraedd yr un safonau â'r rhai ar gyfer estyniadau ond, yn eu barn nhw, roedd y safonau arfaethedig ar gyfer estyniadau (yng Nghwestiwn 1) yn rhy lym.
- Argymhellodd un ymatebydd mai ystafelloedd cyfanheddol yw heulfannau, eu bod yn fath aneffeithlon iawn o waith adeiladu ac na ddylent fod wedi'u heithrio rhag unrhyw agwedd ar y Rheoliadau Adeiladu, p'un a yw arwahanu thermol yn bresennol ai peidio.
- Argymhellodd un ymatebydd y dylai fod gofyniad cyffredinol i uwchraddio drysau (ac unrhyw ffenestri canolraddol) ar gyfer heulfannau neu bortshys newydd er mwyn iddynt gydymffurfio â gofynion cyfredol y Rheoliadau Adeiladu.
- Argymhellodd dau ymatebydd y dylid cyflwyno gofynion sylfaenol ar gyfer heulfannau er mwyn lleihau'r risg o orgynhesu ac yna osod unedau aerdymheru e.e. uchafswm gwerth g ar gyfer toeau heulfannau, yn dibynnu ar yr arwynebedd dan wydr a'u cyfeiriad.

2.10 Yn debyg i'r sylwadau uchod, o'r ymatebwyr hynny nad oeddent wedi nodi'r hyn a ffafriwyd ganddynt yn gyffredinol:

- Nid oedd dau yn cymeradwyo eithriad ar sail arwahanu thermol, gan nodi y byddai unrhyw ddrysau rhyngol yn cael eu tynnu wedyn ac nad oedd unrhyw reolaeth i atal hyn rhag digwydd.
- Nododd ymatebydd arall yn fwy cyffredinol hefyd na ddylai fod unrhyw eithriadau ar gyfer heulfannau na phortshys.

## Cwestiwn 4

| | Pawb a ymatebodd i'r cwestiwn hwn | Pensaer | Adeiladwr / Datblygwr | Arolygydd Cymeradwy Rheoli Adeiladu | Meddiannydd Adeilad/Preswylydd | Dylunydd Meddalwedd Adeiladu ac Ynni Datblygwr | Dylunydd / Peiriannydd / Syrfëwr | Cynllun Achredu Aseswyr Ynni | Sector Ynni | Awdurdod Lleol | Gwneuthurwr/Cadwyn Gyflenwi | Corff Proffesiynol | Rheolwr Eiddo / Cymdeithas Dai / Landlord | Cymdeithas Fasnach | Adeiladwr Tai Mawr | Parti Arall sydd â Diddordeb |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cwestiwn 4: A ydych yn cytuno â'r safonau gofynnol arfaethedig ar gyfer elfennau thermol a gedwir ar gyfer addasiadau fel y'u nodir yn Nhabl 11.1 a'r canllawiau ychwanegol i helpu i fynd i'r afael â risgiau posibl sy'n gysylltiedig â lleithder?** | | | | | | | | | | | | | | | | |
| **Cyfanswm** | 54 | 3 | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 | 4 | 8 | 16 | 3 | 2 | 2 | 0 | 10 |
| Ydw | 76% | 67% | 100% | 100% | 100% | 100% | 100% | 100% | 50% | 88% | 75% | 67% | 50% | 100% | - | 70% |
| Nac ydw | 6% | 33% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 25% | 0% | 0% | 33% | 0% | 0% | - | 0% |
| Ddim yn siŵr | 19% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 25% | 13% | 25% | 0% | 50% | 0% | - | 30% |

2.11 Roedd 76% o'r ymatebwyr i Gwestiwn 4 yn cytuno â'r safonau gofynnol arfaethedig ar gyfer elfennau thermol a gedwir ar gyfer addasiadau a'r canllawiau ychwanegol i helpu i fynd i'r afael â risgiau posibl sy'n gysylltiedig â lleithder.

- Roedd sawl ymatebydd yn cymeradwyo'r cynnig i gyflwyno canllawiau pellach i amlinellu'r risg bosibl sy'n gysylltiedig â lleithder wrth uwchraddio inswleiddio thermol a'r argymhelliad y dylai'r risg o leithder gael ei hasesu a'i lliniaru gan rywun sy'n gymwys i wneud hynny.
- Nododd un ymatebydd fod y gwerthoedd U cyfyngol yng ngholofn (b) o Dabl 11.1 yn dal i fod yn wan a bod angen sicrhau y caiff yr uchafswm gwerthoedd U (colofn (a)) eu cyrraedd lle bynnag y bo modd ac, felly, roedd yn dadlau y dylai unrhyw asesiad ynghylch a yw'r uchafswm gwerthoedd U hyn yn ddichonadwy yn economaidd, yn weithredol neu'n dechnegol fod yn fwy llym.
- Yn yr un modd, argymhellodd ymatebydd arall y gellid gwella ar y gwerth U cyfyngol yng ngholofn (b) o ystyried datblygiadau mewn technoleg.
- Argymhellodd dau ymatebydd y byddai'n briodol ceisio cyngor arbenigol ym mhob achos (yn hytrach na chyn gosod mesurau penodol yn unig) er mwyn sicrhau bod mesurau effeithlonrwydd ynni yn cael eu teilwra at yr adeilad.
- Cynigiodd un ymatebydd y byddai'n well pe bai'r nodiadau o sylwedd ar gyfer Tabl 11.1 yn cael eu cynnwys ym mhrif gorff y ddogfen er mwyn tanlinellu eu pwysigrwydd, ac y gall y tri chofnod ynglŷn â thoeau yn y tabl gael eu cyfuno am fod eu safonau yn gyson â'i gilydd bellach.

2.12 Roedd 6% o'r ymatebwyr yn anghytuno â'r cynigion.

- Fel uchod, argymhellodd un ymatebydd y gellid gwella ar y gwerthoedd U cyfyngol yng ngholofn (b) o Dabl 11.1 ond cydnabu fod angen ystyried risgiau sy'n gysylltiedig â lleithder.
- Argymhellodd un ymatebydd yn benodol fod angen gwella'r gwerthoedd U ar gyfer waliau a bod angen newid y cyfeiriad y ‘dylai’ fod asesiad lleithder ar

gyfer inswleiddio waliau mewnol i 'rhaid' er mwyn tanlinellu pwysigrwydd hyn, yn ogystal â dileu gwaith sy'n cynnwys inswleiddio waliau mewnol o blith y rhai y caniateir iddynt ddechrau ar sail hysbysiad adeiladu yn unig.

- Awgrymodd ymatebydd arall y dylai addasiad gyrraedd safonau adeiladau newydd ac mai dim ond os nad oes datrysiad technegol y dylai fod unrhyw eithriadau o ran risg sy'n gysylltiedig â lleithder. Argymhellodd yr ymatebydd hefyd, pe bai'r adeiladwr yn awgrymu nad yw safonau gwerth U yn economaidd ddichonadwy, yna na ddylid caniatáu'r gwaith adeiladu, yn hytrach na gostwng lefel y perfformiad thermol a ganiateir.

2.13 Gwnaed amrywiol sylwadau gan yr ymatebwyr hynny nad oeddent wedi nodi'r hyn a ffafriwyd ganddynt, gan gynnwys y canlynol:

- Awgrymodd un ymatebydd, er iddo gytuno â'r gwelliannau i gysoni gwerthoedd U ar gyfer gwahanol fathau o doeau, yn debyg i'r ymatebwyr eraill uchod, y gellid bod wedi gwella'r gwerthoedd U ar gyfer elfennau thermol eraill a gedwir (ni roddwyd unrhyw fanylion pellach).
- Cynigiodd ymatebydd arall nifer o newidiadau i'r testun, gan gynnwys y canlynol: ail-lunio'r canllawiau yn Nodiadau 4 a 6 o Dabl 11.1 i hyrwyddo gwell perfformiad lle y bo modd (e.e. "in the case of partially insulated cavities, seek expert advice on whether it is possible to …"), gan ychwanegu at nodyn 5 o dan Dabl 11.1 i gynnwys asesu pontydd thermol am eu bod yn anodd eu hosgoi mewn inswleiddio waliau mewnol ac y gallant achosi'r risg o anwedd yn ogystal â'r risg o golli gwres, gan gynnwys asesiad mwy cynhwysfawr yn nodyn 6 (o bosibl drwy gyfeirio at PAS 2030/5), drwy gyfeirio at BS5250 (o leiaf mewn sefyllfaoedd lle yr argymhellir y dylid ceisio cyngor arbenigol), a rhoi mwy o eglurder o ran pryd roedd angen asesu addasrwydd elfen a phryd y dylid ceisio cyngor arbenigol.
- Hoffai ymatebydd arall gael eglurder ynglŷn â'r hyn y tybir ei fod yn asesiad addas o risg sy'n gysylltiedig â lleithder, fel y cyfeiriwyd ato yn y Ddogfen Gymeradwy.

**YMATEB Y LLYWODRAETH**

2.14 Cafwyd cefnogaeth gref i'r cynigion yng Nghwestiynau 1 i 4 mewn perthynas â'r safonau adeiladwaith gofynnol. Felly, rydym yn bwriadu cyflwyno codiadau, ond byddwn yn gwneud rhai newidiadau o ganlyniad i'r adborth a nodir isod.

2.15 Ar gyfer Cwestiwn 1, byddwn yn ystyried y gwerth U ar gyfer strwythurau unionsyth a chyrbiau adeiladwyr er mwyn sicrhau y caiff hwn ei bennu ar lefel briodol y gellir ei chyflawni gyda'r cynhyrchion sydd ar gael ar hyn o bryd. Byddwn hefyd yn ailgynnwys nodyn o'r Ddogfen Gymeradwy bresennol sy'n ymwneud â chymhareb arwynebedd llawr perimedr ar gyfer Tabl 4.1.

2.16 Ar gyfer Cwestiwn 2, byddwn yn ystyried gwerth U ar gyfer cwarelau canol drysau ac yn cyflwyno safon amgen yn lle safon DSER band B (neu os yw mwy na 60% yn wydr, yna DSER band C). Byddwn hefyd yn ystyried gwerth U a gedwir ar gyfer ffenestri to ac yn cywiro'r gwallau golygyddol yn Nhabl 10.1.

2.17 Ar gyfer Cwestiynau 3 a 4, caiff paragraff 10.28 ei gywiro i gyfeirio at Dabl 4.1 yn hytrach na Thabl 10.1.

**Cwestiwn 5:**

| | Pawb a ymatebodd i'r cwestiwn hwn | Pensaer | Adeiladwr / Datblygwr | Arolygydd Cymeradwy Rheoli Adeiladu | Meddiannydd Adeilad/Preswylydd | Dylunydd Meddalwedd Adeiladu ac Ynni Datblygwr | Dylunydd / Peiriannydd / Syrfëwr | Cynllun Achredu Aseswyr Ynni | Sector Ynni | Awdurdod Lleol | Gwneuthurwr/Cadwyn Gyflenwi | Corff Proffesiynol | Rheolwr Eiddo / Cymdeithas Dai / Landlord | Cymdeithas Fasnach | Adeiladwr Tai Mawr | Parti Arall sydd â Diddordeb |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cwestiwn 5: A ydych yn cytuno â'r wybodaeth/cymwysterau a awgrymir y cynigir y dylai/dylent fod yn ofynnol ar gyfer gwaith adnewyddu, gwaith addasu neu newid defnydd perthnasol a roddir yn Adran 11, lle mae angen asesu addasrwydd elfen cyn gosod deunydd inswleiddio, neu lle yr argymhellir y dylid ceisio cyngor arbenigol?** | | | | | | | | | | | | | | | | |
| **Cyfanswm** | **57** | **3** | **1** | **1** | **1** | **1** | **1** | **1** | **4** | **8** | **16** | **4** | **2** | **3** | **0** | **11** |
| Ydw | 67% | 67% | 100% | 0% | 100% | 100% | 100% | 100% | 100% | 75% | 56% | 75% | 100% | 100% | - | 36% |
| Nac ydw | 5% | 33% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 6% | 0% | 0% | 0% | - | 9% |
| Ddim yn siŵr | 28% | 0% | 0% | 100% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 25% | 38% | 25% | 0% | 0% | - | 55% |

2.18 Roedd 67% o'r ymatebwyr yn cytuno â'r wybodaeth/cymwysterau a awgrymir y cynigir y dylai/dylent fod yn ofynnol ar gyfer gwaith adnewyddu, gwaith addasu neu newid defnydd perthnasol a roddir yn Adran 11, lle mae angen asesu addasrwydd elfen cyn gosod deunydd inswleiddio, neu lle yr argymhellir y dylid ceisio cyngor arbenigol.

- Tynnodd saith ymatebydd sylw at bwysigrwydd hyfforddiant ac uwchsgilio er mwyn sicrhau bod digon o arbenigwyr o'r fath ar gael.
- Roedd gan un ymatebydd bryder y gall y defnydd o gydgysylltydd ôl-osod yn unig fel y'i nodwyd yn PAS 2035 arwain at ffioedd uchel a thalu'n dda i'r Sefydliad Safonau Prydeinig.
- Nododd ymatebydd arall y dylai dulliau amgen a gynigir fod yn niwtral o ran busnes ac na ddylent ffafrio unrhyw opsiwn.
- Nododd un ymatebydd, er y dylai cydgysylltwyr ôl-osod achrededig feddu ar yr wybodaeth briodol i gynghori ar waith adnewyddu, ar gyfer gwaith addasu/newid defnydd, y dylid ymgynghori ag Aseswr Ynni Domestig Wrth Adeiladu oherwydd yr hyn y mae'n ei wybod am y rheoliadau adeiladu perthnasol.
- Nododd un ymatebydd, er bod angen pobl gymwys â chymwysterau addas, na ddylai swyddogion Rheoli Adeiladu fod yn gyfrifol am wneud gwiriadau yn y maes hwn na'i reoleiddio.
- Awgrymodd ymatebydd arall y byddai cydgysylltydd ôl-osod a'r defnydd o PAS 2035 yr un mor ddefnyddiol mewn prosiectau cymharol sylweddol eraill.
- Nododd un ymatebydd ei bod yn ymddangos mai dim ond argymhelliad yw'r nodyn ynglŷn â cheisio cyngor arbenigol ac, yn ddelfrydol, y dylai fod yn orfodol.

2.19 Roedd 5% o'r ymatebwyr yn anghytuno â'r cynigion.

- Roedd gan un ymatebydd bryderon mai gosodwyr systemau penodol yn ôl pob tebyg yw'r mathau o sefydliadau a fydd yn dod yn gymwys a bod ganddynt fudd masnachol mewn gosod eu cynhyrchion eu hunain a thynnodd sylw at bwysigrwydd sicrhau bod gweithwyr proffesiynol annibynnol siartredig, a fydd yn edrych ar yr adeilad yn ei gyfanrwydd, ar gael.
- Argymhellodd ymatebydd arall y dylai fod mwy o ganllawiau ar adeiladwaith (e.e. osgoi bylchau wrth osod deunydd inswleiddio, lleihau faint o aer sy'n gollwng i'r eithaf), gan edrych at y canllawiau ychwanegol a gynigir ar gyfer cartrefi newydd.
- Argymhellodd yr ymatebydd olaf y dylid tynnu sylw unwaith eto at y risgiau ychwanegol sy'n gysylltiedig â dull adeiladu traddodiadol ag adeiladwaith hydraidd a'r angen i'w asesu yn Adran 11 o'r Ddogfen Gymeradwy.

2.20 Roedd sylwadau gan yr ymatebwyr nad oeddent wedi nodi'r hyn a ffafriwyd ganddynt yn cynnwys:

- Gofynnodd sawl ymatebydd am ragor o eglurder ynglŷn â sut y byddai'r cynigion yn cael eu cymhwyso'n ymarferol, gan gynnwys rhagor o fanylion ynglŷn â sut y bwriedir cymhwyso PAS 2030 a 2035 ac i ba raddau.
- Soniwyd unwaith eto am y materion a godwyd uchod ynglŷn â'r angen i sicrhau bod digon o unigolion cymwysedig ar gael, ac na fyddai gwaith ar raddfa fach yn mynd yn hynod gostus oherwydd y broses ofynnol.
- Yn wir, roedd dau ymatebydd yn pryderu y gall y dull a gynigiwyd fod yn rhy gymhleth ac ychwanegu costau gormodol at brosiectau mwy sylfaenol, gan awgrymu y gallai asesiad technegol gael ei gynnal gan berson cymwys yn hytrach na bod angen cydgysylltydd ôl-osod PAS ffurfiol.
- Cynigiodd ymatebydd arall y dylid ei gwneud yn ofynnol bod cyngor arbenigol bob amser yn cael ei geisio oddi wrth aseswr â chymwysterau priodol.

**YMATEB Y LLYWODRAETH**

2.21 Roedd 67% o'r ymatebwyr yn cytuno â'r enghraifft o ble mae angen asesu addasrwydd elfen.

2.22 Roedd rhywfaint o'r adborth fel petai'n awgrymu bod darllenwyr yn ystyried bod y testun yn ofyniad technegol i'w gwneud yn ofynnol defnyddio cydgysylltydd ôl-osod, yn hytrach nag enghraifft yn ôl y bwriad. Felly, byddwn yn ailystyried y testun ar gyfer y Ddogfen Gymeradwy derfynol er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei ystyried yn enghraifft o arferion da awgrymedig yn hytrach na gofyniad technegol.

2.23 Cyfeiriwyd at weithdrefnau PAS 2030/35: 2019 yn y canllawiau fel gweithdrefn y gall dylunwyr/datblygwyr ei dilyn i ddangos i'r Corff Rheoli Adeiladu eu bod wedi rhoi digon o ystyriaeth i addasrwydd elfen. Byddwn hefyd yn ailystyried y testun i sicrhau bod hyn yn eglur yn y Ddogfen Gymeradwy derfynol.

## Cwestiwn 6

| | Pawb a ymatebodd i'r cwestiwn hwn | Pensaer | Adeiladwr / Datblygwr | Arolygydd Cymeradwy Rheoli Adeiladu | Meddiannydd Adeilad/Preswylydd | Dylunydd Meddalwedd Adeiladu ac Ynni | Dylunydd / Peiriannydd / Syrfëwr | Cynllun Achredu Aseswyr Ynni | Sector Ynni | Awdurdod Lleol | Gwneuthurwr/Cadwyn Gyflenwi | Corff Proffesiynol | Rheolwr Eiddo / Cymdeithas Dai / Landlord | Cymdeithas Fasnach | Adeiladwr Tai Mawr | Parti Arall sydd â Diddordeb |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cwestiwn 6: A ydych yn cytuno y dylid dileu Atodiad C o'r Ddogfen Gymeradwy bresennol?** | | | | | | | | | | | | | | | | |
| **Cyfanswm** | **56** | **3** | **1** | **1** | **1** | **1** | **1** | **1** | **4** | **8** | **16** | **3** | **1** | **3** | **0** | **12** |
| Ydw | 59% | 67% | 100% | 0% | 100% | 100% | 0% | 100% | 50% | 63% | 63% | 100% | 100% | 33% | - | 42% |
| Nac ydw | 11% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 100% | 0% | 50% | 13% | 6% | 0% | 0% | 33% | - | 0% |
| Ddim yn siŵr | 30% | 33% | 0% | 100% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 25% | 31% | 0% | 0% | 33% | - | 58% |

2.24 Roedd 59% o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig y dylid dileu Atodiad C o'r Ddogfen Gymeradwy, sy'n cynnwys manylion am welliannau cost isel i adnewyddu elfennau thermol sydd eisoes ar waith.

- Nododd sawl ymatebydd nad yw'r canllawiau presennol yn ymdrin â'r risgiau posibl sy'n gysylltiedig â lleithder yn foddhaol, a chan y dylai gwelliannau gael eu hasesu a'u dylunio i reoli risg (yn enwedig o ystyried y safonau gwybodaeth/cymwysterau newydd a gynigir ar gyfer gwaith adnewyddu – gweler Cwestiwn 5), mae hyn yn golygu y byddai'r canllawiau yn y tabl yn mynd yn ddiangen.
- Awgrymodd ymatebydd arall y dylid creu dogfen newydd, y dylid ei hanfon at unrhyw un sy'n cyflwyno cais o dan y Rheoliadau Adeiladu, sy'n rhoi arweiniad clir ynglŷn â sut y dylid gwneud y gwaith gwella yn gywir.

2.25 Roedd 11% o'r ymatebwyr yn anghytuno â'r cynnig.

- Roedd dau ymatebydd o'r farn y dylid cadw Atodiad C am ei fod yn ganllaw defnyddiol ar fesurau costeffeithiol posibl ac, er na fydd y rhestr o fesurau yn addas weithiau neu y bydd angen mesurau ategol, y dylid ychwanegu sylwadau i nodi'n glir fod angen asesiad technegol o'i addasrwydd ar gyfer pob mesur cyn ei roi ar waith a bod angen llunio a dilyn dyluniad priodol.
- Awgrymodd un ymatebydd y byddai'n ddefnyddiol ei gadw fel dogfen gyfeirio o bosibl pe bai'n cael ei ddiweddaru i gynnwys risgiau mesurau cysylltiedig o ran lleithder.

2.26 Roedd y sylwadau gan ymatebwyr nad oeddent wedi nodi'r hyn a ffafriwyd ganddynt yn cynnwys y canlynol:

- Awgrymodd un ymatebydd na fyddai dileu'r ddogfen yn lleihau'r risg o ganlyniadau anfwriadol o ganlyniad i ddefnyddio deunydd inswleiddio, gan y

gallai'r gwaith gael ei wneud o bosibl heb geisio cyngor arbenigol, gan ddadlau y dylid cadw Atodiad C a'i wella.

- Roedd ymatebydd arall am gadw Atodiad C hefyd, o ystyried ei bod yn ymddangos mai argymhelliad yn unig yw y dylid ceisio cyngor arbenigol, ac awgrymodd y gallai gael ei ddiweddaru a'i wella gyda chefnogaeth y diwydiant yn fwy cyffredinol.

## YMATEB Y LLYWODRAETH

2.27 Roedd 59% o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig i ddileu Atodiad C ac roedd 11% yn anghytuno â'r cynnig. Ar ôl ystyried yr ymatebion, teimlir o hyd nad yw tabl o welliannau inswleiddio costeffeithiol yn ymdrin â'r risgiau posibl sy'n gysylltiedig â lleithder yn foddhaol gan y dylai gwelliannau inswleiddio gael eu hasesu ar sail achos unigol a'u dylunio i reoli risg. Felly, bwriadwn ddileu'r Atodiad o'r Ddogfen Gymeradwy derfynol.

**Cwestiwn 7**

| | Pawb a ymatebodd i'r cwestiwn hwn | Pensaer | Adeiladwr / Datblygwr | Arolygydd Cymeradwy Rheoli Adeiladu | Meddiannydd Adeilad/Preswylydd | Dylunydd Meddalwedd Adeiladu ac Ynni Datblygwr | Dylunydd / Peiriannydd / Syrfëwr | Cynllun Achredu Aseswyr Ynni | Sector Ynni | Awdurdod Lleol | Gwneuthurwr/Cadwyn Gyflenwi | Corff Proffesiynol | Rheolwr Eiddo / Cymdeithas Dai / Landlord | Cymdeithas Fasnach | Adeiladwr Tai Mawr | Parti Arall sydd â Diddordeb |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cwestiwn 7: A ydych yn cytuno y dylid cyflwyno 'Boiler Plus' yn Adran 6?** | | | | | | | | | | | | | | | | |
| **Cyfanswm** | **57** | **3** | **1** | **1** | **1** | **1** | **1** | **1** | **5** | **8** | **17** | **4** | **1** | **2** | **0** | **11** |
| Ydw | 70% | 67% | 100% | 100% | 100% | 100% | 100% | 100% | 60% | 75% | 65% | 100% | 100% | 50% | - | 55% |
| Nac ydw | 5% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 20% | 0% | 6% | 0% | 0% | 0% | - | 9% |
| Ddim yn siŵr | 25% | 33% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 20% | 25% | 29% | 0% | 0% | 50% | - | 36% |

2.28 O'r rhai a ymatebodd i'r cwestiwn hwn, roedd 70% yn cytuno â'r cynnig, roedd 5% yn anghytuno ac nid oedd 25% yn siŵr.

2.29 O'r rhai a gytunodd y dylid cyflwyno Boiler Plus ac a gyflwynodd ymateb ysgrifenedig, y prif reswm a roddwyd oedd y dylid cysoni rheoliadau Cymru â rheoliadau Lloegr. Cydnabuwyd hefyd y byddai hyn yn gwella effeithlonrwydd boeleri. O'r ymatebwyr hynny a gytunodd, nodwyd nifer o bryderon ynglŷn â'r cynnig:

- Cynigiodd un ymatebydd y dylid cymhwyso'r mesurau ynni ychwanegol at foeleri system yn ogystal â boeleri cyfunol. Nododd un ymatebydd fod yn rhaid i lwyth a system cyfadfer ar gyfer y tywydd fod yn gwbl reoladwy.

- Cynigiodd un ymatebydd y dylai'r rheolyddion clyfar gynnig naill ai llwyth cwbl reoladwy neu system cyfadfer ar gyfer y tywydd sy'n gwbl reoladwy.
- Cynigiodd dau ymatebydd y dylai Boiler Plus gael ei ymestyn ymhellach na'r gofynion presennol ac yn benodol y dylid ei ymestyn i bob math o eneraduron tanwydd a gwres.
- Awgrymodd dau ymatebydd y dylid hyrwyddo ffynonellau gwres carbon isel amgen yn hytrach na chymryd yn ganiataol y caiff boeleri nwy eu disodli gan foeleri nwy mwy effeithlon.
- Nododd dau ymatebydd yr angen am gydbwyso hydronig. Dadleuir bod y geiriad presennol 'consumers should expect their installer to undertake this' yn annigonol ac felly y dylai cydbwyso hydronig fod yn orfodol.
- Roedd un ymatebydd yn poeni na fyddai Boiler Plus yn cael ei reoli'n llawn drwy'r Cynllun Personau Cymwys ac y byddai'n angenrheidiol i swyddogion Rheoli Adeiladu gadarnhau bod systemau wedi'u gosod yn gywir.

2.30 O'r ddau ymatebydd a oedd wedi anghytuno ac wedi rhoi ymateb ysgrifenedig, nodwyd y pryderon canlynol ynglŷn â'r cynigion:

- Mynegodd un ymatebydd bryderon ynglŷn â chanlyniadau anfwriadol y mesurau effeithlonrwydd arfaethedig ar gyfer boeleri nwy (92% ErP) a boeleri olew (91% ErP), a allai arwain at newid o foeleri sy'n defnyddio nwy petrolewm hylifedig (LPG) i rai sy'n defnyddio olew. Mae'r ymatebydd yn cynnig y dylid pennu isafswm effeithlonrwydd o 93% ErP ar gyfer boeleri olew a boeleri nwy, gan gyfeirio at yr Ymgynghoriad ar Safonau Adeiladu i Loegr. Gwnaeth ymatebydd arall yr un argymhelliad ar gyfer boeleri olew.
- Nododd un ymatebydd bryderon ynglŷn ag argaeledd boeleri sydd ag isafswm effeithlonrwydd o 91% ErP ar gyfer olew, gan awgrymu isafswm o 90% ErP a nodi y byddai'r 1% ychwanegol yn golygu buddsoddiad diangen a chostus mewn gwaith datblygu yn y byrdymor pan fo dyfodol olew yn fyrhoedlog.

2.31 O'r ddau ymatebydd nad oeddent yn siŵr ac a oedd wedi rhoi ymateb ysgrifenedig, nodwyd y pryderon canlynol â'r cynnig:

- Cynigiodd un ymatebydd y dylid cymhwyso'r mesurau ynni ychwanegol at foeleri system yn ogystal â boeleri cyfunol. Mae'r ymatebydd yn nodi bod systemau cyfadfer ar gyfer y tywydd ar gael ar gyfer pob math o foeler a hefyd fod gan wneuthurwyr ddatrysiadau rheoli llwyth a chyfadfer ar gyfer y tywydd ar gyfer systemau sy'n cynnwys silindrau dŵr poeth.
- Mae'r ddau ymatebydd yn cynnig y dylai rheolyddion clyfar gynnig naill ai llwyth cwbl reoladwy neu system cyfadfer ar gyfer y tywydd sy'n gwbl reoladwy a mynegwyd pryder ynglŷn â'r protocol cyfathrebu rhwng y rheolyddion a'r boeler. Awgrymir, er y bydd angen ymgynghori yn y dyfodol, mai'r ffordd orau o weithredu yn y cyfamser yw dilyn Boiler Plus yn Rhan L yn Lloegr ar gyfer adeiladau presennol. Mae un ymatebydd hefyd yn awgrymu y dylai thermostatau ystafelloedd fod yn gyson â'r diffiniad o reoli clyfar ac y dylent hefyd gynnwys llwyth neu system cyfadfer ar gyfer y tywydd a reolir yn uniongyrchol er mwyn osgoi sefyllfa lle mae thermostatau yn gweithredu mewn modd ymlaen neu i ffwrdd.
- Roedd un ymatebydd yn pryderu y byddai'r gosodwyr yn dewis y datrysiad symlaf i arbed ynni mewn gwirionedd yn hytrach na'r datrysiad sy'n sicrhau'r arbedion mwyaf.
- Nododd y ddau ymatebydd yr angen am gydbwyso hydronig. Maent yn dadlau bod y geiriad presennol 'expected practice' a 'consumers should expect their

installer to undertake this' yn annigonol ac felly y dylid gwneud cydbwyso hydronig yn orfodol.

2.32 O'r ddau ymatebydd na roddodd ateb ond a gyflwynodd ymateb ysgrifenedig, nodwyd y pryderon canlynol ynglŷn â'r cynnig:

- Mynegodd un ymatebydd bryder ynglŷn ag argaeledd boeleri cyfunol sydd ag isafswm effeithlonrwydd o 92% ErP.
- Mae un ymatebydd yn pryderu bod boeleri nwy ac olew wedi'u cynnwys yn y Dogfennau Cymeradwy ac nad oes dyddiad i roi'r gorau i'w defnyddio yn raddol wedi'i nodi. Mae'r ymatebydd yn mynd yn ei flaen i nodi nad oes unrhyw safonau gosod ar gyfer nifer o dechnolegau, gan gynnwys pympiau gwres, paneli thermol solar a storio batris. Mae'r ymatebydd yn mynd yn ei flaen i awgrymu y dylai safonau microgynhyrchu fod yn ofynnol.

**YMATEB Y LLYWODRAETH**

2.33 Roedd 70% yn cytuno â'r cynigion ac roedd 5% yn anghytuno felly rydym yn bwriadu bwrw ymlaen â'r cynigion.

2.34 Roedd y diffiniadau o rai o'r technolegau effeithlonrwydd ynni yn y Ddogfen Gymeradwy ddrafft yn wahanol i'r rhai a ddefnyddir yn Lloegr. Ar ôl ystyried yr adborth, rydym yn bwriadu diwygio'r diffiniad ar gyfer llwyth a chyfadfer ar gyfer y tywydd yn y Ddogfen Gymeradwy derfynol er mwyn bod yn gyson â Lloegr a sicrhau cysondeb.

**Cwestiwn 8**

| | Pawb a ymatebodd i'r cwestiwn hwn | Pensaer | Adeiladwr / Datblygwr | Arolygydd Cymeradwy Rheoli Adeiladu | Meddiannydd Adeilad/Preswylydd | Dylunydd Meddalwedd Adeiladu ac Ynni Datblygwr | Dylunydd / Peiriannydd / Syrfëwr | Cynllun Achredu Aseswyr Ynni | Sector Ynni | Awdurdod Lleol | Gwneuthurwr/Cadwyn Gyflenwi | Corff Proffesiynol | Rheolwr Eiddo / Cymdeithas Dai / Landlord | Cymdeithas Fasnach | Adeiladwr Tai Mawr | Parti Arall sydd â Diddordeb |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cwestiwn 8: A ydych yn cytuno â'r safonau gofynnol ar gyfer gwasanaethau adeilad yn Adrannau 5 a 6?** | | | | | | | | | | | | | | | | |
| **Cyfanswm** | **58** | **3** | **1** | **1** | **1** | **1** | **1** | **1** | **5** | **8** | **17** | **3** | **1** | **4** | **0** | **11** |
| Ydw | 66% | 100% | 100% | 0% | 100% | 100% | 100% | 100% | 0% | 100% | 47% | 100% | 100% | 75% | - | 64% |
| Nac ydw | 19% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 80% | 0% | 35% | 0% | 0% | 0% | - | 9% |
| Ddim yn siŵr | 16% | 0% | 0% | 100% | 0% | 0% | 0% | 0% | 20% | 0% | 18% | 0% | 0% | 25% | - | 27% |

2.35 O'r rhai a ymatebodd i'r cwestiwn hwn, roedd 66% yn cytuno â'r cynnig, roedd 19% yn anghytuno ac nid oedd 16% yn siŵr.

2.36 O'r rhai a oedd yn cytuno ac a oedd wedi rhoi ymateb ysgrifenedig:

- Mae un ymatebydd yn nodi y dylai'r safonau sydd i'w cyrraedd er mwyn cyd-fynd ag arferion da fod ar waith eisoes. Felly, mae'r ymatebydd yn cydsynio y dylai'r safonau ddod yn ofynnol er mwyn gorfodi hyn.
- Nododd un ymatebydd y dylai'r galw am ynni gael ei leihau cymaint â phosibl, ac yna y dylai'r offer mwyaf effeithlon gael eu gosod cyn bod datrysiadau ynni adnewyddadwy yn cael eu gosod ac y dylid defnyddio isafswm ôl stop i hyrwyddo gwelliannau.
- Nododd ymatebydd arall fod angen dull adeiladwaith yn gyntaf, yn enwedig i nodi manteision gwell inswleiddio. Roedd yr ymatebydd hefyd yn pryderu ynglŷn â'r ddarpariaeth newydd ar gyfer inswleiddio pibellau yn Rhan L, gan nodi'n benodol y gwrthdaro rhwng Dogfen Gymeradwy Rhan L a'r Canllaw Cydymffurfio ar gyfer Gwasanaethau Adeilad Domestig.
- Roedd un ymatebydd yn pryderu am yr enghraifft yn 5.4 lle mae hen foeler LPG â chyfradd effeithlonrwydd o 70% yn cael ei ddisodli gan foeler olew â chyfradd effeithlonrwydd o 90%. Mae'r ymatebydd yn pryderu ynglŷn â'r defnydd o foeler olew yn yr enghraifft hon er ei fod yn llawer mwy effeithlon. Teimlai'r ymatebydd fod hyn yn rhoi'r neges anghywir gan mai'r nod yw lleihau allyriadau carbon. Mae'r ymatebydd yn awgrymu y dylai'r boeler olew gael ei newid am foeler biomas neu bwmp gwres.
- Awgrymodd un ymatebydd y byddai'n fuddiol cael dogfen sy'n nodi manteision safonau uwch i ddefnyddwyr.

2.37 O'r ymatebwyr a oedd wedi anghytuno ac wedi rhoi ymateb ysgrifenedig:

- Mae pedwar ymatebydd yn nodi materion sy'n ymwneud â'r SCoP arfaethedig o 2.8 ar gyfer pympiau gwres. Un pryder yw nad yw'r isafswm SCoP o 2.8 yn hygred heb amod gradd safon. Mae dau o'r ymatebwyr yn cynnig y dylai'r amod gradd fod yn unol ag EN14511. Roedd un ymatebydd yn cynnig dewis arall, sef gwneud y radd yn unol â 5.32 ac EN14825. Mae un ymatebydd yn cynnig y dylid cysoni â'r cynigion yn yr ymgynghoriad ar Safonau Adeiladau'r Dyfodol i Loegr (gan fodloni'r gofynion Ecoddylunio sylfaenol ar gyfer unedau ehangu uniongyrchol ac, ar gyfer pob system arall, y dylai'r isafswm SCoP gael ei godi i 3.0 ar gyfer gwresogi). Mae un ymatebydd yn awgrymu na ddylai fod isafswm SCoP ar gyfer gwresogi ac, yn lle hynny, mae'n cynnig targed o 3.0.
- Roedd gan dri ymatebydd bryderon ynglŷn â'r isafswm effeithlonrwydd boeler. Ym marn yr ymatebydd cyntaf mae effeithlonrwydd o 91% ar gyfer boeleri olew yn rhy uchel a dylid pennu effeithlonrwydd o 90%, fel yng Nghwestiwn 7. Roedd ymatebydd arall o blaid cyflwyno isafswm ErP o 91% o leiaf ar gyfer boeleri olew i fod yn gyson â'r safonau effeithlonrwydd arfaethedig a gynigir i Loegr. Mae'r trydydd ymatebydd yn credu na fydd y datganiad 'have a seasonal efficiency not worse than 2 percentage points lower than that of the service being replaced' yn hwyluso'r broses o osod cyfarpar gwresogi mwy effeithlon.
- Roedd dau ymatebydd yn pryderu ynglŷn â'r terfyn uchaf o 120% o ran maint cyfarpar gwresogi. Gofynnodd yr ymatebwyr am fwy o eglurder o ran y fethodoleg a ddefnyddiwyd i gyfrifo meintiau systemau gwresogi a'r angen i bennu maint boeleri cyfunol yn unol â'r llwyth dŵr poeth domestig yn hytrach na'r galw am wres.
- Mae ymatebydd arall yn credu nad yw'r ddwy enghraifft o ddulliau a roddwyd yn gyfredol mwyach, gan argymell cyfrifiadau fesul ystafell ar gyfer dylunio system wresogi a chyfeirio at Ganllaw ar Ddylunio System Wresogi Tymheredd Isel sydd wrthi'n cael ei ddatblygu.

- Roedd gan un ymatebydd bryderon ynglŷn â chanlyniadau anfwriadol yn deillio o gymal 5.4 sy'n rhoi'r enghraifft o osod boeler peledi coed â chyfradd effeithlonrwydd o 80% yn lle boeler olew â chyfradd effeithlonrwydd o 80%. Mae'r ymatebydd yn nodi y byddai'r ffactor ynni cynradd ar gyfer boeler biomas yn yr enghraifft hon yn uwch na'r boeler olew sy'n cael ei ddisodli.
- Mae ymatebydd arall yn awgrymu, mewn perthynas â disodli technoleg adnewyddadwy, y bydd angen i reoliadau newydd nodi'n glir mai safonau MCS yw'r gofyniad sylfaenol ar gyfer unrhyw osodiad microgynhyrchu, ac y dylent gyfeirio'n benodol at y safonau sy'n ofynnol ar gyfer gosod neu ddisodli dulliau ynni adnewyddadwy domestig er mwyn atal cynhyrchion is na'r safon rhag cael eu gosod.
- Mynegodd un ymatebydd bryderon ynglŷn â'r ddarpariaeth newydd yn Rhan L o ran inswleiddio pibellau. Mae'r ymatebydd yn pryderu'n benodol ynglŷn â'r cyfeiriad at ddeunydd inswleiddio perfformiad uchel, gan awgrymu y byddai isafswm gwres a gollir ar amodau gweithredu tybiannol datganedig yn ffordd well o weithredu. Roedd yr ymatebydd hefyd yn pryderu ynglŷn ag adran 4.16, gan nodi bod angen egluro'r safon yn adran B y dylid ei defnyddio.

2.38 O'r pedwar ymatebydd nad oeddent yn siŵr ac a gyflwynodd ymateb ysgrifenedig:

- Nododd dau ymatebydd fod angen dull adeiladwaith yn gyntaf, gan nodi manteision gwell inswleiddio yn benodol.
- Roedd gan un ymatebydd bryderon ynglŷn â'r terfyn uchaf o 120% o ran maint cyfarpar gwresogi. Gofynnodd yr ymatebydd am fwy o eglurder o ran y fethodoleg a ddefnyddiwyd i gyfrifo meintiau systemau gwresogi a'r angen i bennu maint boeleri cyfunol yn unol â'r llwyth dŵr poeth domestig yn hytrach na'r galw am wres.
- Roedd gan un ymatebydd bryderon mewn perthynas â'r enghraifft yn 5.4 sy'n gosod boeler olew â chyfradd effeithlonrwydd o 90% yn lle hen foeler LPG â chyfradd effeithlonrwydd o 70%. Mae'r ymatebydd yn pryderu ynglŷn â'r defnydd o foeler olew yn yr enghraifft hon er ei fod yn llawer mwy effeithlon. Mae'r ymatebydd yn teimlo ei bod yn rhoi'r neges anghywir gan mai'r nod yw lleihau allyriadau carbon, gan awgrymu y dylai'r boeler olew mwy effeithlon yn yr enghraifft gael ei newid am foeler LPG effeithlon iawn gan fod y rhain ar gael yn hawdd.
- Nododd un ymatebydd fod adran 5.10-5.14 yn llai eglur na'r hyn a welwyd mewn fersiynau blaenorol o'r rheoliadau. Yn benodol, mae'r ymatebydd yn nodi'r canlynol: diffyg eglurder ynglŷn â'r angen i osod rheolyddion amser a thymheredd ar bob cylched wresogi; mae'r term ‘boiler interlock’ wedi cael ei ddileu o adran 5.11; nid yw'r pwyntiau bwled yn 5.14 yn glir eu hystyr; ac nid oes unrhyw gyfeiriad at y rheolyddion sy'n ofynnol pan gaiff cydran o system ei hadnewyddu. Mae'r un ymatebydd hefyd yn mynegi pryderon ynglŷn â'r fethodoleg a ddefnyddiwyd yn 5.7 i bennu meintiau gan nad yw'r ymatebydd yn argyhoeddedig bod methodoleg yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni yn addas ar gyfer dylunio system gritigol ar gyfer cysur meddianwyr ac mae'n nodi bod angen eglurder ynglŷn â sut mae hyn yn gymwys i osod boeleri newydd ac a fydd angen gosod rheiddiaduron newydd os ceir eu bod o faint anghywir.
- Nododd un ymatebydd nad yw rhai o'r cyfeiriadau a'r safonau yn gyfredol mwyach ac y bydd angen eu diwygio a bod rhai cyfeiriadau at safonau wedi cael eu dileu ac y dylid eu hadfer e.e. BS7693:2019 a BS1264.

2.39 O'r ddau ymatebydd nad oeddent wedi nodi'r hyn a ffafriwyd ganddynt ar gyfer y cynigion ond a gyflwynodd ymateb ysgrifenedig:

- Mae un ymatebydd yn credu bod y terfyn uchaf o 120% o ran maint cyfarpar gwresogi yn rhy uchel ac yn fympwyol.
- Nododd un ymatebydd fod angen dull adeiladwaith yn gyntaf.

## YMATEB Y LLYWODRAETH

2.40 Roedd 66% o'r ymatebwyr yn cytuno â'r safonau gofynnol ar gyfer gwasanaethau adeilad yn Adrannau 5 a 6 o'r Ddogfen Gymeradwy L ddrafft ac roedd 19% yn anghytuno, felly rydym yn bwriadu cyflwyno'r safonau newydd.

2.41 ganlyniad i'r adborth, byddwn yn ystyried y newidiadau canlynol ar gyfer y Ddogfen Gymeradwy derfynol:
- newid yr enghraifft a roddir ym mharagraff 5.4 i ddisodli boeler olew gan bwmp gwres;
- ailystyried paragraffau 5.10 i 5.14 er mwyn sicrhau bod y geiriad yn glir;
- canllawiau mewn perthynas â phympiau gwres a'r safonau y dylent gael eu dylunio, eu gosod a'u comisiynu yn unol â nhw.

### Cwestiwn 9

| | Pawb a ymatebodd i'r cwestiwn hwn | Pensaer | Adeiladwr / Datblygwr | Arolygydd Cymeradwy Rheoli Adeiladu | Meddiannydd Adeilad/Preswylydd | Dylunydd Meddalwedd Adeiladu ac Ynni Datblygwr | Dylunydd / Peiriannydd / Syrfëwr | Cynllun Achredu Aseswyr Ynni | Sector Ynni | Awdurdod Lleol | Gwneuthurwr/Cadwyn Gyflenwi | Corff Proffesiynol | Rheolwr Eiddo / Cymdeithas Dai / Landlord | Cymdeithas Fasnach | Adeiladwr Tai Mawr | Parti Arall sydd â Diddordeb |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cwestiwn 9: A ydych yn cytuno â'r cynnig, pan gaiff system wresogyddion ei gosod neu ei hadnewyddu mewn cartref presennol, y dylai'r system fod yn ddigon mawr i'r system wresogyddion allu gweithio ar dymheredd llif o 55°C neu'n is, lle y bo'n ymarferol, yn Adran 5?** | | | | | | | | | | | | | | | | |
| **Cyfanswm** | **60** | **3** | **1** | **1** | **1** | **1** | **1** | **1** | **6** | **8** | **18** | **3** | **0** | **4** | **0** | **12** |
| Ydw | 72% | 100% | 100% | 100% | 100% | 0% | 100% | 100% | 50% | 88% | 67% | 100% | - | 50% | - | 67% |
| Nac ydw | 12% | 0% | 0% | 0% | 0% | 100% | 0% | 0% | 50% | 0% | 6% | 0% | - | 25% | - | 8% |
| Ddim yn siŵr | 17% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 13% | 28% | 0% | - | 25% | - | 25% |

2.42 O'r rhai a ymatebodd i'r cwestiwn hwn, roedd 72% yn cytuno â'r cynnig, roedd 12% yn anghytuno ac nid oedd 17% yn siŵr.

2.43 O'r rhai a oedd yn anghytuno â'r cynigion ac a oedd wedi cyflwyno ymateb ysgrifenedig:

- Cydnabuwyd yn gyffredinol y byddai'r terfyn o 55°C yn ei gwneud yn bosibl diogelu systemau gwresogi at y dyfodol a chyfeiriodd nifer o ymatebwyr ato fel newid heb anfanteision. Cydnabuwyd hefyd y byddai'r terfyn o 55°C yn

drothwy ar gyfer diogelu anheddau presennol at y dyfodol. Mae un ymatebydd yn awgrymu na fyddai'r cynnig yn cyfyngu ar y dewis o systemau gwresogi gan fod 55°C yn fuddiol o ran effeithlonrwydd boeleri confensiynol.

- Yna, tynnwyd sylw at nifer o bryderon. Roedd dau ymatebydd yn pryderu bod potensial i gamfanteisio, o ystyried y defnydd o'r geiriau 'where feasible' yn y Dogfennau Cymeradwy. Mae un ymatebydd yn awgrymu y dylai fod yn ofynnol i swyddog Rheoli Adeiladu gymeradwyo gosodiadau os tybir nad ydynt yn ddichonadwy. Mynegwyd pryder hefyd ynglŷn â'r ymadrodd 'y dylid gosod neu adnewyddu system wresogyddion mewn adeilad presennol (gan gynnwys y boeler a rheiddiaduron)' oherwydd y gred y byddai'r gosodwr yn gallu osgoi'r cynnig drwy adael un rheiddiadur yn ei le.
- Pwysleisiodd tri ymatebydd fod angen mabwysiadu dull adeiladwaith yn gyntaf er mwyn ei gwneud yn bosibl i'r systemau gwresogi weithredu'n effeithiol ar dymereddau isel.
- Cynigiodd un ymatebydd fod angen cyfathrebu â'r meddiannydd ynglŷn â sut mae angen i'r system wresogi weithredu ar y tymereddau is.

2.44 O'r ymatebwyr a oedd wedi anghytuno ac wedi rhoi ymateb ysgrifenedig:

- Dim ond un ymatebydd a nododd fod yr isafswm tymheredd yn rhy isel, gan fynegi pryder y byddai'n lleihau'r dewis i ddefnyddwyr ac yn cynyddu costau gwresogi.
- O ran yr ymatebion negyddol eraill, roedd y geiriad yn aneglur i dri ymatebydd, a ddehonglodd fod y Ddogfen Gymeradwy yn dweud isafswm tymheredd o 55°C yn hytrach nag uchafswm tymheredd o 55°C. Awgrymodd dau ymatebydd fod 55°C yn rhy uchel ac y dylid gostwng y safon ofynnol i 45°C, a fyddai'n fwy addas ar gyfer technolegau carbon isel.

2.45 Roedd yr unig ymatebydd nad oedd yn siŵr a oedd o blaid y cynigion ai peidio, ac a gyflwynodd ymateb ysgrifenedig, yn cwestiynu sut y byddai'r tymereddau gweithredu is yn cael eu gorfodi.

2.46 O'r ddau ymatebydd nad oeddent wedi nodi a oeddent o blaid y cynigion ai peidio ond a gyflwynodd ymateb ysgrifenedig:

- Pwysleisiodd un ymatebydd fod angen dull adeiladwaith yn gyntaf er mwyn sicrhau y gall y systemau gwresogi weithredu'n effeithiol ar dymereddau is.
- Cynigiodd un ymatebydd fod angen cyfathrebu â'r meddiannydd ynglŷn â sut mae angen i'r system wresogi weithredu ar y tymereddau is.

## Cwestiwn 10

| | Pawb a ymatebodd i'r cwestiwn hwn | Pensaer | Adeiladwr / Datblygwr | Arolygydd Cymeradwy Rheoli Adeiladu | Meddiannydd Adeilad/Preswylydd | Dylunydd Meddalwedd Adeiladu ac Ynni Datblygwr | Dylunydd / Peiriannydd / Syrfëwr | Cynllun Achredu Aseswyr Ynni | Sector Ynni | Awdurdod Lleol | Gwneuthurwr/Cadwyn Gyflenwi | Corff Proffesiynol | Rheolwr Eiddo / Cymdeithas Dai / Landlord | Cymdeithas Fasnach | Adeiladwr Tai Mawr | Parti Arall sydd â Diddordeb |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cwestiwn 10: A ydych yn cynnig unrhyw fesur(au) eraill i sicrhau bod adeiladau yn addas at y dyfodol?** | | | | | | | | | | | | | | | | |
| **Cyfanswm** | **64** | **3** | **1** | **1** | **1** | **1** | **1** | **1** | **6** | **8** | **19** | **4** | **1** | **4** | **0** | **13** |
| Ydw | 42% | 67% | 100% | 0% | 0% | 100% | 0% | 0% | 67% | 13% | 37% | 50% | 100% | 75% | - | 38% |
| Nac ydw | 58% | 33% | 0% | 100% | 100% | 0% | 100% | 100% | 33% | 88% | 63% | 50% | 0% | 25% | - | 62% |
| Ddim yn siŵr | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | - | 0% |

2.47 Cynigiodd 25 o ymatebwyr fesurau i sicrhau bod adeiladau yn addas at y dyfodol.

- Cynigiodd wyth ymatebydd y dylid cynnwys storio dŵr poeth domestig i sicrhau bod gosodiadau pympiau gwres yn addas at y dyfodol. Cynigiodd pedwar ymatebydd y dylai fod yn ofynnol gosod dulliau storio dŵr poeth domestig lle nad ydynt yn bodoli ar hyn o bryd. Awgrymodd dau o'r ymatebwyr hyn y dylid gwneud storio thermol yn orfodol ac awgrymodd un ymatebydd gyfaint storio thermol o 300l. Mae pedwar ymatebydd yn derbyn y byddai goblygiadau cost pe bai gosod tanciau dŵr poeth domestig yn orfodol ond maent yn cynnig na ddylid gwahardd dulliau storio dŵr poeth domestig sy'n bodoli eisoes.
- Nododd pedwar ymatebydd y byddai angen gwella adeiladwaith cyn/ochr yn ochr â gosod mesurau eraill.
- Cynigiodd tri ymatebydd y dylid defnyddio bio LPG yn lle pympiau gwres, yn enwedig yn lle boeleri olew. Dylid nodi bod pob un o'r tri ymateb o'r diwydiant LPG.
- Nododd un ymatebydd fod angen adfer gwres o ddŵr gwastraff, gan gyfeirio at y duedd bresennol i osod pennau cawod 'rhaeadr'.
- Cynigiodd un ymatebydd y dylid ei gwneud yn ofynnol gosod boeleri sy'n barod ar gyfer hydrogen o 2025 ymlaen mewn anheddau presennol.
- Cynigiodd un ymatebydd y dylid ystyried cydbwyso hydronig fel mesur a argymhellir ar gyfer systemau gwresogi newydd.
- Cynigiodd un ymatebydd y dylid gosod mesurau heb fawr ddim anfanteision i leihau'r risg o orgynhesu e.e. cynnwys waliau, lloriau a chaeadau allanol màs thermol uchel. Mae ymatebydd arall yn awgrymu bod angen rhannu gwybodaeth rhwng Rhan L a Rhan S.

- Cynigiodd un ymatebydd y dylid gosod pibellau gwresogi o dan y llawr mewn unrhyw slab llawr newydd er mwyn ei gwneud yn bosibl ôl-osod systemau gwresogi o dan y llawr.
- Cynigiodd un ymatebydd y dylid gosod goleuadau foltedd isel sy'n gallu rhedeg o ddulliau storio batris tra bydd gwaith ailwefru trydanol yn cael ei wneud.
- Cynigiodd dau ymatebydd y dylid gosod paneli ffotofoltäig solar ar bob annedd newydd.
- Nododd dau ymatebydd gynigion ynglŷn â seilwaith trydanol. Cynigiodd un ymatebydd lwfans gofod ar gyfer gosod batris yn y dyfodol a llwybr wedi'i ddiogelu drwy'r annedd ar gyfer ôl-osod ceblau. Cynigiodd yr ymatebydd arall seilwaith trydanol ar gyfer pympiau gwres ac offer gwefru cerbydau trydan a fyddai'n addas at y dyfodol.
- Nododd un ymatebydd fod angen rhoi sylw ar sicrhau bod maint systemau gwresogi yn briodol.
- Awgrymodd un ymatebydd y dylai gwaith ar fod yn addas at y dyfodol gynnwys cyngor i feddianwyr/perchenogion er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r opsiynau posibl ar gyfer gwella effeithlonrwydd ynni'r annedd.
- Cynigiodd un ymatebydd y dylid paratoi cynllun datgarboneiddio ar gyfer pob annedd newydd a phob annedd bresennol sy'n cael ei hadnewyddu.

**YMATEB Y LLYWODRAETH**

2.48 Roedd 72% o'r ymatebwyr yn cytuno ac roedd 12% yn anghytuno â'r cynnig, pan gaiff system wresogyddion ei gosod neu ei hadnewyddu mewn cartref presennol, y dylai'r system fod yn ddigon mawr i'r system wresogyddion allu gweithio ar dymheredd llif o 55°C neu'n is, lle y bo'n ymarferol. Felly, rydym yn bwriadu cyflwyno'r gofyniad hwn.

2.49 Fodd bynnag, ar ôl ystyried yr adborth, byddwn yn ystyried aralleirio 'where not feasible' a rhoi 'where not technically or functionally feasible' er mwyn bod yn gyson ag adrannau eraill o'r Ddogfen Gymeradwy.

2.50 Cynigiodd 42% o'r ymatebwyr ragor o fesurau ar fod yn addas at y dyfodol, a'r un a nodwyd amlaf oedd storio dŵr poeth. Rydym yn cytuno y gellid ystyried silindr dŵr poeth fel mesur addas at y dyfodol, ond gan na fyddai'r silindr rhagosodedig penodol o bosibl yn cydweddu â'r system gwresogi carbon isel (e.e. pwmp gwres) a ddewisir i'w gosod yn y dyfodol (i'w hadnewyddu o bosibl ar ôl 20 mlynedd), mae'r buddiannau yn y dyfodol yn ansicr a cheir risg o gostau ofer. Felly, nid ydym yn bwriadu cynnwys yr opsiwn hwn.

2.51 Caiff boeleri newydd sy'n barod ar gyfer hydrogen eu hystyried yn yr adolygiad nesaf o Ran L 2025.

## Cwestiwn 11

| | Pawb a ymatebodd i'r cwestiwn hwn | Pensaer | Adeiladwr / Datblygwr | Arolygydd Cymeradwy Rheoli Adeiladu | Meddiannydd Adeilad/Preswylydd | Dylunydd Meddalwedd Adeiladu ac Ynni | Dylunydd / Peiriannydd / Syrfëwr | Cynllun Achredu Aseswyr Ynni | Sector Ynni | Awdurdod Lleol | Gwneuthurwr/Cadwyn Gyflenwi | Corff Proffesiynol | Rheolwr Eiddo / Cymdeithas Dai / Landlord | Cymdeithas Fasnach | Adeiladwr Tai Mawr | Parti Arall sydd â Diddordeb |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cwestiwn 11: A ydych yn cytuno â'r newidiadau arfaethedig i welliannau canlyniadol yn Adran 12?** | | | | | | | | | | | | | | | | |
| **Cyfanswm** | **54** | **2** | **1** | **1** | **0** | **1** | **1** | **1** | **4** | **8** | **17** | **4** | **2** | **2** | **0** | **10** |
| Ydw | 70% | 50% | 100% | 100% | - | 0% | 100% | 0% | 75% | 100% | 59% | 50% | 100% | 100% | - | 70% |
| Nac ydw | 13% | 50% | 0% | 0% | - | 100% | 0% | 100% | 25% | 0% | 12% | 25% | 0% | 0% | - | 0% |
| Ddim yn siŵr | 17% | 0% | 0% | 0% | - | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 29% | 25% | 0% | 0% | - | 30% |

2.52 Roedd 70% o'r ymatebwyr yn cytuno â'r newidiadau arfaethedig i welliannau canlyniadol a oedd, yn benodol, yn cynnwys dileu'r angen i osod rhagor o ddeunydd inswleiddio mewn waliau ceudod sydd wedi'u hinswleiddio'n rhannol, gan y gall hyn achosi risg gynyddol o leithder, ac ychwanegu canllawiau ar gyfer asesiad annibynnol er mwyn sicrhau bod wal geudod heb ei hinswleiddio yn addas i'w huwchraddio.

- Roedd yr adborth yn gefnogol i'r cynnig bod yn rhaid i'r stoc dai gael ei datgarboneiddio drwy osodiadau o safon uchel nad ydynt yn achosi problemau lleithder.
- Argymhellodd un ymatebydd y dylid integreiddio'r canllawiau newydd a gynigir ar gyfer anheddau newydd er mwyn helpu i wella ansawdd wrth osod deunydd inswleiddio ac argymhellodd ymatebydd arall yn fwy cyffredinol y dylid cyflwyno mesurau sy'n ymwneud ag aerglosrwydd ar gyfer estyniad/addasiad.
- Awgrymodd un ymatebydd nad yw'r eithriad cyffredinol ar gyfer waliau ceudod sydd wedi'u hinswleiddio'n rhannol yn briodol gan y gallai rhai waliau o'r fath gael eu huwchraddio o bosibl; efallai y byddai'n fwy priodol ceisio cyngor arbenigol.
- Nododd un ymatebydd na fyddai nifer sylweddol o anheddau yn addas ar gyfer inswleiddio waliau ceudod o bosibl oherwydd eu hadeiladwaith a chynigiodd y dylid cynnwys cyfeiriad at hyn yn ychwanegol at ‘sites exposed to driving rain’. Gofynnodd yr un ymatebydd hefyd am fwy o eglurder ynglŷn â'r ffordd y bwriedir cymhwyso'r PAS (e.e. a fyddai hyn yn gofyn am wneud defnydd llawn o gydgysylltydd ôl-osod, dylunydd neu osodwr?).
- Roedd ymatebydd arall o blaid cysoni â PAS2035 ond awgrymodd y dylid dilyn Llwybr B (yn hytrach na Llwybr A) gan ei fod yn ei gwneud yn ofynnol datblygu cynllun gwella tymor canolig a all annog perchenogion tai i wneud gwelliannau angenrheidiol yn y dyfodol.

- Argymhellodd un ymatebydd y gellid caniatáu gwelliannau i'r cartref a wnaed yn ystod y ddwy flynedd flaenorol (e.e. ffenestr gwydr dwbl newydd) fel gwelliannau canlyniadol ar gyfer estyniad arfaethedig.
- Holodd un ymatebydd, yn achos addasu atig, a ddylai gwelliant canlyniadol inswleiddio'r atig ar lefel trawstiau fod yn ofynnol o hyd (fel ym mharagraff 12.6 o'r Ddogfen Gymeradwy ddrafft), gan y byddai'r addasiad yn gofyn am inswleiddio ar lefel ceibrennau. [Noder: efallai mai dim ond pwynt i'w egluro ymhellach ydyw os mai'r bwriad yw y bydd y gwelliant canlyniadol yn gymwys i ardaloedd o lawr yr atig y tu allan i'r cyfaint gwresogi newydd yn unig].
- Nododd dau ymatebydd y dylai'r cyfeiriadau at drwch deunydd inswleiddio gael eu disodli gan berfformiad thermol penodol gan fod gan ddeunyddiau inswleiddio gwahanol lefelau perfformiad thermol gwahanol.

2.53 Roedd 13% o'r ymatebwyr yn anghytuno â'r cynnig.

- Fel uchod, roedd dau ymatebydd yn anghytuno â'r eithriad ar gyfer waliau ceudod sydd wedi'u hinswleiddio'n rhannol, gan gynnwys asesiad annibynnol gan berson sydd wedi'i ardystio'n briodol i sicrhau bod wal yn addas i'w huwchraddio (sydd, yn ôl awgrym yr ymatebwyr, yn cyd-fynd â'r newid arfaethedig i gynnwys asesiad annibynnol ar gyfer waliau ceudod heb eu hinswleiddio).
- Argymhellodd un ymatebydd y dylai deunydd inswleiddio ychwanegol yn yr atig fod o leiaf 300mm o drwch, gan awgrymu bod deunydd ychwanegol hyd at 250mm yn gyfle coll, o ystyried cyn lleied fyddai'r gwahaniaeth o ran llafur a tharfu o ganlyniad i ychwanegu hyd at 300mm.
- Awgrymodd dau ymatebydd, yn hytrach na mabwysiadu rhestr ragnodedig o fesurau, o ystyried mai anaml yr ymgymerir â gwaith adeiladu, ac er mwyn helpu i gyrraedd targedau sero-net, y dylid cynnal asesiad o'r tŷ cyfan er mwyn nodi mesurau priodol ar gyfer gwella'r annedd yn ei chyfanrwydd (yn unol â PAS 2035 gan Gydgysylltydd Ôl-Osod) ac asesiad o dan y Weithdrefn Asesu Safonol (SAP), er enghraifft, i ddangos y dylai'r gwelliannau sicrhau gostyngiad o 10% yn lefel defnydd ynni'r annedd gyfan fel rhan o'r gwaith o adeiladu estyniad; awgrymodd un o'r ymatebwyr hyn mai dim ond ar gyfer estyniadau mwy o faint (dros 30m2) y dylai fod angen hyn.
- Argymhellodd un ymatebydd, ar gyfer gwelliannau canlyniadol, y dylai fod yn ofynnol: (i) i asesiad o ddulliau awyru a llwyth lleithder yr eiddo gael ei gynnal gan berson cymwys a (ii) lle mae'r gofod cyfanheddol yn cynyddu mwy na 10m2, i brawf gwasgedd aer o'r annedd gyfan gael ei gynnal cyn ac ar ôl y gwaith a dangos gostyngiad o 20% o leiaf mewn hydreiddedd aer, oni ddangosir bod hynny'n amhriodol yn dechnegol gan berson cymwys.
- Argymhellodd un ymatebydd, yn debyg i'r uchod, fesurau ynglŷn ag aerglosrwydd hefyd yn achos estyniadau neu addasiadau mawr.
- Nododd un ymatebydd na ddylai'r deunydd inswleiddio ychwanegol yn yr atig sy'n ofynnol o dan welliannau canlyniadol beryglu dulliau awyru gofod to (h.y. na ddylai wasgu yn erbyn wyneb isaf y teils/llechi pan fo awyru drwy'r bondo).
- Argymhellodd ymatebydd arall, fel uchod, y dylid nodi perfformiad thermol angenrheidiol deunydd inswleiddio yn hytrach na'i drwch.

2.54 Roedd y sylwadau gan y rhai nad oeddent yn nodi'r hyn a ffafriwyd ganddynt yn cynnwys y canlynol:

- Cytunodd un ymatebydd â'r uchod, sef y dylai arbenigwr benderfynu ar sail achos unigol yn hytrach na rhoi eithriad cyffredinol ar gyfer waliau ceudod sydd wedi'u hinswleiddio'n rhannol.

- Roedd ymatebydd arall o'r farn y dylai deunydd inswleiddio atig fod o leiaf 300mm o drwch (yn hytrach na 250mm), yn debyg i'r uchod, a hefyd y dylid pennu cyfanswm trwch o 160mm ar gyfer siacedi tanciau dŵr. Yn yr un modd, argymhellodd ymatebydd arall y dylai fod isafswm dyfnder inswleiddio atig o 270mm (gan nodi bod angen hyn i gyflawni 0.16W/mK gyda deunydd inswleiddio â gwerth perfformiad lambda nodweddiadol o 0.044 W/mK).
- Cyflwynodd ymatebydd gynigion ar gyfer ehangu'r trothwyon ar gyfer gwelliannau canlyniadol a'r mesurau sy'n gysylltiedig â nhw, gan roi dwy enghraifft: (i) os caiff system wresogi carbon isel newydd ei gosod, dylid uwchraddio deunydd inswleiddio'r atig os yw'n llai na 270mm, ac inswleiddio'r wal geudod a (ii) os mai prosiect ôl-osod mawr ydyw (uwchraddio system wresogi bloc o fflatiau), yna dylid uwchraddio'r deunydd inswleiddio yn y waliau, gan nodi yn y ddwy enghraifft y dylai'r deunydd inswleiddio gael ei ystyried yn addas drwy asesiad technegol ac mai dim ond pan fo mesurau'n ddichonadwy yn dechnegol, yn swyddogaethol neu'n economaidd y dylid eu rhoi ar waith.

**YMATEB Y LLYWODRAETH**

2.55 Roedd 70% o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynigion. Felly, rydym yn bwriadu cyflwyno'r newidiadau i welliannau canlyniadol ac eithrio rhoi gwerth U ochr yn ochr â lefelau inswleiddio awgrymedig a hefyd egluro y gall fod rhesymau technegol eraill pam mae inswleiddio waliau ceudod yn anaddas yn ychwanegol at yr un enghraifft a roddir ar hyn o bryd.

**Cwestiwn 12**

| | Pawb a ymatebodd i'r cwestiwn hwn | Pensaer | Adeiladwr / Datblygwr | Arolygydd Cymeradwy Rheoli Adeiladu | Meddiannydd Adeilad/Preswylydd | Dylunydd Meddalwedd Adeiladu ac Ynni Datblygwr | Dylunydd / Peiriannydd / Syrfëwr | Cynllun Achredu Aseswyr Ynni | Sector Ynni | Awdurdod Lleol | Gwneuthurwr/Cadwyn Gyflenwi | Corff Proffesiynol | Rheolwr Eiddo / Cymdeithas Dai / Landlord | Cymdeithas Fasnach | Adeiladwr Tai Mawr | Parti Arall sydd â Diddordeb |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cwestiwn 12: A ydych yn cytuno â'r dull gweithredu arfaethedig ar gyfer Dyfeisiau Hunanreoleiddio fel y'i nodir yn Adran 5?** | | | | | | | | | | | | | | | | |
| **Cyfanswm** | **56** | **3** | **1** | **1** | **1** | **1** | **1** | **1** | **4** | **8** | **15** | **4** | **2** | **3** | **0** | **11** |
| Ydw | 82% | 67% | 100% | 100% | 100% | 0% | 100% | 100% | 75% | 100% | 67% | 100% | 100% | 67% | - | 91% |
| Nac ydw | 5% | 33% | 0% | 0% | 0% | 100% | 0% | 0% | 25% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | - | 0% |
| Ddim yn siŵr | 13% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 33% | 0% | 0% | 33% | - | 9% |

2.56 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynigion. Cafwyd cyfanswm o 56 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Roedd 46 (82%) yn cytuno ac roedd 3 (5%) yn anghytuno. Nid oedd 7 (13%) yn siŵr am y cynigion, a nododd dau o'r tri

ymatebydd hyn yn benodol fod hyn o ganlyniad i ddiffyg profiad yn y maes penodol hwn.

2.57 Roedd y sylwadau a gyflwynwyd gan y rhai a oedd yn cefnogi'r cynigion yn cynnwys y themâu canlynol:

- Nododd dau ymatebydd fod cynnwys opsiynau amgen ar gyfer dyfeisiau hunanreoleiddio yn gadarnhaol.
- Awgrymodd pum ymatebydd y dylid newid y rheoliadau i gynnwys hyrwyddo'r defnydd o reolyddion clyfar. Awgrymodd dau o'r rhain yn fwy cyffredinol y dylid cynnwys darpariaeth dyfeisiau o bell/rheoli clyfar/clyfar. Soniodd un arall yn benodol am yr angen am ddulliau monitro ynni a chysylltedd â'r rhyngrwyd a oedd yn rhan o ddyfeisiau, a soniodd un arall y dylai fod mwy o ffocws ar osgoi achosion o wrthdaro gweithredol rhwng dyfeisiau hunanreoleiddio drwy'r system ddylunio. Soniodd yr ymatebydd arall (o'r sector gweithgynhyrchu/y gadwyn gyflenwi) am y defnydd o reolyddion clyfar, tariffau amser defnyddio a systemau sy'n galluogi cydbwyso'r grid, a rhoddodd enghreifftiau o'r rhain yn gweithio'n ymarferol mewn gwledydd Ewropeaidd eraill, ond nododd y byddai angen newid polisi yn y DU i hyrwyddo tariffau amser defnyddio.
- Soniodd sawl ymatebydd fod dyfeisiau hunanreoleiddio eisoes yn cael eu rhoi ar waith (e.e. mae gosod falfiau thermostatig ar reiddiaduron yn arfer gyffredin).
- Nododd un ymatebydd fod canllawiau perthnasol Comisiwn yr UE (Argymhelliad y Comisiwn (UE) 2019/1019 dyddiedig 7 Mehefin 2019 ar foderneiddio adeiladau) yn cyfeirio at asesu dichonoldeb technegol, economaidd a swyddogaethol mabwysiadu dyfeisiau hunanreoleiddio, gan ddisgwyl y dylai dull o wneud penderfyniadau gael ei ddilyn. Nododd yr ymatebydd hwn hefyd fod lle i ddehongli ystyr dyfeisiau hunanreoleiddio yn y Gyfarwyddeb Perfformiad Adeiladau Ewropeaidd, gan gynnwys pa fath o ddyfeisiau sy'n gymwys, gan grybwyll pwysigrwydd gwahaniaethu'n glir rhwng dyfeisiau hunanreoleiddio a dyfais reoleiddio y gellid ei rheoli â llaw (fel y nodir yng nghanllawiau Comisiwn yr UE y cyfeirir atynt uchod).
- Argymhellodd yr ymatebydd uchod hefyd na ddylid gwneud math penodol o ddyfais hunanreoleiddio yn ofynnol. Nodwyd nad yw falfiau thermostatig ar reiddiaduron o bosibl yn briodol i'w defnyddio mewn adeiladau â phympiau gwres, gan gyfeirio at adroddiad gan yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni ar effaith falfiau thermostatig ar reiddiaduron ar berfformiad pympiau gwres, ond nodwyd hefyd effaith liniarol dylunio a chomisiynu da. Argymhellodd yr ymatebydd hwn y dylid cyflwyno gofynion rheoli'r galw yn ystod oriau brig (yn y fersiwn ddiwygiedig hon o Ran L neu yn y dyfodol) er mwyn hyrwyddo storio ynni a rheolyddion clyfar, yn enwedig o ystyried y disgwyliad y bydd mwy o systemau gwresogi yn cael eu trydaneiddio.
- Cododd ymatebydd arall (cymdeithas fasnach) faterion a oedd yn ymwneud â'r defnydd o falfiau thermostatig ar reiddiaduron mewn adeiladau â phympiau gwres yn debyg i'r uchod hefyd. Yn ychwanegol at hyn, awgrymodd yr ymatebydd hwn y dylai falfiau thermostatig ar reiddiaduron felly gael eu dileu fel opsiwn a nodir yn y Ddogfen Gymeradwy.
- Nododd un ymatebydd y byddai'n bwysig ystyried sut y byddai'r gofyniad yn cael ei roi ar waith lle y câi generadur gwres ei adnewyddu drwy gynllun personau cymwys yn unig (yn hytrach na gwaith a oruchwylir gan gorff rheoli adeiladu). Nododd na fyddai fawr ddim dilysu annibynnol yn yr achos hwn ac y byddai'r broses o roi'r gofyniad ar waith yn dibynnu ar ymwybyddiaeth y gosodwr bod angen gwneud gwaith ychwanegol, gan awgrymu hefyd y gall

defnyddwyr amau gosodwyr sy'n cynghori bod angen gwneud gwaith ychwanegol. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, cynigiodd y dylid cyflwyno mesurau ar y cyd â'r cynllun personau cymwys a/neu drwy addysg ac uwchsgilio gosodwyr newydd a phresennol, yn ogystal â chamau a gymerir i godi ymwybyddiaeth ymhlith defnyddwyr.

- Nododd un ymatebydd yr heriau sy'n gysylltiedig ag ymgysylltu â defnyddwyr er mwyn sicrhau gweithrediad effeithlon yn ymarferol, yn seiliedig ar brofiad blaenorol gosodwyr mewn eiddo cymdeithasau tai.

2.58 Roedd y sylwadau a gyflwynwyd gan y rhai a oedd yn anghytuno â'r cynigion yn cynnwys y canlynol:

- Awgrymodd un ymatebydd fod y gofyniad yn rhy wan, ac y dylai thermostatau rhaglenadwy unigol fod yn ofynnol yn lle hynny (gyda falfiau thermostatig ar reiddiaduron ond yn dderbyniol lle mae cyfiawnhad economaidd).
- Roedd ymatebydd arall o blaid gwneud gosod falfiau thermostatig ar reiddiaduron yn ofynnol ond roedd yn anghytuno â'r syniad o gyfnod ad-dalu byr fel modd i bennu dichonoldeb economaidd (fel y'i cwmpaswyd yn ei ymateb i gwestiynau eraill).
- Argymhellodd un ymatebydd y dylid cynnwys gofyniad ychwanegol sy'n golygu bod unrhyw ddyfeisiau hunanreoleiddio naill ai wedi cael eu cysylltu â chyflenwadau pŵer parhaol neu eu bod yn pweru eu hunain (ac na fydd y rhai sy'n dibynnu ar osod batris newydd yn cydymffurfio oni bai bod preswylwyr, bob tro y caiff tenantiaeth ei newid, yn gwneud ymrwymiad clir i osod batris newydd, ond ni nodwyd sut y câi hyn ei roi ar waith yn ymarferol).
- Argymhellodd dau o'r ymatebwyr uchod hefyd y dylai'r rheoliadau ddiffinio dyfeisiau gwresogi ‘sylfaenol’ (megis rheolyddion thermostatig boeler) a dyfeisiau rheoleiddio ‘eilaidd’ (megis falfiau thermostatig ar reiddiaduron) yn glir er mwyn tynnu sylw at y ffaith na ddylai'r rhain gael eu gosod mewn ffordd sy'n gwrthdaro â'i gilydd, gan gyfeirio at weld profiad o wrthdaro yn aml ar y cam comisiynu.

**Cwestiwn 13**

| | Pawb a ymatebodd i'r cwestiwn hwn | Pensaer | Adeiladwr / Datblygwr | Arolygydd Cymeradwy Rheoli Adeiladu | Meddiannydd Adeilad/Preswylydd | Dylunydd Meddalwedd Adeiladu ac Ynni Datblygwr | Dylunydd / Peiriannydd / Syrfëwr | Cynllun Achredu Aseswyr Ynni | Sector Ynni | Awdurdod Lleol | Gwneuthurwr/Cadwyn Gyflenwi | Corff Proffesiynol | Rheolwr Eiddo / Cymdeithas Dai / Landlord | Cymdeithas Fasnach | Adeiladwr Tai Mawr | Parti Arall sydd â Diddordeb |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cwestiwn 13: A ydych yn cytuno â'r safonau newydd arfaethedig ar gyfer Systemau Awtomeiddio a Rheoli Adeiladu (BACS) a Systemau Cynhyrchu Trydan ar y Safle fel y'u nodir yn Adran 6?** | | | | | | | | | | | | | | | | |
| **Cyfanswm** | **53** | **3** | **1** | **1** | **1** | **0** | **1** | **1** | **4** | **8** | **14** | **4** | **1** | **2** | **0** | **12** |
| Ydw | 66% | 100% | 100% | 100% | 100% | - | 100% | 100% | 25% | 100% | 36% | 75% | 100% | 50% | - | 67% |
| Nac ydw | 6% | 0% | 0% | 0% | 0% | - | 0% | 0% | 25% | 0% | 0% | 25% | 0% | 0% | - | 8% |
| Ddim yn siŵr | 28% | 0% | 0% | 0% | 0% | - | 0% | 0% | 50% | 0% | 64% | 0% | 0% | 50% | - | 25% |

2.59 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynigion. Cafwyd cyfanswm o 53 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Roedd 35 (66%) yn cytuno, roedd 3 (6%) yn anghytuno ac nid oedd 15 (28%) yn siŵr am y cynigion hyn. Y math mwyaf cyffredin o ymatebydd oedd gwneuthurwyr neu eu cadwyni cyflenwi, a oedd yn cyfrif am 26% o gyfanswm yr ymatebion i'r cwestiwn hwn.

2.60 Roedd y sylwadau a gyflwynwyd gan y rhai a oedd yn cytuno â'r cynigion yn cynnwys y themâu canlynol:

- Nododd un ymatebydd, a chymryd eu bod yn un o ofynion Cyfarwyddeb Perfformiad Ynni Adeiladau'r UE ar ei newydd wedd, nad ymddangosai fod y cynigion yn ddewisol.
- Nododd un arall fod y dechnoleg ar gael i gyrraedd y safonau newydd.
- Awgrymodd un y dylai'r Ddogfen Gymeradwy gyfeirio'n benodol at gomisiynu systemau rheolyddion a chynhyrchu ar y safle.
- Nododd un ymatebydd nad oes unrhyw gyfeiriad at safonau heblaw'r gair 'priodol'.
- Nododd un ymatebydd fod angen esbonio'r termau a roddwyd am 'appropriately sized', 'reasonable standard', a 'large or complex buildings' ymhellach.
- Awgrymodd un arall fod angen egluro pwy fyddai'n gyfrifol am ddarparu'r wybodaeth ofynnol.
- Awgrymodd un ymatebydd fod gosod ffynonellau cynhyrchu ynni yn aml yn cael ei ystyried yn gam cyntaf er mai'r opsiwn olaf y dylai hynny fod, ar ôl i'r gofynion o ran y galw am ynni gael eu dylunio i fod mor isel â phosibl.
- Nododd un y byddai cysylltu systemau awtomeiddio a rheoli adeiladu (BACS) a systemau cynhyrchu trydan ar y safle â masnachu ynni rhwng cymheiriaid yn fodd i helpu adeiladau eraill i leihau eu hallyriadau.

2.61 Roedd y sylwadau a gyflwynwyd gan y rhai a oedd yn anghytuno â'r cynigion yn cynnwys y canlynol:

- Mynegodd un ymatebydd ei fod yn cytuno â'r cynnig yn gyffredinol ond yn anghytuno â'r penderfyniad i hepgor cyfeiriad at safonau penodol ym mharagraff 6.59 ynglŷn â chynhyrchu trydan ar y safle. Argymhellodd y dylid cyfeirio at gyrraedd safonau perthnasol o dan y Cynllun Ardystio Microgynhyrchu er mwyn diogelu defnyddwyr o ran perfformiad y dechnoleg. Awgrymwyd geiriad diwygiedig gan yr ymatebydd a wnaeth y sylw hwn.
- Argymhellodd dau ymatebydd na fyddai'n ddoeth gosod caledwedd, gan gynnwys BACS, mewn eiddo sy'n clymu perchenogion a meddianwyr wrth ddarparwyr gwasanaeth penodol â chytundebau hirdymor.
- Nododd un o'r ymatebwyr hyn hefyd, os bwriedir i'r adran hon o'r Rheoliadau fod yn gymwys i'r rhai sy'n defnyddio eu trydan eu hunain oddi ar y grid ac na allant allforio trydan dros ben i'r grid, yna y dylai'r gwahaniaeth hwn gael ei nodi'n glir. Nododd nad oes dadl amgylcheddol nac economaidd na dadl ynglŷn â diogelwch dros ei gwneud yn ofynnol i faint systemau cynhyrchu trydan ar y safle gyd-fynd â'r galw am ynni ar y safle, ac nad oes unrhyw reswm dros gyfyngu ar allforio trydan dros ben a gynhyrchir, ar yr amod bod y Gweithredwr Rhwydwaith Dosbarthu wedi cymeradwyo maint y gweithrediad ar y pwynt cysylltu hwnnw.
- Yn ychwanegol at hyn, awgrymodd yr ymatebydd arall na ddylid caniatáu gosod systemau ffotofoltäig heb fatri.

2.62 Nododd un ymatebydd nad oedd yn siŵr am y cynnig ei fod yn cyfeirio at alluoedd rheoli priodol ar gyfer yr annedd, ond nad yw'n glir pwy sy'n penderfynu beth sy'n briodol.

2.63 Gwnaeth un ymatebydd na roddodd ateb (cytuno / anghytuno / ddim yn siŵr) sylw tebyg i sylwadau dau o'r ymatebwyr uchod, gan nodi na fyddai'n ddoeth gosod caledwedd, gan gynnwys BACS, mewn eiddo sy'n clymu perchenogion a meddianwyr wrth ddarparwyr gwasanaeth penodol â chytundebau hirdymor. Cynigiodd yr ymatebydd fesurau i'w diogelu. Awgrymodd yr ymatebydd hefyd na ddylid caniatáu gosod systemau ffotofoltäig heb fatri, yn debyg i un o'r ymatebwyr uchod.

## Cwestiwn 14

| | Pawb a ymatebodd i'r cwestiwn hwn | Pensaer | Adeiladwr / Datblygwr | Arolygydd Cymeradwy Rheoli Adeiladu | Meddiannydd Adeilad/Preswylydd | Dylunydd Meddalwedd Adeiladu ac Ynni Datblygwr | Dylunydd / Peiriannydd / Syrfëwr | Cynllun Achredu Aseswyr Ynni | Sector Ynni | Awdurdod Lleol | Gwneuthurwr/Cadwyn Gyflenwi | Corff Proffesiynol | Rheolwr Eiddo / Cymdeithas Dai / Landlord | Cymdeithas Fasnach | Adeiladwr Tai Mawr | Parti Arall sydd â Diddordeb |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cwestiwn 14: A ydych yn cytuno â'r dull gweithredu arfaethedig i'w gwneud yn ofynnol i Systemau Adeilad Technegol gael eu hasesu ac i wybodaeth amdanynt gael ei darparu fel y'i nodir yn Adran 9?** | | | | | | | | | | | | | | | | |
| **Cyfanswm** | **58** | **3** | **1** | **1** | **1** | **1** | **1** | **1** | **3** | **8** | **17** | **4** | **2** | **2** | **0** | **13** |
| Ydw | 83% | 100% | 100% | 100% | 100% | 100% | 100% | 100% | 67% | 100% | 71% | 100% | 100% | 50% | - | 77% |
| Nac ydw | 2% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 6% | 0% | 0% | 0% | - | 0% |
| Ddim yn siŵr | 16% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 33% | 0% | 24% | 0% | 0% | 50% | - | 23% |

2.64 Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynigion. Cafwyd cyfanswm o 58 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Roedd 48 (83%) yn cytuno, roedd 1 (2%) yn anghytuno ac nid oedd 9 (16%) yn siŵr am y cynigion hyn. Y math mwyaf cyffredin o ymatebydd oedd gwneuthurwyr neu eu cadwyni cyflenwi, a oedd yn cyfrif am 29% o gyfanswm yr ymatebion i'r cwestiwn hwn.

2.65 Roedd sylwadau a gyflwynwyd gan y rhai a oedd o blaid y cynigion yn cynnwys y themâu canlynol:

- Gwnaeth sawl ymatebydd sylwadau cyffredinol o blaid darparu gwybodaeth er mwyn helpu i sicrhau perfformiad ynni yn ymarferol a dangos cydymffurfiaeth â gofynion perfformiad ynni.
- Gwnaeth un o'r ymatebwyr hyn ailadrodd ei ymateb o dan Gwestiwn 13, gan nodi, a chymryd eu bod yn un o ofynion Cyfarwyddeb Perfformiad Ynni Adeiladau'r UE ar ei newydd wedd, nad ymddangosai fod y cynigion yn ddewisol.
- Nododd un arall ei bod wedi cael ei sefydlu drwy arferion da fod yn rhaid i'r holl wybodaeth sy'n ymwneud â gweithredu Systemau Adeilad Technegol gael ei rhoi i bartïon perthnasol er mwyn sicrhau perfformiad ynni diogel a'r perfformiad ynni gorau posibl, a bod hyn hefyd yn rhan o'r gofynion o dan y Rheoliadau Adeiladu (Dylunio a Rheoli). Nododd ei fod o blaid gwneud hyn yn orfodol drwy'r Rheoliadau Adeiladu.
- Yn ychwanegol at hyn, argymhellodd un o'r ymatebwyr na ddylai'r wybodaeth fod wedi'i chyfyngu i dechnoleg newydd, ond y dylai hefyd gwmpasu, er enghraifft, gymorth ar ddefnyddio holltau awyru a ffenestri.
- Nododd dau o'r ymatebwyr yn benodol y dylai'r wybodaeth ymwneud yn benodol â'r annedd yn ogystal â bod yn hawdd ei deall, yn hirbarhaol ac yn hygyrch. Nododd un o'r rhain fod y gofynion yn fwy cynhwysfawr ar gyfer anheddau newydd, gan argymell y dylid ymdrin ag anheddau presennol mewn ffordd gyson. Awgrymodd yr ymatebydd hwn y dylai'r cyfarwyddiadau

gwmpasu beth yw'r systemau; eu diben; eu lleoliad; sut i'w gweithredu a'u rheoli (gan gynnwys gwybodaeth ychwanegol am leoliad y rheolyddion); sut i'w cynnal a'u cadw. Argymhellodd y ddau ymatebydd y dylai'r cyfarwyddiadau gweithredu a chynnal a chadw gyfeirio at ffynonellau pwysig eraill o wybodaeth, ac roedd eu hawgrymiadau yn cynnwys llawlyfrau ar gyfarpar; y data a ddefnyddir wrth gyfrifo'r gyfradd allyriadau carbon ac ynni cynradd; a'r Adroddiad Argymhellion a baratoir ar y cyd â'r Dystysgrif Perfformiad Ynni (pan gynhelir asesiadau ar adeg adeiladu neu asesiadau o adeiladau presennol).

- Gwnaeth un ymatebydd arall sylwadau tebyg bod angen i'r wybodaeth fod yn hawdd iawn ei deall. Yn ychwanegol at hyn, argymhellodd y dylai 'tystysgrif prawf defnyddiwr ar ôl meddiannu' fod yn orfodol er mwyn profi bod y systemau yn cael eu gweithredu'n effeithlon yn ymarferol.
- Cwestiynodd un ymatebydd a oes gan BBaChau adnoddau addas i ddarparu'r wybodaeth hon, a'i darparu mewn fformat y gall defnyddwyr ei ddeall. Yn debyg i'r ymatebwyr uchod, roedd hefyd o blaid darparu'r wybodaeth mewn fformat hawdd ei ddeall.
- Argymhellodd un ymatebydd y dylid pennu nod cyffredinol o ddatblygu 'Pasbortau Adnewyddu Adeiladau' a chreu 'Mapiau Llwybr Adnewyddu Pwrpasol' ar gyfer adeiladau presennol, er mwyn cynnig cynllun trefnus ar gyfer gwelliannau i berchenogion a meddianwyr, sy'n canolbwyntio ar effeithlonrwydd ynni a symud i ynni / carbon sero net, a chyda gwybodaeth fanwl ar adegau gwahanol. Nododd fod asesiadau'r Dystysgrif Perfformiad Ynni yn aml yn dibynnu ar ddata cyfyngedig ac roedd yn cwestiynu a fyddai'r rhain yn arwain at argymhellion priodol felly. Argymhellodd yr ymatebydd y dylid defnyddio Pasbortau Adeilad er mwyn dal yr wybodaeth arfaethedig am Systemau Adeiladau Technegol a sicrhau bod gwybodaeth ar gael yn y fan lle y'i defnyddir. Yn debyg i ymatebwyr eraill uchod, argymhellodd hefyd y dylid cynnwys y data a ddefnyddir wrth asesu'r gyfradd allyriadau carbon / asesiadau'r Dystysgrif Perfformiad Ynni, gan nodi y gallai hyn hefyd wella effeithlonrwydd ailasesiadau gan y byddai'r data a gasglwyd yn flaenorol ar gael i'w hailddefnyddio. Awgrymodd, pe bai'r holl newidiadau cynyddraddol i adeilad yn cael eu cofnodi, y byddai'r sgôr effeithlonrwydd yn fwy cywir a chyfredol. Awgrymwyd y byddai'r newidiadau hyn yn helpu i gefnogi a galluogi cynlluniau ôl-osod mwy cywir.
- Nododd un ymatebydd fod y ddogfennaeth ofynnol arfaethedig yn ymddangos yn rhesymol. Fodd bynnag, nododd hefyd fod angen dull unioni i gwmpasu achosion o fethu â chydymffurfio (e.e. os na ddarperir cofnodion comisiynu llawn ar adeg gosod system newydd gyflawn, os yw'r ddalen gomisiynu yn anghyflawn, neu os yw'n methu â chyrraedd y safonau disgwyliedig).
- Canolbwyntiodd un ymatebydd ar y broses asesu. Rhoddodd ymateb tebyg i'w ymateb i gwestiynau eraill (e.e. Cwestiwn 12), gan nodi y byddai'n bwysig ystyried sut y câi'r broses o ddarparu gwybodaeth ei rhoi ar waith pan gaiff generadur gwres newydd ei osod drwy gynllun personau cymwys yn unig (yn hytrach na gwaith a oruchwylir gan gorff rheoli adeiladu).
- Awgrymodd yr ymatebydd hwn hefyd y gallai fod risg nad yw gosodwyr yn argymell mathau o danwydd gwresogi amgen (er enghraifft, trydan yn lle'r cyflenwad nwy presennol) oherwydd y gwaith ychwanegol a osodir gan baragraff 9.9 ac wedyn yr opsiynau a roddir ym mharagraff 9.7. Roedd o'r farn bod hyn yn mynd yn groes i fwriad y polisi arfaethedig ac argymhellodd y dylid ystyried sut i osgoi'r broblem bosibl hon.

- Nododd un ymatebydd y dylai anheddau gael eu comisiynu ar sail cartref cyfan (h.y. sicrhau bod y gwasanaethau yn yr annedd yn gweithio'n unol â'r dyluniad o ran cydrannau unigol a'r system yn ei chyfanrwydd). Nododd hefyd y dylid cynnwys y mesurau sydd eu hangen i wneud eiddo yn sero net yn y dyfodol. Drwy hyn, byddai'r perchenogion a'r meddianwyr yn deall pa fesurau y bydd eu hangen dros y degawd neu ddau nesaf. O ganlyniad, gallai hyn annog datblygwyr i gyflwyno rhai mesurau ar unwaith wrth i brynwyr ddod yn fwy gwybodus am ofynion eu cartrefi yn y dyfodol.

2.66 Gwnaeth yr ymatebydd unigol a oedd yn anghytuno â'r cynnig y sylw canlynol:

- Argymhellodd yr ymatebydd y dylai'r adroddiad BRWL wedi'i ddiweddaru gael ei gynnwys ar gyfer adeiladau presennol yn ogystal ag adeiladau newydd. Nododd fod yr adroddiad BRWL wedi'i ddiweddaru ar gyfer cartrefi newydd wedi cael derbyniad cadarnhaol iawn, ym marn yr ymatebydd, a'i fod yn cael ei ystyried yn gam pwysig i dynnu sylw at y bwlch mewn perfformiad a rhoi cyfrifoldeb ar y diwydiant i'w gau. Awgrymodd y gall penderfyniad i hepgor yr adroddiad wedi'i ddiweddaru a'r gofynion i roi tystiolaeth ategol (e.e. ffotograffau, cymeradwyo manylebau) yn y farchnad ôl-osod fod yn fodd i osgoi'r system a chwestiynodd y rhesymeg dros hepgor hyn.

2.67 Rhoddwyd un sylw gan ymatebydd nad oedd yn siŵr am y cynigion, a argymhellodd basbort adeilad a oedd yn debyg i'r hyn a amlinellir uchod gan ymatebydd arall.

## YMATEB Y LLYWODRAETH

2.68 Cawsom gefnogaeth gref i'r dull gweithredu arfaethedig ar gyfer dyfeisiau hunanreoleiddio, systemau awtomeiddio a rheoli adeiladu, yn ogystal â systemau cynhyrchu trydan ar y safle. Felly, bwriedir cyflwyno'r newidiadau ond gyda'r diwygiadau canlynol i'r Dogfennau Cymeradwy terfynol:

- Canllawiau ychwanegol ar ddyfeisiau hunanreoleiddio er mwyn ymdrin â phryderon ynglŷn â'u lleoliad mewn ystafelloedd sydd â thermostatau neu anheddau sydd â system wresogi carbon isel.
- Aralleirio'r canllawiau ar systemau awtomeiddio a rheoli adeiladu (BACS) i egluro nad yw'n ofyniad gosod BACS mewn annedd newydd nac annedd bresennol ond, os caiff un ei gosod, yna y dylai gyrraedd y safonau arfaethedig. Hefyd, testun ychwanegol i awgrymu y dylid dilyn canllawiau Dogfen Gymeradwy L2 (ar gyfer adeiladau heblaw anheddau) lle mae gan yr annedd honno wresogydd gofod neu system aerdymheru sydd ag allbwn gradd weithredol sy'n hafal i 290 kW neu'n uwch na hynny.

2.69 Roedd hefyd gefnogaeth gref iawn i'r cynigion i'w gwneud yn orfodol asesu Systemau Adeilad Technegol a darparu gwybodaeth yn eu cylch, felly rydym yn bwriadu cyflwyno'r newidiadau hyn.

## Cwestiwn 15

| | Pawb a ymatebodd i'r cwestiwn hwn | Pensaer | Adeiladwr / Datblygwr | Arolygydd Cymeradwy Rheoli Adeiladu | Meddiannydd Adeilad/Preswylydd | Dylunydd Meddalwedd Adeiladu ac Ynni Datblygwr | Dylunydd / Peiriannydd / Syrfëwr | Cynllun Achredu Aseswyr Ynni | Sector Ynni | Awdurdod Lleol | Gwneuthurwr/Cadwyn Gyflenwi | Corff Proffesiynol | Rheolwr Eiddo / Cymdeithas Dai / Landlord | Cymdeithas Fasnach | Adeiladwr Tai Mawr | Parti Arall sydd â Diddordeb |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cwestiwn 15: A ydych yn cytuno â'r dull gweithredu arfaethedig i newid o'r 'dull gweithredu sy'n seiliedig ar dargedau carbon cyfatebol' i'r 'dull gweithredu sy'n seiliedig ar dargedau ynni cynradd cyfatebol' yn Adran 13 er mwyn rhoi mwy o hyblygrwydd dylunio?** | | | | | | | | | | | | | | | | |
| **Cyfanswm** | **63** | **3** | **1** | **1** | **1** | **1** | **1** | **1** | **5** | **8** | **18** | **4** | **2** | **3** | **0** | **14** |
| Ydw | 57% | 67% | 100% | 100% | 100% | 0% | 100% | 0% | 20% | 100% | 56% | 50% | 100% | 0% | - | 50% |
| Nac ydw | 24% | 0% | 0% | 0% | 0% | 100% | 0% | 100% | 60% | 0% | 28% | 50% | 0% | 67% | - | 7% |
| Ddim yn siŵr | 19% | 33% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 20% | 0% | 17% | 0% | 0% | 33% | - | 43% |

2.70 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynigion. Cafwyd cyfanswm o 63 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Roedd 36 (57%) yn cytuno, roedd 15 (24%) yn anghytuno ac nid oedd 12 (19%) yn siŵr am y cynigion hyn. Y math mwyaf cyffredin o ymatebydd oedd gwneuthurwyr neu eu cadwyni cyflenwi, a oedd yn cyfrif am 29% o gyfanswm yr ymatebion i'r cwestiwn hwn.

2.71 Roedd y sylwadau a gyflwynwyd gan y rhai a oedd yn cytuno â'r cynigion yn cynnwys y themâu canlynol:

- Rhoddodd sawl ymatebydd resymau dros gefnogi'r newid arfaethedig o garbon i ynni cynradd.
- Awgrymodd chwech o'r ymatebwyr hyn y dylid canolbwyntio ar effeithlonrwydd ynni, costau ynni a thlodi tanwydd.
- Yn ychwanegol at hyn, roedd un o'r chwe ymatebydd hyn yn credu y byddai metrig ynni cynradd hefyd yn sicrhau allyriadau carbon is, ac awgrymodd mai'r targed o ran ynni cynradd fyddai'r maen prawf perfformiad pwysicaf wrth i fwy o gartrefi gael eu gwresogi drwy ddefnyddio trydan.
- Yn ychwanegol at hyn, awgrymodd un o'r chwe ymatebydd hyn fod ynni cynradd yn cynnig mwy o hyblygrwydd a'i fod yn haws ei ragweld nag allyriadau carbon.
- Canolbwyntiodd dau ymatebydd ar eglurder yn eu sylwadau, gan ategu'r pwynt ynglŷn â 'rhagweladwyedd' uchod. Awgrymodd un y gallai fod yn haws deall ynni cynradd na charbon, ac awgrymodd un arall ei fod eisoes wedi'i ddeall yn dda.
- Mynegodd tri ymatebydd eu cefnogaeth yn benodol i fetrigau ychwanegol, gan gynnwys carbon a safonau gofynnol ar gyfer adeiladwaith. Nododd un o'r rhain, yn debyg i ymatebydd arall uchod, wrth i'r grid trydan ddatgarboneiddio, fod ynni cynradd yn debygol o fynd yn fwy o bryder er mwyn sicrhau effeithlonrwydd ynni systemau gwresogi – ond mewn gwrthgyferbyniad â'r ymatebydd arall, nododd, os na chaiff carbon ei gynnwys fel metrig, yna fod

risg o gynyddu allyriadau carbon (roedd cefnogaeth yr ymatebydd hwn i'r cynnig yn dibynnu ar gynnwys metrig carbon hefyd). Argymhellodd ymatebydd arall y dylai effeithlonrwydd ynni wrth ei ddefnyddio hefyd gael ei fesur er mwyn helpu i fynd i'r afael â thlodi tanwydd.

- Gwnaeth un ymatebydd sylw a oedd yn awgrymu bod ynni cynradd yn arbennig o bwysig o ran adnewyddu anheddau presennol.
- Gwnaeth un ymatebydd sylw fel a ganlyn: "ydw, ond wedi'i gyfyngu i hyblygrwydd mewn anheddau presennol i gyrraedd y safonau."
- Roedd un ymatebydd yn cefnogi'r cynnig yn gyffredinol ond nododd y gallai sefyllfa godi lle y gallai estyniad â 'llawer o wydr' fod yn dderbyniol ar gyfer tŷ hŷn â ffynhonnell wresogi nad yw'n danwydd effeithlon, ond y gall tŷ â geometreg debyg sy'n cael ei adeiladu'n unol â'r Rheoliadau cyfredol neu Reoliadau wedi'u diweddaru weld mai cyfyngedig yw'r gwelliannau sydd ar gael.

2.72 Roedd y sylwadau gan y rhai a oedd yn anghytuno â'r cynigion yn cynnwys y canlynol:

- Yn debyg i rai o'r ymatebwyr uchod, argymhellodd sawl ymatebydd fod angen metrigau ychwanegol yn ogystal ag ynni cynradd.
- Awgrymodd wyth o'r rhain y byddai cynnwys ynni cynradd a charbon (fel y cynigir ar gyfer adeiladau newydd) yn sbarduno effeithlonrwydd ynni, costau ynni is ac ynni mwy fforddiadwy (yn debyg i'r pwyntiau a wneir uchod gan y rhai sy'n cefnogi'r cynnig), yn ogystal â hyrwyddo lleihad mewn allyriadau carbon, nad yw'n digwydd bob amser os mai dim ond ynni cynradd a ddefnyddir.
- Cododd pump o'r wyth ymatebydd hyn bryderon penodol y byddai penderfyniad i hepgor targed carbon yn arwain at ganlyniad anfwriadol, sef annog pobl o bosibl i newid i systemau gwresogi mwy effeithlon ond â ffactor carbon uwch (nodwyd ffactor ynni cynradd isel olew o gymharu â nwy er bod gan nwy ffactor carbon uwch, a nodwyd ffactor ynni cynradd cymharol uchel trydan o gymharu â nwy er bod gan drydan ffactor carbon tebyg y disgwylir iddo leihau dros amser). Nododd un o'r ymatebwyr hyn fod angen cynnwys gwerth am arian cymharol a gofynion gwresogi cartrefi unigol mewn penderfyniadau ynglŷn ag inswleiddio a systemau gwresogi.
- Awgrymodd un o'r pum ymatebydd hyn hefyd na fyddai effeithiau cadarnhaol defnyddio system cynhyrchu trydan ar y safle i ateb y galw am drydan ar y safle, gan gynnwys system wresogi drydanol, yn cael eu hadlewyrchu'n llawn oherwydd y ffactorau ynni cynradd sy'n gysylltiedig â thrydan a werthir i'r grid (ac ystyriwyd y gallai'r derminoleg 'displaced from grid' a ddefnyddir yn SAP fod yn ddryslyd). Awgrymodd y gall amrywio'r cyfraddau trosi a ddefnyddir ar gyfer ffactorau ynni cynradd olygu ei bod yn anodd gwneud cymariaethau hanesyddol ac y gall hefyd achosi dryswch i ddefnyddwyr terfynol.
- Awgrymodd tri ymatebydd y dylid mabwysiadu hierarchaeth adeiladwaith yn gyntaf, ac awgrymodd dau o'r rhain y gallai unrhyw fwlch neu gyfaddawd arwain at ddryswch a negyddu'r targedau o ran perfformiad ynni.
- Roedd tri ymatebydd o blaid defnyddio carbon fel y metrig. Ni roddodd un o'r rhain reswm penodol dros hyn, a nododd un arall fod carbon yn gyfarwydd ond nad oedd ynni cynradd yn cael ei ddeall yn dda. Nododd un y dylid canolbwyntio ar garbon yng nghyd-destun argyfwng carbon ac ymgyrch i leihau allyriadau carbon yn genedlaethol, gan nodi bod hyn yn anwybyddu'r gwahaniaethau mewn ffactorau sy'n ymwneud ag allyriadau carbon o gymharu â ffactorau ynni cynradd ar gyfer tanwyddau gwahanol. Cododd y

risg o ganlyniadau croes, gan awgrymu y gallent gynnwys goblygiadau i gridiau ynni drwy orbrisio cynhyrchu ynni o'i gymharu â storio ynni. Awgrymodd yr ymatebydd, yn lle hynny, y dylid rhoi hyblygrwydd dylunio drwy ddangos bod yr adeilad yn hafal i adeilad tybiannol sy'n cydymffurfio o ran allyriadau carbon neu'n is.

- Roedd un ymatebydd yn gwrthwynebu cynnwys ynni cynradd fel metrig yn gyfan gwbl, a hynny o ganlyniad i wrthdaro datganedig ag amcanion datgarboneiddio a risgiau o ganlyniadau croes sy'n debyg i'r rhai a awgrymir gan ymatebwyr eraill uchod. Nododd hefyd nad yw ynni cynradd yn golygu fawr ddim i ddefnyddwyr na'r rhan fwyaf o bobl nad ydynt yn arbenigwyr, ac felly na fyddai metrig ynni cynradd yn helpu o ran codi ymwybyddiaeth, ymgysylltu na pherchenogaeth o'r defnydd gwirioneddol o ynni. Roedd yn gwrthwynebu hefyd am fod cyfraddau trosi amrywiol ar gyfer ffactorau ynni cynradd yn golygu ei bod yn anodd gwneud cymariaethau uniongyrchol a'i bod yn anodd i ddefnyddwyr ei ddeall (unwaith eto yn debyg i ymatebydd uchod). Nododd yr ymatebydd hwn na allai'r un metrig gyflawni'r holl amcanion polisi angenrheidiol ac, yn lle hynny, argymhellodd gyfuniad o gyfanswm y defnydd o ynni wedi'i fesur ac allyriadau carbon, wedi'u hategu o bosibl gan fetrig sy'n ymwneud ag effeithlonrwydd adeiladwaith (megis y galw am wresogi gofod neu gyfernod trosglwyddo gwres, gan nodi bod y cyntaf yn fanteisiol am ei fod yn gyfarwydd ac yn cynrychioli perfformiad terfynol, a bod y llall yn fanteisiol am fod modd ei ddilysu wrth ei ddefnyddio).
- Nododd un ymatebydd na ddylid llacio unrhyw safonau os yw safonau eraill yn perfformio'n well (e.e. ni ddylid llacio safonau gwerth U na therfynau ar gyfanswm arwynebedd ffenestri a drysau os bydd gwerthoedd U eraill a/neu berfformiad gwasanaethau adeilad sefydlog yn gwella er mwyn gwneud iawn am hynny).

2.73 Roedd sylwadau gan ymatebwyr nad oeddent yn siŵr yn cynnwys y canlynol:

- Roedd un ymatebydd yn cytuno â defnyddio targed ynni cynradd mewn egwyddor, ac o blaid ymgyrch i wella effeithlonrwydd ynni, ond roedd am weld mwy o wybodaeth am effaith y newid.
- Yn debyg i sawl ymatebydd uchod, argymhellodd un ymatebydd y dylid cadw'r metrig carbon ochr yn ochr ag ynni cynradd.
- Awgrymodd un ymatebydd y gallai gofynion paragraff 9.9 fod yn eithaf beichus pan fydd adeilad presennol yn cael ei estyn ac nad yw data gwneuthurwyr ar gael yn hawdd ar gyfer y system bresennol gyflawn.

## YMATEB Y LLYWODRAETH

2.74 Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cefnogi ein cynigion i newid o'r "dull gweithredu sy'n seiliedig ar dargedau carbon cyfatebol" i'r "dull gweithredu sy'n seiliedig ar dargedau ynni cynradd cyfatebol", ond codwyd nifer o bryderon ynglŷn â chanlyniadau anfwriadol. Felly, er mwyn gochel rhag canlyniadau anfwriadol, rydym yn bwriadu pennu targed ar gyfer allyriadau carbon ochr yn ochr â'r targed ar gyfer ynni cynradd yn y Ddogfen Gymeradwy L derfynol.

# Pennod 3. Newidiadau Rhan F ar gyfer Anheddau Presennol (Cwestiynau 16 i 20)

2.75 Roedd y bennod hon yn yr ymgynghoriad wedi cynnig newidiadau i Ddogfen Gymeradwy F ar gyfer anheddau presennol a oedd yn canolbwyntio'n bennaf ar amrywiaeth ehangach o senarios cyffredin mewn perthynas ag ôl-osod effeithlonrwydd ynni domestig. Mae'n nodi ble y bydd angen systemau awyru ychwanegol, yn ôl pob tebyg, ac yn cynnig darpariaethau rhesymol y gellir derbyn, o dan amgylchiadau cyffredin, eu bod dangos cydymffurfiaeth ar gyfer Rhan F.

**Cwestiwn 16**

| | Pawb a ymatebodd i'r cwestiwn hwn | Pensaer | Adeiladwr / Datblygwr | Arolygydd Cymeradwy Rheoli Adeiladu | Meddiannydd Adeilad/Preswylydd | Dylunydd Meddalwedd Adeiladu ac Ynni | Dylunydd / Peiriannydd / Syrfëwr | Cynllun Achredu Aseswyr Ynni | Sector Ynni | Awdurdod Lleol | Gwneuthurwr/Cadwyn Gyflenwi | Corff Proffesiynol | Rheolwr Eiddo / Cymdeithas Dai / Landlord | Cymdeithas Fasnach | Adeiladwr Tai Mawr | Parti Arall sydd â Diddordeb |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cwestiwn 16: A ydych yn cytuno â'r dull gweithredu arfaethedig ar gyfer darpariaethau awyru wrth osod mesurau effeithlonrwydd ynni fel y'i nodir yn Adran 3?** | | | | | | | | | | | | | | | | |
| **Cyfanswm** | **60** | **3** | **1** | **1** | **1** | **1** | **1** | **1** | **3** | **8** | **17** | **4** | **2** | **4** | **0** | **13** |
| Ydw | 68% | 67% | 100% | 0% | 100% | 0% | 100% | 100% | 67% | 100% | 65% | 75% | 100% | 25% | - | 62% |
| Nac ydw | 12% | 33% | 0% | 0% | 0% | 100% | 0% | 0% | 0% | 0% | 12% | 25% | 0% | 50% | - | 0% |

2.76 O'r rhai a ymatebodd i'r cwestiwn hwn, roedd 68% yn cytuno â'r dull gweithredu arfaethedig ar gyfer darpariaethau awyru wrth osod mesurau effeithlonrwydd ynni mewn annedd bresennol. Cyflwynodd pum ymatebydd, a oedd yn cynrychioli cymdeithasau masnach a'r sector gweithgynhyrchu/y gadwyn gyflenwi ac yn cytuno â'r cynnig, sylwadau ychwanegol.

- Roedd dau ymatebydd yn cefnogi'r angen am ddarpariaeth awyru ychwanegol wrth osod mesurau effeithlonrwydd ynni ond gwnaethant gynnig datrysiad amgen. Eu hargymhelliad hwythau oedd, wrth osod pob ffenestr newydd, y dylid gosod awyryddion cefndir ag arwynebedd cyfatebol o 5000mm$^2$ lle y darperir sawl ffenestr mewn ystafell neu 10,000mm$^2$ os mai dim ond un ffenestr a ddarperir [Noder: mae paragraffau 3.13 i 3.15 o'r Ddogfen Gymeradwy F ddrafft yn rhoi canllawiau penodol ar ddarpariaethau awyru wrth osod ffenestri newydd]. Credai un o'r ymatebwyr hyn y gall y gwahanol gategorïau o ddarpariaeth awyru wrth osod mesurau effeithlonrwydd ynni achosi dryswch.
- Dywedodd dau ymatebydd eu bod yn petruso cyn cefnogi dull gweithredu sy'n un rhagnodol yn eu barn nhw (pe bai'r dull syml yn cael ei ddilyn), gan na

chaiff nodweddion unigol eiddo eu hasesu'n ddigonol o bosibl, a all arwain at ganlyniadau anfwriadol. Awgrymwyd y dylid hyrwyddo cyngor arbenigol fel y prif lwybr ar gyfer cydymffurfiaeth, gyda'r dull syml wrth gefn. Nododd un o'r ymatebwyr hyn bryderon ynglŷn â digonolrwydd cynnwys mesurau effeithlonrwydd ynni hanesyddol yn yr asesiad oherwydd mae'n bosibl na fyddai preswylwyr yn ymwybodol o waith a wnaed gan berchenogion blaenorol. Awgrymwyd y dylid cyflwyno “Pasbort Adeilad” lle y byddai gwaith hanesyddol yn cael ei gofnodi a'i ddiweddaru i nodi gwaith a wneir ar yr eiddo.

- Dywedodd un ymatebydd yr hoffai weld diffiniad o sefyllfaoedd lle yr argymhellir ceisio “cyngor arbenigol”. Awgrymwyd y dylai'r diffiniad a gynigir ar gyfer Lloegr hefyd gael ei ddefnyddio yng Nghymru. Awgrymodd yr ymatebydd hwn fod meintiau arfaethedig yr awyryddion cefndir yn rhy fawr. Yn seiliedig ar adborth o'r ymgynghoriad cyntaf ar anheddau newydd, mae'n argymell y meintiau llai, diwygiedig fel y'u darparwyd yn yr Ymgynghoriad ar Safonau Adeiladu'r Dyfodol (Lloegr).

2.77 Roedd 12% o'r ymatebwyr yn anghytuno â'r cynnig.

- Roedd pump o'r ymatebwyr hyn, a oedd yn cynrychioli cymdeithasau masnach a'r sector gweithgynhyrchu/y gadwyn gyflenwi, yn cefnogi'r cysyniad o wella darpariaeth awyru mewn anheddau presennol yn gyffredinol, ond rhoesant resymau dros beidio â chefnogi'r cynigion penodol ac adborth sy'n debyg i'r pwyntiau a godwyd gan rai o'r ymatebwyr hynny a oedd yn cytuno â'r cynnig.
- Dywedodd dau ymatebydd a atebodd “Nac ydw” eu bod yn cytuno â'r cynnig ond nad oeddent yn cytuno â meintiau'r awyryddion a gynigiwyd ac, yn lle hynny, argymhellwyd y dylid lleihau'r meintiau yn unol â'r rhai a gynigiwyd ar gyfer yr Ymgynghoriad ar Safonau Adeiladu'r Dyfodol (Lloegr). Gwnaeth yr ymatebwyr argymhelliad pellach y dylai Adran 3 o'r Ddogfen Gymeradwy gynnwys cyfeiriad penodol at baragraff 1.46 yn Adran 1, a fyddai'n helpu i sicrhau bod awyryddion cefndir mewn anheddau presennol yn dilyn y manylebau hyn.
- Cododd un ymatebydd bryderon bod y dull syml yn rhy ragnodol, oherwydd ei bod yn bosibl na fyddai'n ymdrin â nodweddion unigol eiddo yn ddigonol, a all arwain at ganlyniadau anfwriadol.
- Roedd dau ymatebydd yn anghytuno â'r dull syml, gan argymell y dylid ei ddileu o'r Ddogfen Gymeradwy. Yn lle hynny, maent yn argymell bod y Ddogfen Gymeradwy ond yn cynnig y llwybr ‘cyngor arbenigol’, a ddylai, yn ôl eu hawgrym, gyd-fynd â phroses PAS 2035:2019.
- Nid oedd ymatebydd arall a oedd yn cynrychioli corff proffesiynol yn cefnogi'r cynnig ond hynny am resymau gwahanol. Er bod yr ymatebydd yn cefnogi'r hyn a fwriadwyd, cododd bryderon am y tybiaethau ynglŷn ag aerglosrwydd yr annedd, gan awgrymu y dylai prawf hydreiddedd aer fod yn ofynnol cyn ac ar ôl gwneud gwaith adeiladu er mwyn sicrhau bod y darpariaethau awyru yn briodol. Cododd yr ymatebydd bryderon eraill ynglŷn â'r ddibyniaeth ar y rheol “rhannu ag 20” ar gyfer cyfraddau cyfnewid aer amcangyfrifedig o ddata ar hydreiddedd aer, a'r ddibyniaeth ar awyryddion cefndir pan na chânt eu defnyddio'n effeithiol gan breswylwyr.

2.78 Atebodd 20% o'r ymatebwyr nad oeddent yn siŵr am y cynigion, ond dim ond un, a oedd yn cynrychioli Arolygydd Rheoli Adeiladu/Cymeradwy, a roddodd unrhyw sylwadau. Awgrymodd yr ymatebydd y byddai angen ystyried ymwybyddiaeth o'r asesiad a dibynadwyedd yr asesiad/gosodiad yn benodol

lle y câi'r gwaith ei wneud drwy Gynllun Personau Cymwys yn unig (h.y. lle nad yw'n cael ei oruchwylio gan gorff rheoli adeiladu). Awgrymodd fod angen uwchsgilio a chodi ymwybyddiaeth, gan gynnwys drwy'r Cynllun Personau Cymwys.

2.79 Nododd un ymatebydd pa mor bwysig ydoedd bod preswylwyr yn cael cyfarwyddiadau gweithredu a chynnal a chadw er mwyn helpu i sicrhau darpariaethau awyru digonol.

## YMATEB Y LLYWODRAETH

2.80 Roedd 68% o'r ymatebwyr yn cytuno â'r darpariaethau awyru arfaethedig wrth osod mesurau effeithlonrwydd ynni, felly byddwn yn eu cynnwys yn y Ddogfen Gymeradwy derfynol.

2.81 Ar ôl adborth o'r ymgynghoriad, rydym yn bwriadu gwneud rhai diwygiadau i'r canllawiau terfynol megis:
- lleihau maint awyryddion cefndir er mwyn cyd-fynd â'r safonau arfaethedig ar gyfer anheddau newydd.
- rhoi rhagor o ganllawiau ar y term 'cyngor arbenigol' neu ddiffiniad ohono.

### Cwestiwn 17

| | Pawb a ymatebodd i'r cwestiwn hwn | Pensaer | Adeiladwr / Datblygwr | Arolygydd Cymeradwy Rheoli Adeiladu | Meddiannydd Adeilad/Preswylydd | Dylunydd Meddalwedd Adeiladu ac Ynni Datblygwr | Dylunydd / Peiriannydd / Syrfëwr | Cynllun Achredu Aseswyr Ynni | Sector Ynni | Awdurdod Lleol | Gwneuthurwr/Cadwyn Gyflenwi | Corff Proffesiynol | Rheolwr Eiddo / Cymdeithas Dai / Landlord | Cymdeithas Fasnach | Adeiladwr Tai Mawr | Parti Arall sydd â Diddordeb |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cwestiwn 17: A ydych yn cytuno â'r cynnig yn Adran 3 y dylid cynnwys systemau awyru ychwanegol wrth osod ffenestri newydd yn lle rhai presennol nad oes ganddynt awyryddion cefndir neu os nad yw maint yr awyryddion cefndir yn y ffenestr bresennol yn hysbys?** | | | | | | | | | | | | | | | | |
| **Cyfanswm** | **57** | **3** | **1** | **1** | **1** | **1** | **1** | **1** | **2** | **8** | **15** | **3** | **2** | **5** | **0** | **13** |
| Ydw | 68% | 67% | 100% | 100% | 100% | 0% | 100% | 100% | 100% | 100% | 67% | 67% | 100% | 40% | - | 46% |
| Nac ydw | 12% | 33% | 0% | 0% | 0% | 100% | 0% | 0% | 0% | 0% | 7% | 33% | 0% | 40% | - | 8% |
| Ddim yn siŵr | 19% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 27% | 0% | 0% | 20% | - | 46% |

2.82 Roedd 68% o'r ymatebwyr yn cefnogi'r cynnig i gynnwys darpariaeth awyru ychwanegol wrth osod ffenestri newydd yn lle rhai presennol.

- Achubodd dau ymatebydd ar y cyfle i awgrymu diwygiadau i'r cynnig. Argymhellodd un, a oedd yn cynrychioli cymdeithas fasnach mewn diwydiant, y dylai unrhyw ddarpariaeth awyru mewn ffenestri sy'n bodoli eisoes neu ffenestri newydd gael ei chofnodi ar ddalen gomisiynu (e.e. ei hychwanegu at un o'r templedi a geir yn Atodiad C neu D) gan y byddai hyn yn gwella cydymffurfiaeth â'r gofyniad awyru ychwanegol arfaethedig.

- Nododd yr ail ymatebydd, a oedd yn cynrychioli'r gadwyn gyflenwi, nad yw maint awyryddion mewn ffenestri sy'n bodoli eisoes yn uniongyrchol gymaradwy â meintiau'r rhai mewn ffenestri sy'n cael eu gosod yn eu lle o bosibl. Roedd manylebau awyryddion hŷn yn cyfeirio at fetrig arwynebedd rhydd geometregol yn hytrach nag arwynebedd cyfatebol (EQA) a gallai hyn achosi dryswch o bosibl. Mae meintiau'r arwynebedd rhydd a nodwyd yn tueddu i fod yn fwy na'r arwynebedd cyfatebol, a all arwain at ddarparu awyryddion o'r maint anghywir yn y ffenestr newydd. Felly, mae'n awgrymu y dylid diwygio paragraff 3.13 (a) i nodi arwynebedd cyfatebol yn benodol wrth gymharu rhwng yr awyrydd gwreiddiol ac awyrydd newydd.
- Dywedodd yr un ymatebydd fod llawer o gynhyrchion awyryddion cefndir ar gael mewn meintiau arwynebedd cyfatebol fesul 2,500mm2. Er mwyn sicrhau'r isafswm arwynebedd cyfatebol arfaethedig o 8,000mm2 (mewn ystafelloedd cyfanheddol) gallai hynny arwain at osod pedwar awyrydd (h.y. arwynebedd cyfatebol o 10,000mm2), a all fod yn anymarferol ac arwain at orawyru. Rhoddodd ragor o adborth, gan awgrymu bod meintiau'r awyryddion cefndir a gynigiwyd yn yr ymgynghoriad yn rhy fawr, ond nid argymhellodd feintiau amgen. Nododd dau ymatebydd arall a oedd yn cynrychioli awdurdodau lleol y bydd y gofyniad newydd arfaethedig yn anodd ei orfodi o bosibl. Ychwanegodd un o'r ymatebwyr hyn fod ffenestri newydd yn tueddu i gael eu gosod o dan Gynllun Personau Cymwys. Felly, ni fydd swyddogion Rheoli Adeiladu yn cael digon o wybodaeth o bosibl i wirio a gorfodi yn ôl yr angen.

2.83 Nododd 12% o'r ymatebwyr eu bod yn anghytuno â'r cynnig.

- Nododd dau ymatebydd, y naill yn cynrychioli cymdeithas fasnach ar gyfer y diwydiant awyru a'r llall yn cynrychioli'r sector gweithgynhyrchu/y gadwyn gyflenwi eu bod yn cytuno â'r canllawiau arfaethedig yn gyffredinol.
- Fodd bynnag, gwnaethant ateb 'nac ydw' am yr un rheswm a nodwyd yn gynharach (gan ymatebydd a oedd cytuno â'r cynnig), sef eu bod yn argymell y dylai unrhyw ddarpariaeth awyru ar gyfer ffenestri sy'n bodoli eisoes a'r ffenestri newydd gael ei chofnodi ar ddalen gomisiynu. Aethant ymhellach na'r ymatebydd blaenorol yn yr ystyr yr hoffent weld rhestr comisiynu ffenestri newydd benodol gan fod gwaith ar ffenestri yn aml yn cael ei wneud yn annibynnol ar fesurau awyru eraill. Wrth wneud hynny, gallai'r rhestr, a fyddai'n cynnwys gwybodaeth am rannau sy'n agor/ddim yn agor, hefyd gael ei defnyddio i nodi sefyllfaoedd lle mae ffenestri nad ydynt yn agor yn cael eu gosod yn lle'r rhai presennol, a all arwain at orgynhesu.
- Nododd un ymatebydd o gymdeithas fasnach bryderon y byddai sŵn yn dod i mewn ac y byddai mwy o ddrafftiau gyda'r awyryddion mwy o faint a gynigiwyd. Hefyd, nododd yr ymatebydd hwn yr un pryderon ag a godwyd gan ymatebydd a oedd yn cytuno â'r cynnig o ran y meintiau arfaethedig, a all arwain at orawyru. Gofynnodd hefyd am eglurder ynglŷn â maint awyrydd (e.e. arwynebedd rhydd neu arwynebedd cyfatebol) mewn ffenestri gwreiddiol fel y'i cynigiwyd ym mharagraff 3.13.
- Roedd dau ymatebydd arall yn anghytuno am resymau gwahanol. Roedd yr ymatebwyr yn pryderu ynglŷn â'r defnydd o ddull syml, gan awgrymu y dylid cynnal asesiadau unigol o'r anghenion awyru yn lle hynny. Argymhellodd un o'r ymatebwyr hyn y dylid cynnal asesiad technegol ac yna broses ddylunio, a ddylai gyd-fynd â phroses PAS 2035:2019.

2.84 Atebodd 19% o'r ymatebwyr nad oeddent yn siŵr am y cynnig. Ni roddodd yr un o'r ymatebwyr hyn ragor o sylwadau manwl.

## YMATEB Y LLYWODRAETH

2.85 Roedd 68% yn cytuno â'r darpariaethau awyru arfaethedig wrth osod ffenestri newydd yn lle'r rhai presennol, felly byddwn yn cynnwys y canllawiau arfaethedig. Yn sgil adborth o'r ymgynghoriad, bydd y Ddogfen Gymeradwy yn rhoi mwy o eglurder wrth gymharu meintiau'r awyrydd gwreiddiol a'r awyrydd newydd, h.y. y gwahaniaeth rhwng arwynebedd cyfatebol awyru ac arwynebedd rhydd geometrig.

### Cwestiwn 18

| | Pawb a ymatebodd i'r cwestiwn hwn | Pensaer | Adeiladwr / Datblygwr | Arolygydd Cymeradwy Rheoli Adeiladu | Meddiannydd Adeilad/Preswylydd | Dylunydd Meddalwedd Adeiladu ac Ynni Datblygwr | Dylunydd / Peiriannydd / Syrfëwr | Cynllun Achredu Aseswyr Ynni | Sector Ynni | Awdurdod Lleol | Gwneuthurwr/Cadwyn Gyflenwi | Corff Proffesiynol | Rheolwr Eiddo / Cymdeithas Dai / Landlord | Cymdeithas Fasnach | Adeiladwr Tai Mawr | Parti Arall sydd â Diddordeb |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cwestiwn 18: A ydych yn cytuno â'r newidiadau a gynigir yn Adran 3 ar gyfer darpariaethau awyru wrth ychwanegu ystafell gyfanheddol newydd (heb gynnwys heulfan) at annedd bresennol?** | | | | | | | | | | | | | | | | |
| **Cyfanswm** | **53** | **3** | **1** | **1** | **1** | **0** | **1** | **1** | **2** | **8** | **14** | **3** | **2** | **3** | **0** | **13** |
| Ydw | 72% | 67% | 100% | 100% | 100% | - | 100% | 100% | 50% | 100% | 71% | 67% | 100% | 33% | - | 54% |
| Nac ydw | 8% | 33% | 0% | 0% | 0% | - | 0% | 0% | 0% | 0% | 7% | 33% | 0% | 33% | - | 0% |
| Ddim yn siŵr | 21% | 0% | 0% | 0% | 0% | - | 0% | 0% | 50% | 0% | 21% | 0% | 0% | 33% | - | 46% |

2.86 Roedd 72% o'r ymatebwyr i'r cwestiwn hwn yn cytuno â'r cynnig. Ychwanegodd tri ymatebydd eu bod yn cefnogi'r cynnig oherwydd eu pryderon ynglŷn â lleithder, ansawdd aer dan do, a gorgynhesu, a all achosi mwy o broblemau os na chaiff darpariaethau awyru eu hystyried mewn sefyllfaoedd lle yr ychwanegir ystafell gyfanheddol newydd.

2.87 Roedd 8% yn anghytuno, ond dywedodd dau o'r ymatebwyr hyn (y naill yn cynrychioli cymdeithas fasnach a'r llall yn cynrychioli'r sector gweithgynhyrchu/y gadwyn gyflenwi) y byddent yn cytuno pe bai meintiau'r awyryddion a gynigir yn cael eu lleihau o 10,000mm$^2$ a 5,000mm$^2$ i 8,000mm$^2$ a 4,000mm$^2$ yn y drefn honno.

2.88 Nododd ymatebwyr eraill a oedd yn anghytuno fel a ganlyn:

- Dylid ystyried strategaeth awyru amgen yn gyntaf, ac os nad yw hyn yn ddichonadwy, yna dylai'r canllawiau arfaethedig gael eu defnyddio fel datrysiad wrth gefn, h.y. nid yr ateb a ffefrir.
- Mae'r datrysiad awyru yn dibynnu ar yr hyn y mae'r ystafell ychwanegol wedi'i chysylltu ag ef a'i lleoliad yn yr adeilad o ran y prif wyntoedd.

2.89 Atebodd 21% o'r ymatebwyr nad oeddent yn siŵr am y cynnig. Cyflwynwyd un sylw gan gynrychiolydd cymdeithas fasnach. Argymhellodd y dylid lleihau meintiau'r awyryddion a gynigir yn unol â'r meintiau a awgrymwyd gan y ddau ymatebydd a oedd yn anghytuno â'r cynnig oherwydd y meintiau a gynigir.

## YMATEB Y LLYWODRAETH

2.90 Roedd 72% yn cytuno â'r darpariaethau awyru arfaethedig wrth ychwanegu ystafell gyfanheddol newydd, felly byddwn yn cynnwys y canllawiau arfaethedig. Ar ôl adborth o'r ymgynghoriad, rydym yn bwriadu lleihau maint yr awyryddion cefndir i gyd-fynd â'r safonau arfaethedig ar gyfer anheddau newydd.

### Cwestiwn 19

| | Pawb a ymatebodd i'r cwestiwn hwn | Pensaer | Adeiladwr / Datblygwr | Arolygydd Cymeradwy Rheoli Adeiladu | Meddiannydd Adeilad/Preswylydd | Dylunydd Meddalwedd Adeiladu ac Ynni Datblygwr | Dylunydd / Peiriannydd / Syrfëwr | Cynllun Achredu Aseswyr Ynni | Sector Ynni | Awdurdod Lleol | Gwneuthurwr/Cadwyn Gyflenwi | Corff Proffesiynol | Rheolwr Eiddo / Cymdeithas Dai / Landlord | Cymdeithas Fasnach | Adeiladwr Tai Mawr | Parti Arall sydd â Diddordeb |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cwestiwn 19: A ydych yn cytuno â'r newidiadau a gynigir yn Adran 3 ar gyfer darpariaethau wrth adnewyddu cegin neu ystafell ymolchi?** | | | | | | | | | | | | | | | | |
| **Cyfanswm** | **54** | **3** | **1** | **1** | **1** | **0** | **1** | **1** | **2** | **8** | **15** | **3** | **2** | **3** | **0** | **13** |
| Ydw | 63% | 67% | 100% | 100% | 100% | - | 100% | 100% | 50% | 75% | 73% | 33% | 100% | 33% | - | 38% |
| Nac ydw | 13% | 33% | 0% | 0% | 0% | - | 0% | 0% | 0% | 13% | 7% | 67% | 0% | 33% | - | 8% |
| Ddim yn siŵr | 24% | 0% | 0% | 0% | 0% | - | 0% | 0% | 50% | 13% | 20% | 0% | 0% | 33% | - | 54% |

2.91 Roedd 63% o'r ymatebwyr yn cefnogi'r darpariaethau awyru arfaethedig wrth adnewyddu cegin neu ystafell ymolchi. Roedd pedwar ymatebydd o'r farn bod y newidiadau arfaethedig yn bwysig o ran lliniaru problemau gyda lleithder ac anwedd yn yr ystafelloedd hyn. Dywedodd dau ymatebydd unwaith eto fod angen i feintiau awyryddion gynyddu fesul arwynebedd cyfatebol o 2,500$mm^2$ (gweler Cwestiwn 17), ond fel arall roeddent yn cefnogi'r cynnig. Nododd dau ymatebydd arall a oedd yn cynrychioli dau awdurdod lleol gwahanol nad yw adnewyddu'r ystafelloedd hyn yn golygu o reidrwydd fod angen hysbysu corff rheoli adeiladu am y gwaith. Fel y cyfryw, efallai y bydd yn anodd gorfodi'r gofynion.

2.92 Roedd 13% o'r ymatebwyr yn anghytuno â'r cynnig. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a oedd yn anghytuno yn teimlo nad oedd y canllawiau arfaethedig yn mynd yn ddigon pell. Yn benodol, argymhellwyd y dylid diwygio paragraff 3.30 yn y Ddogfen Gymeradwy F ddrafft.

- Nododd pedwar ymatebydd, gan gynnwys ymatebwyr o awdurdod lleol, cymdeithasau masnach a'r sector gweithgynhyrchu/y gadwyn gyflenwi yn benodol y dylid diwygio paragraff 3.30 er mwyn nodi bod yn rhaid darparu system awyru echdynnu mewn ystafell wedi'i hadnewyddu, gan gynnwys mewn sefyllfaoedd lle nad oedd unrhyw ddarpariaeth awyru yn yr ystafell wreiddiol.
- Awgrymodd dau ymatebydd y dylid cynnal asesiad proffesiynol mewn sefyllfaoedd lle nad oedd unrhyw ddarpariaeth awyru yn yr ystafell wreiddiol. Awgrymwyd y byddai hyn yn welliant ar baragraff 3.30 sy'n nodi nad oes angen darparu system awyru o dan yr amgylchiadau hyn.

2.93 Cyflwynwyd dau sylw o blith y 24% o'r ymatebwyr a atebodd nad oeddent yn siŵr am y cynnig. Nododd un ymatebydd bryderon tebyg i'r rhai a oedd yn anghytuno â'r cynnig. Argymhellodd y byddai angen darpariaeth awyru pe bai arwyddion o lwydni neu anwedd yn yr ystafell wreiddiol, yn enwedig os oedd y gwaith o adnewyddu'r ystafell yn rhan o waith adnewyddu arall a fyddai'n golygu bod angen cyflwyno hysbysiad am waith adeiladu. Dywedodd ymatebydd arall a oedd yn cynrychioli awdurdod lleol nad oedd yn siŵr am y cynnig am nad oes angen cyflwyno hysbysiad am waith adnewyddu cegin neu ystafell ymolchi o reidrwydd.

**YMATEB Y LLYWODRAETH**

2.94 Roedd 63% yn cytuno â'r darpariaethau awyru arfaethedig wrth ychwanegu ystafell gyfanheddol newydd, felly byddwn yn cynnwys y canllawiau arfaethedig. Ar ôl adborth o'r ymgynghoriad, rydym yn bwriadu egluro yn y testun terfynol bod y canllawiau hyn yn gymwys i ‘gwaith adeiladu’ (hysbysadwy neu ddim yn hysbysadwy) ond gellir hefyd eu hystyried yn arfer dda pan na fydd gwaith adnewyddu yn cynnwys ‘gwaith adeiladu’.

**Cwestiwn 20**

| | Pawb a ymatebodd i'r cwestiwn hwn | Pensaer | Adeiladwr / Datblygwr | Arolygydd Cymeradwy Rheoli Adeiladu | Meddiannydd Adeilad/Preswylydd | Dylunydd Meddalwedd Adeiladu ac Ynni Datblygwr | Dylunydd / Peiriannydd / Syrfëwr | Cynllun Achredu Aseswyr Ynni | Sector Ynni | Awdurdod Lleol | Gwneuthurwr/Cadwyn Gyflenwi | Corff Proffesiynol | Rheolwr Eiddo / Cymdeithas Dai / Landlord | Cymdeithas Fasnach | Adeiladwr Tai Mawr | Parti Arall sydd â Diddordeb |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cwestiwn 20: A ydych yn cytuno â'r cynnig y dylid profi systemau awyru mecanyddol (gan gynnwys systemau awyru parhaus ac ysbeidiol) pan gânt eu gosod mewn cartrefi presennol?** | | | | | | | | | | | | | | | | |
| **Cyfanswm** | **57** | **3** | **1** | **1** | **1** | **1** | **1** | **1** | **2** | **8** | **16** | **4** | **2** | **4** | **0** | **12** |
| Ydw | 84% | 100% | 100% | 100% | 100% | 100% | 100% | 100% | 100% | 88% | 81% | 100% | 100% | 100% | - | 58% |
| Nac ydw | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | - | 0% |
| Ddim yn siŵr | 16% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 13% | 19% | 0% | 0% | 0% | - | 42% |

2.95 O'r rhai a ymatebodd i'r cwestiwn hwn, roedd y mwyafrif, sef 84%, yn cefnogi'r cynnig. Ni chafwyd unrhyw atebion 'Nac ydw' i'r cynnig y dylid profi systemau awyru mecanyddol sy'n cael eu gosod mewn cartrefi presennol. Gwnaeth llawer o'r ymatebwyr a oedd yn cytuno sylwadau cefnogol ac achubodd nifer bach ar y cyfle i wneud awgrymiadau.

- Gofynnodd tri ymatebydd pwy fyddai'n gyfrifol am gynnal unrhyw brofion. Roedd dau o'r ymatebwyr hyn, a oedd yn cynrychioli awdurdodau lleol, o'r farn mai aelod o Gynllun Personau Cymwys Rhan P fyddai'r person mwyaf priodol. Yn ychwanegol at hyn, nododd ymatebydd arall, a oedd hefyd yn cynrychioli awdurdod lleol, y byddai angen gwaith papur symlach fel na fydd y broses hon yn rhy feichus i adeiladwyr bach.
- Roedd gan un ymatebydd amheuon a fyddai unigolion â hyfforddiant addas y byddai eu hangen i gynnal y profion hyn ar gael. Nododd hefyd y dylid cyfeirio at y term 'gwaith adeiladu hysbysadwy' er mwyn osgoi gwrthdaro ag Atodlen 4 i'r Rheoliadau Adeiladu.
- Nododd un ymatebydd a oedd yn cynrychioli cymdeithas fasnach fod angen i'r ddalen profi a chomisiynu gael ei throsglwyddo i berchennog yr adeilad. Byddai cyfeiriad at ddogfen o'r fath yn ddefnyddiol o ran gwaith cynnal a chadw yn y dyfodol. Awgrymodd ymatebydd arall o'r sector gweithgynhyrchu/y gadwyn gyflenwi y dylai gwybodaeth am ddarpariaeth awyru cefndir ac awyru echdynnu i wagio gael ei chofnodi ar yr un ddalen gan y person sy'n cynnal y prawf.
- Dywedodd un ymatebydd a oedd yn cynrychioli corff proffesiynol y dylai'r cynnig fynd ymhellach a'i gwneud yn ofynnol cynnal prawf hydreiddedd aer yn ogystal â'r prawf awyru er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth awyru yn briodol ar gyfer yr annedd.

2.96 Atebodd 16% o'r ymatebwyr nad oeddent yn siŵr am gyflwyno profion ar systemau awyru mecanyddol mewn anheddau presennol. Dim ond un ymatebydd, a oedd yn cynrychioli awdurdod lleol, a roddodd reswm, gan nodi y byddai'n anodd gorfodi'r gofyniad hwn o bosibl ac felly y dylai gwaith o'r fath gael ei wneud o dan Gynllun Personau Cymwys.

**YMATEB Y LLYWODRAETH**

2.97 Roedd 84% o'r ymatebwyr yn cefnogi'r cynnig y dylid profi systemau awyru mecanyddol wrth eu gosod mewn cartrefi presennol ac nid oedd unrhyw ymatebwyr yn anghytuno. Rydym yn bwriadu cyflwyno'r gofyniad/canllawiau ond bydd y Ddogfen Gymeradwy yn egluro ymhellach mai mewn perthynas â gwaith adeiladu hysbysadwy yn hytrach na gwaith adeiladu nad yw'n hysbysadwy fel y'i disgrifiwyd yn atodlen 4 o'r Rheoliadau Adeiladu y bydd hyn yn gymwys (h.y. ni fydd hyn yn gymwys os caiff ffan newydd ei gosod yn lle'r ffan ysbeidiol bresennol).

# Pennod 4. Newidiadau Rhan L ar gyfer Adeiladau Annomestig (Cwestiynau 21 – 24)

2.98 Nododd y bennod hon yn yr ymgynghoriad gynigion i gysoni â'r newidiadau diweddaraf i'r gofynion yn y Gyfarwyddeb Perfformiad Ynni Adeiladau, ar gyfer adeiladau annomestig newydd a phresennol yn y meysydd canlynol:

- Dyfeisiau hunanreoleiddio
- Systemau awtomeiddio a rheoli adeiladu
- Systemau Cynhyrchu Trydan ar y Safle
- Gwybodaeth am systemau adeilad technegol

**Cwestiwn 21**

| | Pawb a ymatebodd i'r cwestiwn hwn | Pensaer | Adeiladwr / Datblygwr | Arolygydd Cymeradwy Rheoli Adeiladu | Meddiannydd Adeilad/Preswylydd | Dylunydd Meddalwedd Adeiladu ac Ynni Datblygwr | Dylunydd / Peiriannydd / Syrfëwr | Cynllun Achredu Aseswyr Ynni | Sector Ynni | Awdurdod Lleol | Gwneuthurwr/Cadwyn Gyflenwi | Corff Proffesiynol | Rheolwr Eiddo / Cymdeithas Dai / Landlord | Cymdeithas Fasnach | Adeiladwr Tai Mawr | Parti Arall sydd â Diddordeb |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cwestiwn 21: A ydych yn cytuno â'r dull gweithredu arfaethedig ar gyfer Dyfeisiau Hunanreoleiddio fel y'i nodir yn Adran 11 (Dogfen Gymeradwy L2A) ac Adran 15 (Dogfen Gymeradwy L2B)?** | | | | | | | | | | | | | | | | |
| **Cyfanswm** | **48** | **3** | **1** | **1** | **1** | **0** | **1** | **1** | **3** | **8** | **14** | **2** | **0** | **2** | **0** | **11** |
| Ydw | 75% | 100% | 100% | 0% | 100% | - | 100% | 100% | 100% | 100% | 57% | 100% | - | 50% | - | 64% |
| Nac ydw | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | - | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | - | 0% | - | 0% |
| Ddim yn siŵr | 25% | 0% | 0% | 100% | 0% | - | 0% | 0% | 0% | 0% | 43% | 0% | - | 50% | - | 36% |

2.99 Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynigion. Cyflwynwyd cyfanswm o 48 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Roedd 36 (75%) yn cytuno, nid oedd yr un ymatebydd yn anghytuno, ac nid oedd 12 (25%) yn siŵr am y cynigion. Y math mwyaf cyffredin o ymatebydd oedd gwneuthurwyr neu eu cadwyni cyflenwi, a oedd yn cyfrif am 29% o gyfanswm yr ymatebion i'r cwestiwn hwn. Roedd y sylwadau a gyflwynwyd yn cynnwys y themâu canlynol:

- Dylai dyfeisiau hunanreoleiddio reoli mesurau effeithlonrwydd a pherfformiad yn llawn.
- Maent yn gwbl hanfodol er mwyn sicrhau bod perfformiad ynni yn parhau ar y lefel fwyaf effeithlon.
- Dylid defnyddio dulliau dylunio goddefol da yn hytrach na systemau gwresogi ac awyru mecanyddol.

**Cwestiwn 22**

| | Pawb a ymatebodd i'r cwestiwn hwn | Pensaer | Adeiladwr / Datblygwr | Arolygydd Cymeradwy Rheoli Adeiladu | Meddiannydd Adeilad/Preswylydd | Dylunydd Meddalwedd Adeiladu ac Ynni Datblygwr | Dylunydd / Peiriannydd / Syrfëwr | Cynllun Achredu Aseswyr Ynni | Sector Ynni | Awdurdod Lleol | Gwneuthurwr/Cadwyn Gyflenwi | Corff Proffesiynol | Rheolwr Eiddo / Cymdeithas Dai / Landlord | Cymdeithas Fasnach | Adeiladwr Tai Mawr | Parti Arall sydd â Diddordeb |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cwestiwn 22: A ydych yn cytuno â'r manylebau arfaethedig ar gyfer Systemau Awtomeiddio a Rheoli Adeiladu (BACS) fel y'u nodir yn Adran 11 (Dogfen Gymeradwy L2A) ac Adran 15 (Dogfen Gymeradwy L2B)?** | | | | | | | | | | | | | | | | |
| **Cyfanswm** | **47** | **2** | **1** | **1** | **1** | **0** | **1** | **1** | **3** | **8** | **14** | **2** | **0** | **2** | **0** | **11** |
| Ydw | 66% | 100% | 100% | 0% | 100% | - | 100% | 100% | 33% | 100% | 50% | 100% | - | 50% | - | 55% |
| Nac ydw | 4% | 0% | 0% | 0% | 0% | - | 0% | 0% | 33% | 0% | 0% | 0% | - | 0% | - | 9% |
| Ddim yn siŵr | 30% | 0% | 0% | 100% | 0% | - | 0% | 0% | 33% | 0% | 50% | 0% | - | 50% | - | 36% |

2.100 Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynigion. Cafwyd cyfanswm o 47 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Roedd 31 (66%) yn cytuno, roedd 2 (4%) yn anghytuno ac nid oedd 14 (30%) yn siŵr am y cynigion hyn. Y math mwyaf cyffredin o ymatebydd oedd gwneuthurwyr neu eu cadwyni cyflenwi, a oedd yn cyfrif am 30% o gyfanswm yr ymatebion i'r cwestiwn hwn.

2.101 Roedd y sylwadau a gyflwynwyd gan y rhai a oedd yn cefnogi'r cynnig yn cynnwys y themâu canlynol:

- O ddeall eu bod yn un o ofynion Cyfarwyddeb Perfformiad Ynni Adeiladau'r UE ar ei newydd wedd, ymddengys nad yw'r cynigion yn ddewisol.
- Dylid ehangu'r canllawiau a'r manylebau i gynnwys dull o ganfod diffygion ar lefel cyfarpar er mwyn helpu i nodi cyfarpar sy'n llai effeithlon.
- Dylid defnyddio dulliau dylunio goddefol da yn hytrach na systemau gwresogi ac awyru mecanyddol.

2.102 Roedd y sylwadau a gyflwynwyd gan y rhai a oedd yn anghytuno â'r cynnig yn cynnwys y canlynol:

- Nododd un ymatebydd y bydd awtomeiddio cysgodi yn effeithio ar wasanaethau eraill (oeri, gwresogi, goleuadau ac awyru) y cyfeirir atynt yn Adrannau 11 a 15 ac awgrymodd y dylid ymdrin ag awtomeiddio cysgodi yn yr adran hon [cyflwynwyd yr ymateb hwn ar gyfer Cwestiwn 23 hefyd].
- Mynegodd un ymatebydd bryderon ynglŷn â'r rheoliadau a oedd yn ymwneud â chynhyrchu trydan ar y safle, yn benodol am bennu maint sy'n ‘briodol’ ar gyfer y galw am ynni ar y safle [cyfeiriwyd at ymateb llawnach gan yr ymatebydd hwn i Gwestiwn 13 ar gyfer y pwynt hwn].

2.103 Roedd y sylwadau a gyflwynwyd gan y rhai nad oeddent yn siŵr am y cynigion yn cynnwys un ymatebydd a nododd ei fod yn llwyr gefnogol i'r defnydd helaethach o BACS mewn adeiladau annomestig, ond y bydd angen strategaeth fanylach ac adolygiad o'r cyfleoedd ar y cam ymgynghori nesaf, yn hytrach na throsi'r mesurau sy'n ofynnol o dan y Gyfarwyddeb Perfformiad Ynni Adeiladau yn unig [cyflwynwyd yr ymateb hwn i Gwestiwn 23 hefyd].

2.104 Awgrymodd un ymatebydd na roddodd ateb (cytuno / anghytuno / ddim yn siŵr) y byddai'n synhwyrol pennu safon BS EN neu EN ISO.

**Cwestiwn 23**

| | Pawb a ymatebodd i'r cwestiwn hwn | Pensaer | Adeiladwr / Datblygwr | Arolygydd Cymeradwy Rheoli Adeiladu | Meddiannydd Adeilad/Preswylydd | Dylunydd Meddalwedd Adeiladu ac Ynni Datblygwr | Dylunydd / Peiriannydd / Syrfëwr | Cynllun Achredu Aseswyr Ynni | Sector Ynni | Awdurdod Lleol | Gwneuthurwr/Cadwyn Gyflenwi | Corff Proffesiynol | Rheolwr Eiddo / Cymdeithas Dai / Landlord | Cymdeithas Fasnach | Adeiladwr Tai Mawr | Parti Arall sydd â Diddordeb |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cwestiwn 23: A ydych yn cytuno â'r safonau newydd arfaethedig ar gyfer Systemau Awtomeiddio a Rheoli Adeiladu (BACS) a Systemau Cynhyrchu Trydan ar y Safle fel y'u nodir yn Adran 11 (Dogfen Gymeradwy L2A) ac Adran 15 (Dogfen Gymeradwy L2B)?** | | | | | | | | | | | | | | | | |
| **Cyfanswm** | **45** | **2** | **1** | **1** | **1** | **0** | **1** | **1** | **2** | **8** | **14** | **2** | **0** | **2** | **0** | **10** |
| Ydw | 71% | 100% | 100% | 0% | 100% | - | 100% | 100% | 100% | 100% | 50% | 100% | - | 50% | - | 60% |
| Nac ydw | 2% | 0% | 0% | 0% | 0% | - | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | - | 0% | - | 10% |
| Ddim yn siŵr | 27% | 0% | 0% | 100% | 0% | - | 0% | 0% | 0% | 0% | 50% | 0% | - | 50% | - | 30% |

2.105 Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynigion. Cafwyd cyfanswm o 45 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Roedd 32 (71%) yn cytuno, roedd 1 (2%) yn anghytuno ac nid oedd 12 (27%) yn siŵr am y cynigion hyn. Y math mwyaf cyffredin o ymatebydd oedd gwneuthurwyr neu eu cadwyni cyflenwi, a oedd yn cyfrif am 31% o gyfanswm yr ymatebion i'r cwestiwn hwn.

2.106 Roedd sylwadau a gyflwynwyd gan y rhai a oedd o blaid y cynigion yn cynnwys y themâu canlynol:

- Nododd un ymatebydd y dylid blaenoriaethu effeithlonrwydd ynni yn hytrach na thechnolegau ‘ychwanegol’. Awgrymodd y dylid hefyd roi blaenoriaeth i fynd i'r afael â thlodi tanwydd neu iechyd meddianwyr, ynghyd â dileu unrhyw ofyniad i waith ôl-osod gyrraedd targedau carbon sero net ac, felly, fod yn rhaid mesur effeithlonrwydd ynni wrth ei ddefnyddio hefyd.
- Mae Dogfen Gymeradwy L2B yn nodi y caniateir gosod system lai o faint sy'n fwy addas ar gyfer y galw am yr ynni yn yr adeilad yn lle'r capasiti cynhyrchu presennol. Byddai canllawiau ychwanegol ynglŷn â phryd y bydd caniatâd i weithredu yn y ffordd hon yn ddefnyddiol er mwyn cael gwared ar unrhyw amwysedd.

**Cwestiwn 24**

| | Pawb a ymatebodd i'r cwestiwn hwn | Pensaer | Adeiladwr / Datblygwr | Arolygydd Cymeradwy Rheoli Adeiladu | Meddiannydd Adeilad/Preswylydd | Dylunydd Meddalwedd Adeiladu ac Ynni Datblygwr | Dylunydd / Peiriannydd / Syrfëwr | Cynllun Achredu Aseswyr Ynni | Sector Ynni | Awdurdod Lleol | Gwneuthurwr/Cadwyn Gyflenwi | Corff Proffesiynol | Rheolwr Eiddo / Cymdeithas Dai / Landlord | Cymdeithas Fasnach | Adeiladwr Tai Mawr | Parti Arall sydd â Diddordeb |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cwestiwn 24: A ydych yn cytuno â'r dull gweithredu arfaethedig i'w gwneud yn ofynnol i Systemau Adeilad Technegol gael eu hasesu ac i wybodaeth amdanynt gael ei darparu fel y'i nodir yn Adran 7 (Dogfen Gymeradwy L2A) ac Adran 14 (Dogfen Gymeradwy L2B)?** | | | | | | | | | | | | | | | | |
| **Cyfanswm** | **48** | **3** | **1** | **1** | **1** | **0** | **1** | **1** | **2** | **8** | **15** | **2** | **0** | **2** | **0** | **11** |
| Ydw | 77% | 100% | 100% | 0% | 100% | - | 100% | 100% | 50% | 100% | 67% | 100% | - | 100% | - | 64% |
| Nac ydw | 2% | 0% | 0% | 0% | 0% | - | 0% | 0% | 0% | 0% | 7% | 0% | - | 0% | - | 0% |
| Ddim yn siŵr | 21% | 0% | 0% | 100% | 0% | - | 0% | 0% | 50% | 0% | 27% | 0% | - | 0% | - | 36% |

2.107 Roedd 77% o'r ymatebwyr i Gwestiwn 24 yn cytuno â'r gofyniad i asesu perfformiad ynni Systemau Adeilad Technegol a darparu gwybodaeth i berchennog yr adeilad, a'r canllawiau ategol i ddangos bod y gofyniad hwn wedi cael ei fodloni, fel y nodwyd yn y fersiwn ddiwygiedig o Ddogfen Gymeradwy L2A a Dogfen Gymeradwy L2B.

- Nododd sawl ymatebydd fod y gofyniad hwn yn bwysig o ran sicrhau'r perfformiad ynni gorau posibl a chynnal a chadw systemau'r adeilad a'r defnydd diogel ohonynt.
- Awgrymodd un ymatebydd y byddai'n well pe bai'r wybodaeth yn cael ei darparu drwy gyflwyno pasbort adeilad.

2.108 Roedd 2% o'r ymatebwyr yn anghytuno â'r cynnig.

- Awgrymodd yr ymatebydd hwn y dylai'r holl dystiolaeth o berfformiad adeilad gael ei darparu yn yr adroddiad BRWL, a allai gael ei ehangu fel y bo angen i wneud hynny. Byddai'n well pe bai'r holl dystiolaeth yn cael ei darparu mewn un adroddiad.

2.109 Awgrymodd un ymatebydd, nad oedd wedi nodi p'un a oedd yn cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig yn gyffredinol, nad yw'r opsiwn o ddarparu Tystysgrif Perfformiad Ynni i fodloni'r gofyniad hwn yn cynnig asesiad da o berfformiad ynni ac nad yw'n hyrwyddo effeithlonrwydd ynni wrth ei ddefnyddio. Argymhellodd yr ymatebydd y dylid gwella'r fethodoleg gyfrifo a chyflwyno mesuriadau wrth ei ddefnyddio ar y cyd â hi. Argymhellodd ymatebydd arall y defnydd o basbort adeilad fel y'i nodwyd uchod.

**YMATEB Y LLYWODRAETH**

2.110 Roedd y mwyafrif helaeth o'r ymatebwyr yn cytuno â'r dull gweithredu arfaethedig ar gyfer dyfeisiau hunanreoleiddio, systemau awtomeiddio a rheoli adeiladu a chynhyrchu trydan ar y safle: felly, rydym yn bwriadu cyflwyno'r newidiadau.

# Pennod 5. Lleihau'r Risg o Orgynhesu mewn Anheddau Newydd (Cwestiynau 25 i 32)

2.111 Roedd y bennod hon yn yr ymgynghoriad yn cynnig y dylid cyflwyno rhan newydd o'r Rheoliadau Adeiladu (Rhan S) ynghyd â gofynion ar gyfer lleihau'r risg o orgynhesu mewn anheddau newydd.

### Asesu cydymffurfiaeth â Gofyniad S1 (lleihau'r risg o orgynhesu yn rhesymol)

**Cwestiwn 25**

| | Pawb a ymatebodd i'r cwestiwn hwn | Pensaer | Adeiladwr / Datblygwr | Arolygydd Cymeradwy Rheoli Adeiladu | Meddiannydd Adeilad/Preswylydd | Dylunydd Meddalwedd Adeiladu ac Ynni Datblygwr | Dylunydd / Peiriannydd / Syrfëwr | Cynllun Achredu Aseswyr Ynni | Sector Ynni | Awdurdod Lleol | Gwneuthurwr/Cadwyn Gyflenwi | Corff Proffesiynol | Rheolwr Eiddo / Cymdeithas Dai / Landlord | Cymdeithas Fasnach | Adeiladwr Tai Mawr | Parti Arall sydd â Diddordeb |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cwestiwn 25: A ydych yn cytuno â'r cynnig y dylid canolbwyntio ar fflatiau a thai nad oes ganddynt ddwy wedd gyfochrog neu fwy i hwyluso croes-awyru?** | | | | | | | | | | | | | | | | |
| **Cyfanswm** | **60** | **3** | **1** | **1** | **1** | **1** | **1** | **1** | **2** | **8** | **18** | **3** | **2** | **3** | **3** | **12** |
| Ydw | 67% | 67% | 100% | 100% | 100% | 0% | 100% | 0% | 100% | 63% | 78% | 67% | 100% | 67% | 100% | 33% |
| Nac ydw | 12% | 33% | 0% | 0% | 0% | 100% | 0% | 100% | 0% | 0% | 6% | 33% | 0% | 33% | 0% | 8% |
| Ddim yn siŵr | 22% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 38% | 17% | 0% | 0% | 0% | 0% | 58% |

2.112 Roedd 67% o'r ymatebwyr i Gwestiwn 25 yn cytuno y dylai'r asesiad newydd o orgynhesu a'r canllawiau ganolbwyntio ar fflatiau a thai nad oes ganddynt ddwy wedd gyfochrog neu fwy i hwyluso croes-awyru.

- Cafwyd cytundeb cyffredinol bod y dull gweithredu hwn yn rhesymol yn seiliedig ar wybodaeth ymatebwyr a/neu ganlyniadau'r ymchwil y cyfeiriwyd ati yn y ddogfen ymgynghori.
- Nododd dau ymatebydd fod ffactorau eraill sy'n effeithio ar y risg o orgynhesu (a rhoddwyd enghreifftiau, gan gynnwys o'r ymchwil y cyfeiriwyd ati yn y ddogfen ymgynghori) a all arwain at sefyllfa lle na fydd eiddo sy'n debygol o orgynhesu yn cael ei wella. Hefyd, nododd y ddau ymatebydd ei bod yn bwysig nid yn unig ystyried dyluniad yr adeilad ond hefyd y ffordd y bydd meddianwyr yn defnyddio'r adeilad.
- Gwnaeth un ymatebydd sylw cyffredinol na fydd systemau awyru mecanyddol yn lleihau'r risg o orgynhesu yn gyfan gwbl ar hyn o bryd.

- Cynigiodd dau ymatebydd fod angen i asesiad o'r risgiau o orgynhesu gynnwys amodau'r gaeaf ac amodau'r haf gan fod tystiolaeth o effaith niweidiol ar iechyd poblogaeth sy'n heneiddiol yn ystod pob tymor o ganlyniad i'r newid yn yr hinsawdd.
- Gofynnodd dau ymatebydd i Lywodraeth Cymru gyhoeddi'r ymchwil a gomisiynwyd ganddi.
- Gofynnodd un ymatebydd a yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyflwyno gofynion ynglŷn â gorgynhesu ar gyfer cartrefi presennol, gan nodi cyfleoedd i ddefnyddio inswleiddio fel rhan o waith ôl-osod ynni effeithlon er mwyn helpu i leihau'r risg o orgynhesu hefyd.
- Roedd sawl ymatebydd yn cymeradwyo'r bwriad arfaethedig i ystyried ehangu cwmpas y gofyniad i adeiladau preswyl eraill pan gaiff Rhan L ar gyfer adeiladau annomestig ei hadolygu nesaf.

2.113 Roedd 12% o'r ymatebwyr yn anghytuno â'r cynigion.

- Awgrymodd tri ymatebydd, er eu bod yn cydnabod bod yr adeiladau hyn yn wynebu mwy o risg, fod llawer o ffactorau eraill a all effeithio ar orgynhesu mewn anheddau ac iechyd y meddianwyr. Felly, cynigiwyd y dylai'r canllawiau gwmpasu pob math o annedd. Nododd ymatebydd arall ei fod yn gweld cryn dipyn o dystiolaeth o orgynhesu a chwynion cysylltiedig gan breswylwyr mewn anheddau sydd â dwy wedd gyfochrog ac na ddylid eithrio'r cartrefi hyn.
- Roedd un ymatebydd o'r farn y dylid cadw gwiriad gorgynhesu SAP. Dylid defnyddio gwiriad SAP ar gyfer pob annedd fel dangosydd cychwynnol o b'un a fydd yr annedd yn gorgynhesu ai peidio. Os bydd SAP yn dangos y bydd yr annedd yn gorgynhesu, bydd angen ymchwiliad pellach, naill ai drwy'r dull syml neu, os bydd angen, drwy'r dull manwl.
- Awgrymodd un ymatebydd y dylid defnyddio CIBSE TM 59 i astudio pob math o ffenestr yn hytrach na chyfyngu ar yr asesiad a thrwy hynny gynyddu'r risg o orgynhesu.
- Nododd un ymatebydd y peryglon sy'n gysylltiedig â dibynnu ar awyru yn ystod y dydd i oeri annedd. Cynigiodd yr ymatebydd fod angen canolbwyntio ar fàs thermol sy'n cael ei oeri drwy awyru ag aer yn ystod y nos a bod angen cadw ffenestri ar gau yn ystod y dydd pan fydd y tymereddau y tu allan yn uwch.

2.114 Awgrymodd un ymatebydd na nododd a oedd yn cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig yn gyffredinol fod dull awyru sy'n seiliedig ar effaith stac yn ddull amgen/cyflenwol effeithlon o groes-awyru er mwyn lleihau'r risg o orgynhesu; mae hyn yn effeithio ar yr adeiladau hynny sy'n wynebu'r risg fwyaf (e.e. os bydd awyru digonol o ganlyniad i'r effaith stac mewn tai heb groes-awyru digonol, efallai na fyddant yn wynebu'r risg fwyaf) a strategaethau i leihau'r risg o orgynhesu. Cynigiodd ymatebydd arall y dylid defnyddio dulliau dylunio goddefol da (gan gynnwys màs thermol uchel a chaeadau allanol) yn hytrach na systemau gwresogi ac awyru mecanyddol. Awgrymodd ymatebydd arall fod angen ymchwil bellach er mwyn deall y mater yn llawnach, gan gynnwys yr holl ganllawiau a roddir yn y Ddogfen Gymeradwy newydd.

## YMATEB Y LLYWODRAETH

2.115 Roedd yr ymatebwyr yn cefnogi'r cynigion ar y cyfan, felly byddwn yn bwrw ymlaen drwy roi ffocws yn y gofynion ar fflatiau a thai annedd nad oes ganddynt ddwy wedd gyfochrog neu fwy i hwyluso croes-awyru. Byddwn hefyd yn ystyried ehangu cwmpas y gofyniad i adeiladau annomestig eraill sy'n rhai preswyl o ran cymeriad yn ymgynghoriad Cam 2B.

2.116 Comisiynodd Llywodraeth Cymru ymchwil i estyn astudiaeth yr Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol i gartrefi newydd yng Nghymru a gellir ei gweld yn Atodiad A.

## Cwestiwn 26

| | Pawb a ymatebodd i'r cwestiwn hwn | Pensaer | Adeiladwr / Datblygwr | Arolygydd Cymeradwy Rheoli Adeiladu | Meddiannydd Adeilad/Preswylydd | Dylunydd Meddalwedd Adeiladu ac Ynni | Dylunydd / Peiriannydd / Syrfëwr | Cynllun Achredu Aseswyr Ynni | Sector Ynni | Awdurdod Lleol | Gwneuthurwr/Cadwyn Gyflenwi | Corff Proffesiynol | Rheolwr Eiddo / Cymdeithas Dai / Landlord | Cymdeithas Fasnach | Adeiladwr Tai Mawr | Parti Arall sydd â Diddordeb |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cwestiwn 26: A ydych yn cytuno â'r cynnig y dylid mabwysiadu dull gweithredu syml sy'n rhoi canllawiau rhagnodol a dull gweithredu sy'n seiliedig ar waith dadansoddi thermol dynamig er mwyn rhoi mwy o hyblygrwydd?** | | | | | | | | | | | | | | | | |
| **Cyfanswm** | **62** | **3** | **1** | **1** | **1** | **1** | **1** | **1** | **3** | **8** | **17** | **4** | **2** | **4** | **3** | **12** |
| Ydw | 82% | 100% | 100% | 100% | 100% | 100% | 100% | 0% | 67% | 100% | 88% | 100% | 100% | 100% | 100% | 42% |
| Nac ydw | 3% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 100% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 8% |
| Ddim yn siŵr | 15% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 33% | 0% | 12% | 0% | 0% | 0% | 0% | 50% |

2.117 O'r rhai a ymatebodd i'r cwestiwn hwn, roedd 82% yn cytuno â'r cynnig, roedd 3% yn anghytuno ac nid oedd 15% yn siŵr.

2.118 O'r rhai a ymatebodd 'ydw' ac a roddodd resymau dros eu hymateb:

- Roedd pum ymatebydd yn cymeradwyo'r hyblygrwydd roedd y cynigion yn ei gynnig a'r fantais y byddai'r dull syml yn ei chynnig i ddatblygwyr bach a'r rhai sy'n hunanadeiladu.
- Cynigiodd un ymatebydd y dylid defnyddio DSM fel yr opsiwn arferol.
- Roedd un ymatebydd o'r farn bod defnyddio DSM yn dderbyniol, gan gydnabod mai aseswyr lefel 5 sydd fwyaf agosaf at bersonél cymwysedig addas. Nododd ymatebydd arall fod angen rhagor o ganllawiau.
- Roedd gan ddau ymatebydd bryderon ynglŷn â chadernid y dull syml a'r risg gynhenid yr oedd yn ei golygu o ran gorgynhesu. Yn benodol, mynegodd un ymatebydd bryderon ynglŷn â chyfyngu ar enillion solar ac effeithiau ar lefelau golau dydd, a nododd ymatebydd arall fod angen adolygiad gan gymheiriaid

er mwyn dileu'r risgiau sy'n gysylltiedig â hunanardystio datrysiadau newydd sydd wedi'u modelu drwy ddefnyddio DSM. Cynigiodd un ymatebydd broses gymeradwyo ar sail math o dŷ lle y caiff mathau o dai eu modelu yn erbyn y senarios gwaethaf er mwyn sicrhau cymeradwyaeth ymlaen llaw.

2.119 Dim ond dau ymatebydd a roddodd resymau dros anghytuno â'r dull o ymdrin â gorgynhesu drwy gyfuniad o DSM a'r dull syml. Dadleuodd un ymatebydd o blaid defnyddio'r SAP o hyd a chynigiodd y dylid gwella SAP. Awgrymodd yr ymatebydd y dylai'r gwelliant arwain at brawf llwyddo/methu ar orgynhesu ac y dylai adeiladau sy'n methu gael eu modelu drwy ddefnyddio DSM. Cynigiodd yr ymatebydd arall mai dim ond DSM y dylid ei ddefnyddio i asesu gorgynhesu.

2.120 Nid oedd dau ymatebydd yn siŵr bod y dull syml wedi cael ei ddatblygu ddigon a chwestiynodd un o'r ymatebwyr a oedd digon o dystiolaeth o gyfwerthedd y ddau ddull gweithredu ac a oedd angen rhagor o ganllawiau.

**YMATEB Y LLYWODRAETH**

2.121 Roedd cefnogaeth gref iawn i'r cynigon ymhlith yr ymatebwyr, felly, rydym yn bwriadu parhau â dull syml sy'n rhoi canllawiau rhagnodol a dull sy'n seiliedig ar ddadansoddi thermol dynamig.

**Cwestiwn 27**

**Cwestiwn 27: A ydych yn cytuno â'r canllawiau rhagnodol ar gyfer y dull gweithredu syml y bwriedir iddo reoli enillion solar a darparu systemau awyru er mwyn gwaredu gwres o'r cartref?**

| | Pawb a ymatebodd i'r cwestiwn hwn | Pensaer | Adeiladwr / Datblygwr | Arolygydd Cymeradwy Rheoli Adeiladu | Meddiannydd Adeilad/Preswylydd | Dylunydd Meddalwedd Adeiladu ac Ynni Datblygwr | Dylunydd / Peiriannydd / Syrfëwr | Cynllun Achredu Aseswyr Ynni | Sector Ynni | Awdurdod Lleol | Gwneuthurwr/Cadwyn Gyflenwi | Corff Proffesiynol | Rheolwr Eiddo / Cymdeithas Dai / Landlord | Cymdeithas Fasnach | Adeiladwr Tai Mawr | Parti Arall sydd â Diddordeb |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm** | **56** | **3** | **1** | **1** | **1** | **1** | **1** | **1** | **3** | **7** | **16** | **2** | **2** | **4** | **3** | **10** |
| Ydw | 68% | 67% | 100% | 0% | 100% | 0% | 100% | 100% | 67% | 100% | 69% | 50% | 100% | 50% | 67% | 50% |
| Nac ydw | 14% | 33% | 0% | 100% | 0% | 100% | 0% | 0% | 0% | 0% | 13% | 0% | 0% | 25% | 0% | 20% |
| Ddim yn siŵr | 18% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 33% | 0% | 19% | 50% | 0% | 25% | 33% | 30% |

2.122 O'r rhai a ymatebodd i'r cwestiwn hwn, roedd 68% yn cytuno â'r cynnig, roedd 14% yn anghytuno ac nid oedd 18% yn siŵr.

2.123 O'r ymatebwyr a wnaeth sylwadau ac a oedd yn cytuno â'r cynnig:

- Awgrymodd un ymatebydd fod y ddau ffactor risg mwyaf o ran gorgynhesu wedi cael eu targedu a dywedodd un ymatebydd y byddai'r canllawiau yn cynnig datrysiadau ymarferol syml ac yn galluogi rheoli solar heb leihau maint ffenestri.
- Roedd dau ymatebydd yn pryderu ynglŷn â'r gofyniad ar gyfer gwydr â gwerth g o 0.4. Roedd dau ymatebydd yn pryderu y byddai gwydr â gwerth g isel yn arwain at ddiffyg golau dydd yn yr anheddau.
- Awgrymodd ymatebydd arall fod angen diffinio ystyr 'arwynebedd llawr'.

2.124 O'r ymatebwyr a oedd yn anghytuno â'r cynnig ac a wnaeth sylwadau:

- Awgrymodd un ymatebydd y byddai'n fuddiol pe bai'r term 'gwerth g' yn cael ei ddiffinio am nad oedd yn derm cyfarwydd i lawer o bobl. Hefyd, cododd yr ymatebydd bryderon ynglŷn â lefelau golau dydd.
- Roedd un ymatebydd yn poeni ynglŷn â materion a oedd yn ymwneud â chyfeiriad a maint ffenestri. Roedd yr ymatebydd yn teimlo nad oedd fawr ddim eglurder o ran ystyr 'ffasâd y de', h.y. Pa mor bell o'r de y gallai hyn fod.
- Dywedodd dau ymatebydd fod y dull syml yn orsyml ac nad oedd yn ddigon cadarn.
- Nododd un ymatebydd fod angen eglurder mewn perthynas â blociau o fflatiau lle mae angen defnyddio DSM ar gyfer rhai rhannau a lle y gellir defnyddio'r dull syml ar gyfer rhannau eraill, gan ofyn am eglurder ynghylch a ddylai dadansoddiad DSM fod yn gymwys i'r adeilad cyfan neu ddim ond i'r rhannau hynny nad ydynt yn addas ar gyfer y dull syml.
- Nododd un ymatebydd ei fod yn gweld cynigion i ddefnyddio systemau rheoli mwg i ddarparu dulliau awyru naturiol er mwyn rheoli gorgynhesu.

2.125 Gwnaeth tri ymatebydd arall y sylwadau canlynol. Mae un ymatebydd yn awgrymu y byddai rhai enghreifftiau o'r dull syml sy'n cynnwys gwaith cyfrifo yn fuddiol. Cynigiodd ymatebydd arall y dylai Dull Gweithredu 3 fod yn eglurach er mwyn nodi na ddylai heulwen uniongyrchol daro'r llawr mewnol yn ystod yr haf. Mae'r trydydd ymatebydd yn cynnig y dylid paru gwydr â gwerth E isel ag offer cysgodi allanol symudol a chysgodlenni yn hytrach na defnyddio gwydr â gwerth g isel.

2.126 O'r ymatebwyr nad oeddent yn siŵr am y cynnig ac a wnaeth sylwadau:

- Roedd un ymatebydd yn pryderu y byddai'r gofyniad ar gyfer gwydr â gwerth g o 0.4 yn arwain at golli enillion solar yn y gaeaf a chynnydd cysylltiedig mewn costau gwresogi.
- Roedd un ymatebydd yn pryderu ynglŷn â materion a oedd yn ymwneud â chyfeiriad a maint ffenestri, gan awgrymu bod angen cynnwys cyfeiriad ffenestri yn Nhabl 1.1.
- Cynigiodd un ymatebydd y dylid defnyddio awyru cefndir i leihau enillion solar.

2.127 O'r ymatebwyr nad oeddent wedi rhoi ateb ac a wnaeth sylwadau:

- Roedd un ymatebydd yn pryderu ynglŷn â'r gofyniad ar gyfer gwydr â gwerth g o 0.4. Roedd yr ymatebydd yn pryderu y byddai'r gwerth g isel yn arwain at golli enillion solar yn y gaeaf a chynnydd cysylltiedig mewn costau gwresogi.
- Hefyd, cododd dau ymatebydd bryderon ynglŷn â lefelau golau dydd. Ceir pryder nad oes eglurder ynglŷn ag ystyr 'lefelau golau dydd digonol' ac roedd un ymatebydd yn pryderu y byddai prynwyr yn aberthu ffenestri mwy o faint er mwyn bodloni blaenoriaethau eraill.
- Roedd dau ymatebydd yn pryderu ynglŷn â materion a oedd yn ymwneud â chyfeiriad a maint ffenestri. Nododd un ymatebydd nad oedd yn glir sut y dylai ffenestri a ganiateir gael eu dosbarthu dros ffasadau adeilad â gwedd ddeuol. Roedd un ymatebydd yn gwrthod Dull Gweithredu 1 yn llwyr, gan gynnig cynyddu cyfraneddau ffenestri i 25% ar gyfer Dull Gweithredu 2 a 3 ar gyfer anheddau ag un wedd. Mae'r ymatebydd hwn yn cynnig ymhellach na ddylai fod uchafswm gwydr lle y gosodir offer cysgodi modurol ar bob gwedd rhwng y de-orllewin a'r de-ddwyrain. Gofynnodd ymatebydd arall a oes angen caeadau allanol ar ffasadau sy'n wynebu tua'r gogledd yn Null Gweithredu 3.
- Dywedodd un ymatebydd fod y dull syml yn orsyml.
- Dadleuodd un ymatebydd y dylid ychwanegu staciau awyru at y dull syml fel dewis amgen lle nad yw ffasâd deuol yn bosibl.

## YMATEB Y LLYWODRAETH

2.128 Roedd 68% o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig. Rydym yn bwriadu rhoi'r canllawiau rhagnodol ar gyfer y dull syml ar waith, ond byddwn yn ystyried rhai newidiadau i'r canllawiau terfynol er mwyn lleddfu pryderon ynglŷn â'r canlynol:

- lefelau golau dydd (cyflwyno lefel trawsyrru golau ar gyfer y gwydr);
- maint agor ffenestri (er mwyn lleihau'r isafswm arwynebedd rhydd i gael gwared ar wres lle y bo modd);
- rhoi mwy o eglurder ynglŷn ag arwynebedd llawr a chyfeiriad ffasadau.

**Cwestiwn 28**

| | Pawb a ymatebodd i'r cwestiwn hwn | Pensaer | Adeiladwr / Datblygwr | Arolygydd Cymeradwy Rheoli Adeiladu | Meddiannydd Adeilad/Preswylydd | Dylunydd Meddalwedd Adeiladu ac Ynni Datblygwr | Dylunydd / Peiriannydd / Syrfëwr | Cynllun Achredu Aseswyr Ynni | Sector Ynni | Awdurdod Lleol | Gwneuthurwr/Cadwyn Gyflenwi | Corff Proffesiynol | Rheolwr Eiddo / Cymdeithas Dai / Landlord | Cymdeithas Fasnach | Adeiladwr Tai Mawr | Parti Arall sydd â Diddordeb |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Cwestiwn 28: A ydych yn cytuno â'r canllawiau a ddarparwyd ar gyfer y gwaith dadansoddi thermol dynamig?** | | | | | | | | | | | | | | | |
| **Cyfanswm** | **54** | **3** | **1** | **1** | **1** | **1** | **1** | **1** | **3** | **7** | **15** | **3** | **1** | **3** | **3** | **10** |
| Ydw | 74% | 100% | 100% | 100% | 100% | 100% | 100% | 100% | 67% | 86% | 67% | 100% | 100% | 67% | 67% | 50% |
| Nac ydw | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% |
| Ddim yn siŵr | 26% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 33% | 14% | 33% | 0% | 0% | 33% | 33% | 50% |

2.129 O'r rhai a ymatebodd i'r cwestiwn hwn, roedd 74% yn cytuno â'r cynnig, nid oedd yr un ymatebydd yn anghytuno ac nid oedd 26% yn siŵr.

2.130 O'r tri ymatebydd a wnaeth sylwadau ac a oedd yn cytuno â'r cynnig, nododd un ymatebydd fod y dull gweithredu yn hanfodol er mwyn tynnu sylw at broblemau dylunio.

2.131 Roedd y sylwadau gan ymatebwyr nad oeddent yn siŵr yn cynnwys y canlynol:

- Nododd dau ymatebydd fod diffyg eglurder yn nhestun adran 1.4 rhwng modelu mesurau goddefol, modelu mesurau gweithredol a TM59. Yn benodol, mynegwyd pryder y gallai'r testun gael ei ddehongli i olygu naill ai nad oes angen ymgymryd â TM59 lle y bydd angen mesurau gweithredu neu y byddai TM59 yn cael ei gymhwyso at aerdymheru.
- Nid oedd un ymatebydd yn siŵr ynglŷn â'r defnydd arfaethedig o gategori 1 i fod yn sail i'r asesiad o orgynhesu ond ni chynigiodd awgrym arall.
- Mae ymatebydd arall yn awgrymu y dylid cynnwys y canllawiau ar strategaeth agor a chau cynhyrchion cysgodi.

**YMATEB Y LLYWODRAETH**

2.132 Roedd 74% o'r ymatebwyr yn cytuno â'r canllawiau arfaethedig ar gyfer dadansoddi thermol dynamig ac felly rydym yn bwriadu parhau â'r canllawiau. Caiff canllawiau pellach eu cynnwys ar gyfer blaenoriaethu mesurau ynni isel os dangosir bod angen mesurau gweithredol e.e. dylid blaenoriaethu

systemau awyru mecanyddol yn hytrach na mesurau gweithredol ynni uchel e.e. aerdymheru.

**Cwestiwn 29**

| | Pawb a ymatebodd i'r cwestiwn hwn | Pensaer | Adeiladwr / Datblygwr | Arolygydd Cymeradwy Rheoli Adeiladu | Meddiannydd Adeilad/Preswylydd | Dylunydd Meddalwedd Adeiladu ac Ynni Datblygwr | Dylunydd / Peiriannydd / Syrfëwr | Cynllun Achredu Aseswyr Ynni | Sector Ynni | Awdurdod Lleol | Gwneuthurwr/Cadwyn Gyflenwi | Corff Proffesiynol | Rheolwr Eiddo / Cymdeithas Dai / Landlord | Cymdeithas Fasnach | Adeiladwr Tai Mawr | Parti Arall sydd â Diddordeb |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cwestiwn 29: A ydych yn cytuno â'r wybodaeth y cynigir y dylai fod gan unigolion er mwyn ymgymryd â'r gwaith modelu thermol dynamig?** | | | | | | | | | | | | | | | | |
| **Cyfanswm** | **55** | **3** | **1** | **1** | **1** | **1** | **1** | **1** | **3** | **8** | **15** | **4** | **1** | **2** | **3** | **10** |
| Ydw | 71% | 67% | 100% | 0% | 100% | 100% | 100% | 0% | 100% | 88% | 67% | 100% | 100% | 50% | 67% | 50% |
| Nac ydw | 5% | 33% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 100% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 10% |
| Ddim yn siŵr | 24% | 0% | 0% | 100% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 13% | 33% | 0% | 0% | 50% | 33% | 40% |

2.133 O'r rhai a ymatebodd i'r cwestiwn hwn, roedd 71% yn cytuno â'r cynnig, roedd 5% yn anghytuno ac nid oedd 24% yn siŵr.

2.134 O'r ymatebwyr a wnaeth sylwadau ac a oedd yn cytuno â'r cynnig:

- Nododd un ymatebydd fod achrediad Lefel 5 yn rhesymol, gan awgrymu y gall modelwr Lefel 4 fod yn addas ar gyfer anheddau unigol.
- Roedd dau ymatebydd yn pryderu ynglŷn ag argaeledd Aseswyr Ynni Carbon Isel Lefel 5.
- Mae ymatebydd arall yn awgrymu bod yn rhaid i unrhyw un sy'n ymwneud â'r broses ddylunio i osgoi gorgynhesu feddu ar gymwysterau technegol er mwyn gwneud y gwaith dadansoddi angenrheidiol.

2.135 O'r ymatebwyr a oedd yn anghytuno â'r cynigion ac a wnaeth sylwadau:

- Awgrymodd un ymatebydd y dylid caniatáu llwybrau eraill i brofi cymhwysedd (e.e. defnyddio pecynnau meddalwedd cymeradwy neu brofiad).
- Nododd dau ymatebydd fod hyfforddiant asesu Lefel 5 yn seiliedig ar baratoi Tystysgrifau Perfformiad Ynni yn hytrach nag asesiadau TM59 o orgynhesu. Os felly, cynigiodd yr ymatebwyr fod angen hyfforddiant ychwanegol ar gyfer aseswyr Lefel 5 neu fod angen cynllun achredu ar wahân ar gyfer asesu TM59 mewn anheddau.

2.136 Cyflwynwyd y sylwadau eraill gan ymatebwyr nad oeddent yn siŵr.

- Roedd dau ymatebydd yn pryderu am argaeledd Aseswyr Ynni Carbon Isel Lefel 5 gan mai dim ond ar gyfer adeiladau annomestig y mae angen aseswr Lefel 5 ar hyn o bryd.
- Nododd un ymatebydd fod hyfforddiant asesu Lefel 5 yn seiliedig ar baratoi Tystysgrifau Perfformiad Ynni yn hytrach nag asesiadau TM59 o orgynhesu. Os felly, cynigiodd yr ymatebydd fod angen hyfforddiant ychwanegol ar aseswyr Lefel 5.

**YMATEB Y LLYWODRAETH**

Roedd 71% o'r ymatebwyr yn cytuno â'r enghraifft a gynigiwyd o'r wybodaeth sydd ei hangen i ymgymryd â gwaith modelu thermol dynamig. Rydym yn bwriadu parhau â'r canllawiau ond byddwn yn diwygio'r enghraifft i gynnwys profiad o fodelu cysur thermol mewn adeiladau a'i ychwanegu mewn testun italig er mwyn ei gwneud yn eglur nad yw'r enghraifft hon yn rhan o'r canllawiau/gofynion technegol eu hunain. Mae'r newid mewn ymateb i bryderon bod yr enghraifft yn seiliedig ar baratoi Tystysgrif Perfformiad Ynni yn bennaf. .

**Cwestiwn 30**

| | Pawb a ymatebodd i'r cwestiwn hwn | Pensaer | Adeiladwr / Datblygwr | Arolygydd Cymeradwy Rheoli Adeiladu | Meddiannydd Adeilad/Preswylydd | Dylunydd Meddalwedd Adeiladu ac Ynni Datblygwr | Dylunydd / Peiriannydd / Syrfëwr | Cynllun Achredu Aseswyr Ynni | Sector Ynni | Awdurdod Lleol | Gwneuthurwr/Cadwyn Gyflenwi | Corff Proffesiynol | Rheolwr Eiddo / Cymdeithas Dai / Landlord | Cymdeithas Fasnach | Adeiladwr Tai Mawr | Parti Arall sydd â Diddordeb |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cwestiwn 30: A ydych yn cytuno â'r cynnig y dylid dangos bod yr holl fesurau goddefol rhesymol wedi'u defnyddio cyn cynnwys mesurau gweithredol? Os nad ydych yn cytuno, nodwch y rheswm pam ac awgrymwch ganllawiau amgen.** | | | | | | | | | | | | | | | | |
| **Cyfanswm** | **59** | **2** | **1** | **1** | **1** | **1** | **1** | **1** | **3** | **8** | **19** | **2** | **2** | **4** | **3** | **10** |
| Ydw | 85% | 50% | 100% | 100% | 100% | 0% | 100% | 100% | 100% | 88% | 79% | 100% | 100% | 100% | 67% | 90% |
| Nac ydw | 7% | 50% | 0% | 0% | 0% | 100% | 0% | 0% | 0% | 0% | 5% | 0% | 0% | 0% | 33% | 0% |
| Ddim yn siŵr | 8% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 13% | 16% | 0% | 0% | 0% | 0% | 10% |

2.138 O'r rhai a ymatebodd i'r cwestiwn hwn, roedd 85% yn cytuno â'r cynnig, roedd 7% yn anghytuno ac nid oedd 8% yn siŵr.

2.139 O'r ddau ymatebydd a oedd yn cytuno â'r cynnig ac a wnaeth sylwadau, ni roddwyd rheswm dros ei gymeradwyo.

- Nododd pum ymatebydd ei fod yn hanfodol er mwyn cyrraedd targedau carbon 2050 a chyfeiriodd dau ymatebydd arall at yr angen i beidio â chynyddu'r galw am ynni.

- Roedd un ymatebydd yn pryderu bod angen dull tŷ cyfan yn hytrach na defnyddio mesur unigol.
- Roedd gan un ymatebydd bryderon ynglŷn â'r diffiniad o fesurau gweithredol. Cynigiodd yr ymatebydd y dylid gwahaniaethu rhwng mesurau gweithredol ynni isel e.e. defnyddio awyru mecanyddol, a mesurau gweithredol ynni uchel e.e. aerdymheru.
- Nododd dau ymatebydd fod angen addysgu meddiannydd yr adeilad sut i ddefnyddio systemau oeri goddefol a gweithredol.

2.140 O'r pedwar ymatebydd a oedd yn anghytuno ac a wnaeth sylwadau:

- Roedd gan un ymatebydd bryderon ynglŷn â'r diffiniad o fesurau gweithredol a lle aerdymheru. Cynigiodd yr ymatebwyr y dylid gwahaniaethu rhwng mesurau gweithredol ynni isel e.e. lwfrau neu offer gweithredu ffenestri awtomataidd, a mesurau gweithredol ynni uchel e.e. aerdymheru.
- Byddai'n well gan un ymatebydd pe bai'r dewis rhwng mesurau goddefol a gweithredol yn un y byddai'r datblygwr yn ei wneud cyhyd ag y bo'r adeilad yn cyflawni'r targed lleihau ynni.
- Credai un ymatebydd nad oedd angen dangos bod dulliau goddefol wedi cael eu defnyddio am fod cost a manteision mesurau goddefol yn golygu y byddent yn cael eu hystyried sut bynnag.
- Roedd un ymatebydd yn pryderu y byddai mesurau goddefol yn cael effaith ar estheteg adeilad.

2.141 O'r ymatebwyr nad oeddent wedi ateb y cwestiwn ond a wnaeth sylwadau:

- Roedd gan ddau ymatebydd bryderon ynglŷn â'r diffiniad o fesurau gweithredol a lle aerdymheru. Awgrymodd un ymatebydd, pe bai aerdymheru yn cael ei ganiatáu, y dylai gael ei gysylltu ag offer cynhyrchu ffotofoltäig solar yn hytrach na chyflenwad y grid trydan.

**YMATEB Y LLYWODRAETH**

2.142 Roedd 85% o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig y dylid dangos bod yr holl fesurau goddefol rhesymol wedi cael eu defnyddio cyn cynnwys mesurau gweithredol, felly rydym yn bwriadu parhau â'r canllawiau. Fodd bynnag, wrth ystyried y sylwadau, ac fel y disgrifir yn yr ymateb i Gwestiwn 28, caiff rhagor o ganllawiau eu cynnwys ar gyfer blaenoriaethu mesurau ynni isel os dangosir bod angen mesurau gweithredol e.e. y dylid blaenoriaethu awyru mecanyddol yn lle mesurau gweithredol ynni uchel e.e. aerdymheru.

**Cwestiwn 31**

| | Pawb a ymatebodd i'r cwestiwn hwn | Pensaer | Adeiladwr / Datblygwr | Arolygydd Cymeradwy Rheoli Adeiladu | Meddiannydd Adeilad/Preswylydd | Dylunydd Meddalwedd Adeiladu ac Ynni Datblygwr | Dylunydd / Peiriannydd / Syrfëwr | Cynllun Achredu Aseswyr Ynni | Sector Ynni | Awdurdod Lleol | Gwneuthurwr/Cadwyn Gyflenwi | Corff Proffesiynol | Rheolwr Eiddo / Cymdeithas Dai / Landlord | Cymdeithas Fasnach | Adeiladwr Tai Mawr | Parti Arall sydd â Diddordeb |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cwestiwn 31: A ydych yn cytuno yr ymdrinnir â materion sy'n ymwneud â sŵn allanol a llygredd aer, a all effeithio ar y defnydd o fesurau lliniaru (e.e. agor ffenestri) yn ddigonol drwy'r system gynllunio?** | | | | | | | | | | | | | | | | |
| **Cyfanswm** | **58** | **3** | **1** | **1** | **1** | **1** | **1** | **1** | **2** | **8** | **16** | **3** | **2** | **4** | **3** | **11** |
| Ydw | 40% | 33% | 100% | 0% | 0% | 0% | 100% | 0% | 100% | 75% | 38% | 67% | 0% | 0% | 33% | 27% |
| Nac ydw | 12% | 67% | 0% | 0% | 0% | 100% | 0% | 0% | 0% | 0% | 6% | 0% | 50% | 0% | 33% | 9% |
| Ddim yn siŵr | 48% | 0% | 0% | 100% | 100% | 0% | 0% | 100% | 0% | 25% | 56% | 33% | 50% | 100% | 33% | 64% |

2.143 Roedd llawer o'r ymatebwyr yn ansicr eu barn ar y cwestiwn hwn. Fodd bynnag, o'r ymatebwyr a fynegodd farn glir, roedd mwy o blaid y cynnig nag yn ei erbyn. Cafwyd cyfanswm o 58 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Roedd 23 (40%) yn cytuno, roedd 7 (12%) yn anghytuno, ac nid oedd 28 (48%) yn siŵr yr ymdrinnir â'r materion hyn yn ddigonol drwy'r system gynllunio. Y math mwyaf cyffredin o ymatebydd oedd gwneuthurwyr neu eu cadwyni cyflenwi, a oedd yn cyfrif am 28% o gyfanswm yr ymatebion i'r cwestiwn hwn.

2.144 Roedd y sylwadau a gyflwynwyd gan y rhai a oedd o blaid y cynnig yn cynnwys y canlynol:

- Awgrymodd un ymatebydd y byddai ychwanegu gofynion dylunio ychwanegol drwy'r Rhan S newydd o'r Rheoliadau Adeiladu fel dull gweithredu amgen yn ychwanegu cymhlethdod diangen.
- Awgrymodd un ymatebydd, lle y caiff cyfyngiadau cynllunio eu gosod megis na ellir defnyddio ffenestri y gellir eu hagor, yna y dylid defnyddio gwaith modelu thermol dynamig i ymchwilio i opsiynau cyn cyflwyno mesurau gweithredu megis aerdymheru.

2.145 Roedd y sylwadau a gyflwynwyd gan y rhai a oedd yn anghytuno â'r cynigion yn cynnwys y canlynol:

- Awgrymodd tri ymatebydd y gall fod gwrthdaro rhwng gofynion cynllunio a gofynion rheoleiddio adeiladu, sy'n arwain at ansicrwydd. Nododd un o'r rhain y posibilrwydd o ansicrwydd ynglŷn â gorfodi yn enwedig. Nododd un ymatebydd fod angen blaenoriaethu'n glir rhwng safonau pan fo gwrthdaro rhyngddynt (er enghraifft sŵn yn erbyn gorgynhesu).
- Awgrymodd dau ymatebydd fod y cynigion yn ymdrin â materion nad ydynt yn faterion cynllunio yn eu barn nhw. Rhoddodd un o'r rhain yr enghraifft o

ganiatáu ffenestri sy'n agor a allai wedyn gael effaith negyddol ar iechyd a llesiant drwy lygredd sŵn ac aer. Awgrymodd y llall nad oes gan Swyddogion Cynllunio gymwyseddau nac adnoddau digonol i ymdrin yn ddigonol â'r ffordd y gall llygredd sŵn ac aer allanol effeithio ar y risg o orgynhesu, ac y dylid nodi gofynion mewn Rheoliadau Adeiladu i ategu gofynion cynllunio.

- Gwnaeth un ymatebydd sylwadau cyffredinol bod angen i'r cynigion fod yn dynnach.
- Awgrymodd un ymatebydd y dylid pennu trothwy isaf ar gyfer awyryddion cefndir o ran lleihau sŵn, yn unol â'r hyn y gall cynhyrchion ar y farchnad ei gyflawni (awgrymwyd trothwy o 31 desibel pan fyddant ar agor a throthwy o 35 desibel pan fyddant ar gau).

2.146 Roedd y sylwadau a gyflwynwyd gan y rhai nad oeddent yn siŵr am y cynigion yn cynnwys y canlynol:

- Yn debyg i rai o'r ymatebwyr uchod, nododd un ymatebydd nad oedd yn glir beth ddylai ddigwydd pan fo achosion o wrthdaro na ellir eu datrys rhwng Rheoliadau Adeiladu a gofynion cynllunio, gan nodi profiad o'r rhain mewn perthynas â Dogfennau Cymeradwy eraill.
- Nododd tri ymatebydd yr heriau sy'n gysylltiedig â chyfleu a chadarnhau sut mae'r amodau a'r cyfyngiadau a osodir drwy ganiatâd cynllunio yn effeithio ar ofynion, asesiadau a mesurau i leihau'r risg o orgynhesu, er mwyn osgoi nodweddion dylunio sy'n mynd yn groes i'w gilydd. Nododd un ymatebydd yn benodol nad yw tybiaethau ynglŷn ag agor ffenestri a geir mewn modelau yn cael eu mabwysiadu'n ymarferol bob amser, oherwydd y math o gyfyngiadau a grybwyllwyd. Nododd ei bod yn hollbwysig felly fod y cyfyngiadau hyn yn cael eu cynnwys mewn unrhyw waith modelu a wneir, neu eu hystyried os caiff y dull syml ei fabwysiadu, ond ni chynigiodd ffordd benodol o sicrhau bod hyn yn digwydd. Nododd un o'r ymatebwyr fod y cynnig yn dibynnu ar y datblygwr/contractwr yn hysbysu'r corff rheoli adeiladu am amodau cynllunio cysylltiedig.
- Yn debyg i rai o'r ymatebwyr uchod, awgrymodd un ymatebydd nad yw gweithwyr proffesiynol ym maes cynllunio o reidrwydd yn deall gofynion y Rheoliadau Adeiladu yn llawn ac y bydd angen hyfforddiant ar weithwyr proffesiynol ym maes cynllunio a chyrff rheoli adeiladu o bosibl. Nid oedd un ymatebydd yn siŵr a oes digon o sgiliau neu ddealltwriaeth o lygredd sŵn neu aer o fewn y system gynllunio i bennu mesurau sy'n angenrheidiol yn unig. Awgrymodd y gallai hyn olygu na fyddai'r dull rhagnodol yn ddichonadwy mewn llawer o achosion ac felly mai'r dull dadansoddi thermol dynamig fyddai'r dull arferol.
- Mewn gwrthgyferbyniad, nododd un ymatebydd yn gadarnhaol fod y system gynllunio, o'i brofiad o gynlluniau diweddar, yn rhoi ystyriaeth briodol i effaith llygredd sŵn ac aer. Fodd bynnag, nododd hefyd fod y graddau y mae'r system gynllunio yn mynd i'r afael â'r materion yn dibynnu ar yr amgylchiadau ac a oes modd rhoi mesurau lliniaru ar waith.
- Argymhellodd un ymatebydd y dylai perfformiad ynni gael ei ystyried mewn ffordd gyfannol drwy'r Rheoliadau Adeiladu, gan gynnwys sicrhau tymereddau mewnol cyfforddus drwy gydol y flwyddyn, ochr yn ochr â mesurau digonol i ddiogelu rhag llygredd sŵn a mesurau diogelwch. Er i'r ymatebydd groesawu'r ffocws ar ddylunio acwstig da a lleihau amlygiad i lygredd sŵn i'r eithaf mewn Polisi Cynllunio a ddiwygiwyd yn ddiweddar, cafodd hyn ei fabwysiadu cyn

cyflwyno Rhan S. Argymhellodd hefyd y dylid rhoi ystyriaeth ofalus i effaith cyflwyno Rhan S ar lefelau sŵn allanol mewn anheddau newydd er mwyn sicrhau nad oes unrhyw ganlyniadau anfwriadol. Roedd hefyd o blaid gwaith pellach ar y ffordd y gellid gwella adeiladau presennol er mwyn lleihau'r risg o orgynhesu, ac ar y rôl y gall inswleiddio ei chwarae.

2.147 Gwnaeth tri ymatebydd nad oeddent wedi ateb y cwestiwn (h.y. heb nodi a oeddent yn cytuno / anghytuno / ddim yn siŵr) sylwadau perthnasol amrywiol, gan gynnwys y canlynol:

- Yn debyg i'r uchod, nododd un ymatebydd y dylid ymdrin â'r materion drwy'r Rheoliadau Adeiladu yn hytrach na'r system gynllunio, gan roi enghraifft o ddefnyddio ffenestri y gellir eu hagor i gynnig ffordd o groes-awyru er mwyn mynd i'r afael â gorgynhesu, gan achosi problemau llygredd sŵn ac aer o bosibl, y nododd ei bod yn anodd ymdrin â nhw drwy'r system gynllunio.
- Argymhellodd un ymatebydd y dylai fod canllawiau clir ynglŷn â phryd a sut y dylai asesiadau cynllunio o sŵn ac ansawdd aer gael eu hystyried yn yr asesiad rheoliadol o orgynhesu, gan awgrymu nad yw'r tri pharagraff yn y Ddogfen Gymeradwy ddrafft yn ddigonol. Yn debyg i un o'r ymatebwyr uchod, nododd hefyd yr anawsterau posibl o ran gorfodi lle caiff hyn ei rannu rhwng Rheoli Adeiladu a'r system gynllunio, gan ofyn beth fyddai'n digwydd pe na châi asesiad cam cynllunio ei gynnal yn briodol neu pe na châi ei drosi'n amodau cynllunio a phwy fyddai'n gyfrifol wedyn am sicrhau bod mesurau i leihau'r risg o orgynhesu yn dal i roi ystyriaeth briodol i ansawdd aer a sŵn.
- Gwnaeth un ymatebydd sylwadau amrywiol, gan nodi y dylid hyrwyddo mesurau goddefol a dull goddefol ymhellach; bod y mesurau syml yn osgoi cymhlethdod ac y byddent yn haws i BBaChau, ond yr ymddengys eu bod yn orsyml; bod dileu cryn dipyn o arweiniad wedi gwneud y ddogfen yn llai defnyddiol ac y dylid ei gynnwys eto; nad yw'r awgrym i osod griliau awyryddion, caeadau dellt neu ryw fath o giardiau i wneud ffenestr yn ddiogel yn cael ei asesu gan PAS 24 na'i gwmpasu yn Rhan Q; bod angen ailystyried cyfeiriadau at gysgodlenni mewnol o ran y risg y byddent yn helpu fflamau i ymledu pe bai tân allanol yn dod i mewn drwy ffenestr; bod angen ystyried effeithiau cyfuniad o sŵn, llygredd aer ac awyru yn fanylach ac mewn ffordd wyddonol; ac, yn gyffredinol, fod angen i'r gwahanol rannau o'r Rheoliadau Adeiladu a'r Dogfennau Cymeradwy gysylltu â'i gilydd, gan nodi'n benodol nad yw Rhan E yn ymdrin â lefelau sŵn allanol os defnyddir ffenestri sy'n agor a bod angen mwy o ymchwilio i sŵn allanol.

## Cwestiwn 32

| | Pawb a ymatebodd i'r cwestiwn hwn | Pensaer | Adeiladwr / Datblygwr | Arolygydd Cymeradwy Rheoli Adeiladu | Meddiannydd Adeilad/Preswylydd | Dylunydd Meddalwedd Adeiladu ac Ynni | Dylunydd / Peiriannydd / Syrfëwr | Cynllun Achredu Aseswyr Ynni | Sector Ynni | Awdurdod Lleol | Gwneuthurwr/Cadwyn Gyflenwi | Corff Proffesiynol | Rheolwr Eiddo / Cymdeithas Dai / Landlord | Cymdeithas Fasnach | Adeiladwr Tai Mawr | Parti Arall sydd â Diddordeb |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cwestiwn 32: A ydych yn cytuno bod Rhannau presennol o'r Rheoliadau Adeiladu yn ddigonol i fynd i'r afael â phryderon ynghylch diogelwch sy'n gysylltiedig â defnyddio ffenestri y gellir eu hagor i reoli gorgynhesu?** | | | | | | | | | | | | | | | | |
| **Cyfanswm** | **57** | **3** | **1** | **1** | **1** | **1** | **1** | **1** | **2** | **8** | **16** | **2** | **2** | **4** | **3** | **11** |
| Ydw | 53% | 67% | 100% | 0% | 0% | 0% | 100% | 0% | 50% | 100% | 31% | 100% | 100% | 0% | 100% | 45% |
| Nac ydw | 18% | 33% | 0% | 0% | 0% | 100% | 0% | 0% | 0% | 0% | 25% | 0% | 0% | 25% | 0% | 27% |
| Ddim yn siŵr | 30% | 0% | 0% | 100% | 100% | 0% | 0% | 100% | 50% | 0% | 44% | 0% | 0% | 75% | 0% | 27% |

2.148 O'r rhai a ymatebodd i'r cwestiwn hwn, roedd 53% yn cytuno â'r cynnig, roedd 18% yn anghytuno ac nid oedd 30% yn siŵr.

2.149 O'r ymatebwyr a oedd yn cytuno â'r cynnig ac a wnaeth sylwadau:

- Awgrymodd dau ymatebydd fod angen canllawiau symlach o ystyried bod y canllawiau penodol wedi'u cyhoeddi mewn nifer mawr o ddogfennau.
- Roedd dau ymatebydd yn pryderu am yr agweddau a oedd yn ymwneud â diogelwch. Roedd un ymatebydd yn pryderu ynglŷn â materion yn ymwneud â gwagio adeilad yn ddiogel pan fo'r ffenestri wedi'u selio. Roedd yr ymatebydd arall yn pryderu am y goblygiadau i ddiogelwch tân. Mae'r ymatebydd hwn hefyd yn awgrymu y dylai'r meddiannydd gadw'r dewis ynglŷn â sut y caiff yr annedd ei gweithredu.
- Roedd un ymatebydd yn pryderu bod angen addysgu meddianwyr sut y dylai'r adeilad gael ei weithredu.

2.150 Ymhlith yr ymatebwyr a oedd yn anghytuno ac a wnaeth sylwadau, nodwyd nifer o bryderon.

- Mae tri ymatebydd yn awgrymu bod angen rhoi canllawiau symlach o ystyried bod y canllawiau penodol wedi'u cyhoeddi mewn nifer mawr o ddogfennau. Mae dau ymatebydd yn awgrymu bod angen enghreifftiau ymarferol ac yn cwestiynu pa mor ddichonadwy yw creu'r nodweddion diogelwch arfaethedig.
- Roedd un ymatebydd yn pryderu y byddai'r defnydd o ddyfeisiau cyfyngu ar ffenestri yn arwain at awyru annigonol ac felly at risg gynyddol o orgynhesu.
- Roedd dau ymatebydd yn pryderu am yr agweddau a oedd yn ymwneud â diogelwch. Mae un ymatebydd yn awgrymu nad yw Rhan Q/PAS 24 yn cynnwys darpariaeth ar gyfer profi dyfeisiau cyfyngu neu gaeadau.
- Mae un ymatebydd yn nodi nad oes angen i bob ffenestr ar y llawr daear gydymffurfio â PAS 24.

2.151 O'r ymatebwyr nad oeddent yn siŵr ac a wnaeth sylwadau:

- Roedd un ymatebydd yn pryderu ynglŷn â goblygiadau defnyddio ffenestri y gellir eu hagor at ddibenion awyru ar y llawr daear o ran diogelwch.
- Roedd un ymatebydd yn pryderu y byddai'r defnydd o ddyfeisiau cyfyngu ar ffenestri yn arwain at awyru annigonol ac felly at risg gynyddol o orgynhesu.
- Roedd un ymatebydd yn pryderu ynglŷn â'r agweddau ar ddiogelwch, gan nodi nad yw Dogfen Gymeradwy K2 yn cyfeirio'n benodol at agoriadau awyru di-wydr ac mae'n awgrymu y dylid ychwanegu agoriadau awyru at Ddogfen Gymeradwy K2.
- Nododd un ymatebydd y bydd cysgodi yn lleihau'r angen i agor ffenestri.

2.152 O'r ymatebwyr nad oeddent wedi rhoi ateb ond a wnaeth sylwadau:

- Roedd dau ymatebydd yn pryderu ynglŷn â goblygiadau defnyddio ffenestri y gellir eu hagor at ddibenion awyru ar y llawr daear a'r llawr cyntaf o ran diogelwch. Nododd un ymatebydd mai un ateb i'r broblem hon fyddai dyfeisiau cyfyngu ar ffenestri. Fodd bynnag, mae'r naill ymatebydd a'r llall yn nodi nad yw PAS 24 yn cynnwys profion ar ffenestri na lwfrau sydd ar agor ac yn awgrymu y bydd y cynigion yn peri risg i ddiogelwch felly.
- Roedd un ymatebydd yn pryderu am y gallu i orfodi'r defnydd o ddyfeisiau cyfyngu ar ffenestri.

## YMATEB Y LLYWODRAETH

2.153 Cymysg fu'r ymateb i'r cynigion i sicrhau bod mesurau lliniaru yn ddefnyddiadwy ac yn ddiogel. Felly, rydym yn bwriadu ymgynghori eto ar y maes hwn ar Gam 2B o'r ymgynghoriad, gan ystyried y sylwadau a gyflwynir.

2.154 Yn ystod yr ymgynghoriad Cam 2B caiff canllawiau drafft pellach eu cyhoeddi er mwyn i ymgyngoreion wneud sylwadau mewn perthynas â'r canlynol:

- Sŵn; megis cynnig terfynau sŵn ar gyfer awyru mecanyddol os caiff ei ddefnyddio fel rhan o'r strategaeth i gael gwared ar wres a chanllawiau ar sut i ddangos cydymffurfiaeth
- Llygredd aer, gan gynnwys cyfeiriadau at ganllawiau pellach
- Diogelwch; gan gynnwys diogelwch rhag syrthio o agoriadau a ddefnyddir i gael gwared ar wres.
- Diogelwch; gan gynnwys canllawiau diogelwch ar gyfer ffenestri hawdd eu cyrraedd.

# Pennod 6. Trefniadau Trosiannol (Cwestiwn 33)

2.155 Esboniodd ymgynghoriad Cam 1 ein hegwyddorion i gyflwyno set lymach o ofynion trosiannol yn 2020 er mwyn sicrhau na fydd datblygwyr yn parhau i adeiladu cartrefi i hen safonau effeithlonrwydd ynni am fwy o amser nag sy'n briodol. Roedd yr ymatebion i ymgynghoriad Cam 1 yn gefnogol iawn i drefniant trosiannol llymach.

2.156 Rhoddodd y bennod hon yn y ddogfen ymgynghori ragor o fanylion ynghyd â chynnig cadarn ar gyfer darpariaethau trosiannol newydd. Nod y darpariaethau trosiannol newydd yw lleihau'r risg y bydd datblygwyr yn parhau i adeiladu i safonau effeithlonrwydd ynni hŷn am fwy o amser nag sy'n briodol.

**Cwestiwn 33**

| | Pawb a ymatebodd i'r cwestiwn hwn | Pensaer | Adeiladwr / Datblygwr | Arolygydd Cymeradwy Rheoli Adeiladu | Meddiannydd Adeilad/Preswylydd | Dylunydd Meddalwedd Adeiladu ac Ynni | Dylunydd / Peiriannydd / Syrfëwr | Cynllun Achredu Aseswyr Ynni | Sector Ynni | Awdurdod Lleol | Gwneuthurwr/Cadwyn Gyflenwi | Corff Proffesiynol | Rheolwr Eiddo / Cymdeithas Dai / Landlord | Cymdeithas Fasnach | Adeiladwr Tai Mawr | Parti Arall sydd â Diddordeb |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cwestiwn 33: A ydych yn cytuno na ddylai'r trefniadau trosiannol ar gyfer y newidiadau i'r gofynion o ran effeithlonrwydd ynni yn 2021 fod yn gymwys i adeiladau unigol os na fydd gwaith wedi dechrau o fewn dwy flynedd i'r dyddiad y daw diwygiadau Rhan L a Rhan S 2021 i rym – sy'n golygu y byddai'n rhaid i'r adeiladau hynny gael eu codi i'r safon effeithlonrwydd ynni newydd?** | | | | | | | | | | | | | | | | |
| **Cyfanswm** | **54** | **2** | **0** | **0** | **1** | **1** | **1** | **1** | **3** | **7** | **14** | **4** | **1** | **5** | **3** | **11** |
| Ydw | 78% | 100% | - | - | 100% | 100% | 100% | 0% | 33% | 86% | 79% | 100% | 100% | 100% | 100% | 55% |
| Nac ydw | 19% | 0% | - | - | 0% | 0% | 0% | 100% | 67% | 14% | 21% | 0% | 0% | 0% | 0% | 27% |
| Ddim yn siŵr | 4% | 0% | - | - | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 18% |

2.157 O'r rhai a ymatebodd i'r cwestiwn hwn, roedd 78% yn cytuno â'r cynnig, roedd 19% yn anghytuno ac nid oedd 4% yn siŵr.

2.158 O'r ymatebwyr a oedd yn cytuno â'r cynnig ac a wnaeth sylwadau:

- Roedd pedwar ymatebydd yn cefnogi'r trefniant trosiannol o ddwy flynedd. Nododd un o'r ymatebwyr fod dwy flynedd yn well na blwyddyn oherwydd hyfywedd ymylol datblygiadau a manteision cyfnod hirach er mwyn i ddatblygwyr baratoi ar gyfer y newidiadau.
- Dadleuodd pump o'r ymatebwyr o blaid cyfnod trosiannol byrrach. Cynigiodd pob un o'r pum ymatebydd y dylid cwtogi'r cyfnod trosiannol i flwyddyn o hyd yn unol â'r newidiadau yn Lloegr. Mae un o'r ymatebwyr yn awgrymu y dylai fod cyfnod o flwyddyn ar y mwyaf ac y byddai cyfnod trosiannol o chwe mis yn well.

- Gofynnodd pum ymatebydd am fwy o eglurder, yn enwedig o ran pryd y bydd y cyfnod trosiannol yn dechrau a beth fydd yn gyfystyr â gwaith cychwyn. Mae un ymatebydd yn awgrymu y dylai'r cyfnod trosiannol fod yn berthnasol i gwblhau gwaith yn hytrach na dechrau gwaith.
- Mynegodd dau ymatebydd bryder y câi anheddau newydd eu gwerthu a oedd wedi'u hadeiladu yn unol â'r Rheoliadau Adeiladu blaenorol ac felly y byddent yn llai effeithlon o ran ynni.
- Gofynnodd un ymatebydd am fwy o hyblygrwydd i ddatblygiadau llai o faint.
- Roedd un ymatebydd yn pryderu y gallai safonau gwahanol o dan y Rheoliadau Adeiladu ar yr un safle datblygu arwain at gambrisio eiddo gan fenthycwyr morgeisi.

2.159 Roedd pob un o'r pedwar ymatebydd yn anghytuno â'r cynigion, gan nodi y dylai'r cyfnod trosiannol fod yn fyrrach. Mae dau ymatebydd yn cynnig cyfnod trosiannol o 12 mis. Cynigiodd un ymatebydd gyfnod trosiannol o chwe mis. Mae ymatebydd arall yn dadlau o blaid y cyfnod trosiannol byrraf posibl ac mae'r ymatebydd olaf yn dadlau y dylai pob adeilad ar y safle fod o dan yr un cyfnod trosiannol hyd yn oed os yw'r gwaith adeiladu wedi dechrau.

2.160 Cynigiodd yr unig ymatebydd nad oedd yn siŵr am y cynigion ac a wnaeth sylwadau y dylid pennu cyfnod trosiannol byrrach, sef 12 mis, er mwyn sicrhau cysondeb â Safonau Cartrefi'r Dyfodol y DU.

2.161 O'r ymatebwyr hynny nad oeddent wedi rhoi ateb ond a wnaeth sylwadau:

- Roedd chwech o'r ymatebwyr yn dadlau o blaid cyfnod trosiannol byrrach. Cynigiodd un ymatebydd gyfnod trosiannol o 18 mis neu 12 mis, gan nodi hefyd ei bod yn annerbyniol i berchenogion anheddau newydd gael eu hysbysu bod yr adeilad wedi cael ei godi'n unol â hen reoliadau adeiladu. Mae dau ymatebydd yn cynnig cyfnod trosiannol o 12 mis. Nododd un o'r ymatebwyr hyn y byddai hynny'n sicrhau bod y rheoliadau yn unol â'r rhai yn Lloegr. Mae dau ymatebydd yn cynnig cyfnod trosiannol o chwe mis. Mae ymatebydd arall yn dadlau o blaid y cyfnod trosiannol byrraf posibl ac mae'r ymatebydd olaf yn dadlau y dylai pob adeilad ar y safle fod o dan yr un cyfnod trosiannol hyd yn oed os yw'r gwaith adeiladu wedi dechrau.
- Gofynnodd dau ymatebydd am fwy o eglurder, yn enwedig o ran pryd y bydd y cyfnod trosiannol yn dechrau a beth fydd yn gyfystyr â gwaith cychwyn.
- Nododd un ymatebydd y byddai'r trefniant trosiannol yn osgoi materion etifeddol am fod adeiladau wedi'u codi'n unol â hen reoliadau adeiladu.

2.162 Nododd un ymatebydd y byddai angen hysbysu perchennog y cartref ynghylch pa set o Reoliadau Adeiladu y codwyd yr eiddo yn unol â nhw.

## YMATEB Y LLYWODRAETH

2.163 Cyflwynodd ymgynghoriad Cam 1 gynigion eang a oedd yn anelu at sicrhau bod anheddau newydd yn cyrraedd safonau cyfredol. Yn ystod yr ail gam (2A) o'r ymgynghoriad, gwnaethom gynnwys cynigion penodol yn seiliedig ar gyfnod trosiannol o ddwy flynedd. Er bod hyn yn hirach nag arferion blaenorol, mae'r newid i fod yn seiliedig ar ddechrau pob annedd unigol yn golygu tynhau trefniadau'n sylweddol.

2.164 Roedd cefnogaeth gref i'r cynigion, gyda 78% yn cytuno â nhw. Pan gyflwynwyd sylwadau, roedd y prif ymateb yn awgrymu cyfnod trosiannol byrrach, ac awgrymwyd 18 mis, 12 mis a chwe mis.

2.165 Ar ôl ystyried yr ymatebion, rydym yn bwriadu cyflwyno cyfnod trosiannol o 1 flwyddyn (12 mis), sy'n adlewyrchu'r brys cynyddol i fynd i'r afael ag achosion newid yn yr hinsawdd. Mae'r angen i gyflawni ein hymrwymiad i sero net erbyn 2050 ac yn gynyddol 'i gyrraedd yno'n gynt' wedi llywio'r cyfnod trosiannol byrrach hwn nag yr ymgynghorwyd arno. Er bod hwn yn amserlen fwy heriol, bydd yn golygu bod cartrefi newydd yn cael eu hadeiladu i'r safonau effeithlonrwydd ynni newydd yn gynt.

# PENNOD 7 Adborth ar yr Asesiad Effaith (Cwestiwn 34)

2.166 Ystyriodd y bennod hon yn yr ymgynghoriad Asesiad Effaith y cam ymgynghori. Mae Rheoliadau Adeiladu yn dylanwadu'n fawr ar y ffordd y caiff ein hadeiladau eu codi a'u defnyddio. Felly, maent yn helpu i sicrhau manteision sylweddol i gymdeithas. Gall rheoleiddio hefyd osod costau ar fusnesau ac unigolion. Cyhoeddwyd Asesiad Effaith ar y cyd â'r ymgynghoriad Cam 2A sy'n ystyried costau a manteision y newidiadau arfaethedig i'r Rheoliadau Adeiladu.

**Cwestiwn 34: Asesiad Effaith**

| | Pawb a ymatebodd i'r cwestiwn hwn | Pensaer | Adeiladwr / Datblygwr | Arolygydd Cymeradwy Rheoli Adeiladu | Meddiannydd Adeilad/Preswylydd | Dylunydd Meddalwedd Adeiladu ac Ynni Datblygwr | Dylunydd / Peiriannydd / Syrfëwr | Cynllun Achredu Aseswyr Ynni | Sector Ynni | Awdurdod Lleol | Gwneuthurwr/Cadwyn Gyflenwi | Corff Proffesiynol | Rheolwr Eiddo / Cymdeithas Dai / Landlord | Cymdeithas Fasnach | Adeiladwr Tai Mawr | Parti Arall sydd â Diddordeb |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cwestiwn 34: Mae'r Asesiad Effaith yn amcangyfrif effaith y cynigion unigol. Yn eich barn chi, a yw'r rhain yn rhoi asesiad teg o'r costau a'r manteision?** | | | | | | | | | | | | | | | | |
| **Cyfanswm** | **49** | **2** | **1** | **1** | **1** | **1** | **1** | **1** | **2** | **8** | **15** | **3** | **0** | **3** | **0** | **10** |
| Ydw | 35% | 50% | 100% | 0% | 0% | 100% | 100% | 0% | 0% | 75% | 20% | 67% | - | 0% | - | 20% |
| Nac ydw | 4% | 50% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | - | 33% | - | 0% |
| Ddim yn siŵr | 61% | 0% | 0% | 100% | 100% | 0% | 0% | 100% | 100% | 25% | 80% | 33% | - | 67% | - | 80% |

2.167 Roedd 35% o'r rhai hynny a atebodd y cwestiwn hwn o'r farn bod y tybiaethau a ddefnyddiwyd fel sail i'r Asesiad Effaith yn deg ac yn rhesymol, ond roedd 4% yn anghytuno. Nid oedd 61% yn siŵr.

2.168 O'r tri ymatebydd a oedd yn cytuno â'r cynnig ac a wnaeth sylwadau:

- Roedd un ymatebydd yn cytuno â'r Asesiad Effaith ond roedd yn pryderu ynglŷn â goblygiadau posibl o ran darparu tai'r farchnad agored a thai fforddiadwy oherwydd hyfywedd, yn enwedig mewn rhannau penodol o Gymru.
- Nododd un ymatebydd fod angen i'r amcangyfrifon o'r elw o fuddsoddiadau gael eu hadolygu'n rheolaidd.
- Nododd yr ymatebydd olaf y byddai cyfnod trosiannol o 12 mis yn well na dwy flynedd.

2.169 O'r ddau ymatebydd a oedd yn anghytuno â'r cynnig ac a wnaeth sylwadau:

- Roedd un ymatebydd yn anghytuno â'r tybiaethau a ddefnyddiwyd ar y sail nad oedd costau asesiadau (megis asesiadau o welliannau canlyniadol gan unigolion wedi'u hachredu) wedi cael eu cynnwys ac y gallant ychwanegu costau sylweddol at brosiect.
- Tynnodd yr ymatebydd arall sylw at ei ymateb i Gwestiwn 16 a oedd yn cwestiynu dilysrwydd nodi inswleiddio waliau solet yn unig fel ffactor a oedd yn golygu bod angen awyru ychwanegol.

2.170 Roedd gan bob un o'r tri ymatebydd nad oeddent yn siŵr bryderon nad oedd yr Asesiad Effaith yn ddigon manwl. Nodwyd y meysydd canlynol yn benodol: pryder, ar gyfer ffenestri a drysau, mai dim ond un math o wydr ac un math o ffrâm oedd yn cael eu defnyddio; a diffyg manylion i wirio cywirdeb costau dulliau cysgodi.

2.171 O'r tri ymatebydd nad oeddent wedi nodi p'un a oeddent yn cefnogi'r cynnig ai peidio ond a wnaeth sylwadau:

- Roedd un ymatebydd yn fodlon ar lefel yr wybodaeth ariannol a roddwyd yn yr Asesiad Effaith.
- Dywedodd un ymatebydd nad oedd yr Asesiad Effaith yn ddigon manwl ac nad oedd yn rhoi esboniad digonol o'r gost cyfalaf ac adnewyddu fawr yn yr asesiad o orgynhesu.
- Roedd un ymatebydd yn cytuno â'r Asesiad Effaith yn gyffredinol ond nododd fod y testun ar effaith amgylcheddol a chymdeithasol yn gyfyngedig iawn a'i fod yn tanbrisio'r effeithiau cadarnhaol (e.e. lleihau'r defnydd o ynni a lleihau'r risg o orgynhesu).
- Nododd un ymatebydd nad oedd Asesiad Effaith o'r trefniadau trosiannol arfaethedig wedi cael ei gynnal i bob golwg.

## YMATEB Y LLYWODRAETH

2.172 Mae'r Asesiad Effaith yn cyflwyno asesiad eang o'r effeithiau o anghenraid, yn seiliedig ar gostau datblygu tybiedig. Yn seiliedig ar hyn, mae'r Asesiad Effaith yn gynrychioliad dynodol o effaith debygol y newidiadau arfaethedig, ac roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr o'r farn bod yr Asesiad Effaith yn cyflawni hyn.

2.173 Bydd Asesiad Effaith terfynol ymgynghoriad Cam 2A yn cael ei gyfuno ag Asesiad Effaith terfynol ymgynghoriad Cam 1. Bydd hyn yn ein galluogi i ystyried yr holl effeithiau gyda'i gilydd.

# Pennod 8. Y Gymraeg (Cwestiynau 35 a 66)

**Cwestiwn 35: Hoffem gael eich barn ar yr effeithiau y byddai'r cynigion yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol o ran cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac o ran peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**
**Beth fyddai'r effeithiau yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol neu liniaru'r effeithiau negyddol?**

2.174 Cafwyd 26 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Fodd bynnag, ni fynegwyd barn gan tua dau o bob tri o'r ymatebwyr hynny (17) ac nid oedd dau ymatebydd yn siŵr.

2.175 O'r saith ymatebydd a fynegodd farn, roedd pum ymatebydd yn disgwyl na fyddai'r cynigion yn cael unrhyw effaith ar y Gymraeg. Nododd un ymatebydd y gall iaith y rheoliadau adeiladu helpu mewn ardaloedd Cymraeg eu hiaith. Nododd un ymatebydd ei bod yn hanfodol i'r Gymraeg bod yr holl wybodaeth ar gael yn Gymraeg.

**Cwestiwn 36: Esboniwch sut rydych yn credu y gellid llunio neu newid y cynigion arfaethedig er mwyn cael effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, heb unrhyw effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

2.176 Cafwyd 26 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Fodd bynnag, ni fynegwyd barn gan y mwyafrif o'r ymatebwyr hynny (20) ac nid oedd dau ymatebydd yn siŵr. Nid oedd y mwyafrif o weddill yr ymatebwyr (3) yn disgwyl i'r cynigion gael unrhyw effaith gadarnhaol ond nid awgrymwyd unrhyw newidiadau i sicrhau effaith gadarnhaol. Awgrymodd un ymatebydd y dylai'r dogfennau hefyd fod ar gael yn Gymraeg.

## YMATEB Y LLYWODRAETH

Mae'r Gymraeg yn flaenoriaeth strategol i Lywodraeth Cymru a'i gweledigaeth yw gweld yr iaith yn ffynnu. Er mwyn cyflawni hyn, mae Safonau'r Gymraeg yn set o ofynion cyfreithiol gyfrwymol sy'n gymwys i Lywodraeth Cymru. Caiff holl ddogfennau'r Rheoliadau Adeiladu eu hystyried yn erbyn y safonau a'u cyhoeddi yn unol â nhw.

# 3. Y camau nesaf

3.1 Caiff y Dogfennau Cymeradwy ar gyfer ynni ac awyru eu paratoi'n derfynol a chaiff y rheoliadau eu drafftio yn unol ag ymatebion y Llywodraeth i bob pennod yn yr ymateb hwn a'r ymateb i Gam 1 o'r ymgynghoriad. Mae canllawiau diwygiedig pellach ar gyfer gorgynhesu mewn cartrefi newydd wedi cael eu cyhoeddi yn ymgynghoriad Cam 2B. Byddai'n well gennym pe bai'r gofynion newydd ynglŷn â gorgynhesu, ynni ac awyru ar gyfer anheddau newydd yn cael eu cyflwyno ar yr un pryd, felly amcangyfrifir y bydd y rheoliadau diwygiedig a'r canllawiau cysylltiedig ar eu ffurf derfynol yn gynnar yn 2022, ac yn dod i rym erbyn diwedd yr haf 2022.

3.2 Mae ymgynghoriad Cam 2B ar gyfer anheddau annomestig a gofynion gorgynhesu wedi'i gyhoeddi ochr yn ochr ar ddogfen hon. Rhoddir manylion pellach am amserlen weithredu ar gyfer elfennau annomestig adolygiad Rhan L yn y ddogfen honno.

# 4. Atodiad A –

## Asesu'r risg o orgynhesu mewn cartrefi newydd yng Nghymru a strategaethau lliniaru posibl – Dadansoddiad o orgynhesu

**Cefndir**

4.1 Mae gorgynhesu mewn cartrefi yn digwydd pan fydd yr amgylchedd thermol dan do lleol yn creu amodau sy'n fwy na'r rhai sy'n dderbyniol er mwyn sicrhau cysur thermol pobl neu'r rhai a allai gael effaith andwyol ar iechyd pobl.

4.2 Nodwyd bod gorgynhesu mewn adeiladau yn risg allweddol i iechyd a chynhyrchiant pobl a busnesau yn y DU. Amcangyfrifir bod tua 2,000 o farwolaethau sy'n gysylltiedig â gwres bob blwyddyn yng Nghymru a Lloegr. Disgwylir i'r nifer hwn dreblu i fwy na 7,000 erbyn canol y ganrif, o ganlyniad i newid yn yr hinsawdd[1].

4.3 Nid oes unrhyw ganllawiau ffurfiol gan y Llywodraeth na'r diwydiant ynglŷn â sut y gellir adnabod y risg o orgynhesu mewn cartrefi newydd na sut i roi mesurau ataliol effeithiol ar waith.

- Nod Rhan L Maen Prawf 3 yw ceisio cyfyngu ar orgynhesu o ganlyniad i enillion solar neu enillion gwres eraill yn ystod misoedd yr haf. Mae'n cyfeirio at SAP 2012 Atodiad P, sy'n cynnig dull o asesu'r graddau y bydd annedd yn dueddol o brofi tymereddau mewnol uchel yn ystod tywydd poeth. Nid yw SAP Atodiad P yn canolbwyntio ar gysur nac iechyd meddianwyr. Nid yw'n ystyried ychwaith effaith newid yn yr hinsawdd yn y dyfodol ar y risg debygol o dymereddau mewnol uwch mewn anheddau. Noder nad yw methodoleg SAP Atodiad P yn effeithio ar radd SAP annedd nac allyriadau $CO_2$.
- Er bod nifer o fesurau y gwyddys eu bod yn lleihau'r risg o orgynhesu, ceir bwlch mewn gwybodaeth o ran pa eiddo sydd fwyaf tebygol o orgynhesu, a pha gyfuniad o fesurau fydd fwyaf costeffeithiol i leihau'r risg.

**Cwmpas y gwaith**

4.4 Amcan y gwaith hwn yw asesu'r risg o orgynhesu mewn cartrefi newydd yng Nghymru a strategaethau lliniaru posibl. Nodir y fethodoleg isod a chyflwynir y canlyniadau yn yr adran nesaf.

4.5 Mae'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol wedi cwblhau dadansoddiad tebyg ar gyfer anheddau newydd yn Lloegr[2] yn ddiweddar ac rydym yn adeiladu ar hyn i Gymru. Mae'r dadansoddiad o'r risg o orgynhesu yn seiliedig ar fethodoleg CIBSE TM59.

[1] https://www.theccc.org.uk/wp-content/uploads/2015/06/6.736_CCC_ASC_Adaptation-Progress-Report_2015_FINAL_WEB_250615_RFS.pdf

[2] Research into overheating in new homes - GOV.UK (www.gov.uk)

4.6 Mae CIBSE TM59 yn pennu dau faen prawf cydymffurfio ar gyfer anheddau ac mae angen bodloni'r ddau er mwyn dangos risg dderbyniol o orgynhesu:

- Mae Maen Prawf A yn gymwys i ystafelloedd byw, ceginau ac ystafelloedd gwely. Mae'n ei gwneud yn ofynnol na fydd y tymheredd mewnol yn mynd yn uwch na thymheredd cysur diffiniedig o 1°C neu fwy am fwy na 3% o'r oriau meddiannu dros gyfnod yr haf (1 Mai i 30 Medi).
- Mae Maen Prawf B yn gymwys i ystafelloedd gwely yn unig ac mae'n ei gwneud yn ofynnol na fydd y tymheredd mewnol rhwng 10 pm a 7 am yn fwy na 26°C am fwy nag 1% o'r oriau blynyddol.

4.7 Mae dwy dybiaeth allweddol yn effeithio'n sylweddol ar y risg o orgynhesu.

- Er mwyn asesu'r risg o orgynhesu dros oes cartrefi newydd, dylai'r dadansoddiad o dymereddau mewnol fod yn seiliedig ar ddata tywydd yn y dyfodol a ragwelir. Mae methodoleg CIBSE TM59 yn ei gwneud yn ofynnol i'r asesiad gael ei gynnal drwy ddefnyddio data tywydd DSY1 (Blwyddyn Haf Dylunio) ar gyfer yr 2020au. Ar gyfer y prosiect hwn, mae'r ffeil data tywydd yn y dyfodol CIBSE DSY1 ar gyfer yr 2020au sy'n berthnasol i Gaerdydd (yr unig leoliad yng Nghymru lle mae data tywydd yn y dyfodol CIBSE yn bodoli) wedi cael ei defnyddio. Mae'n ddigon posibl bod lleoliad Caerdydd yn y de-ddwyrain yn golygu bod hyn yn cynrychioli senario gwaethaf rhesymol i Gymru. Fodd bynnag, nid yw data tywydd ar gyfer lleoliadau gwahanol yng Nghymru wedi cael eu hystyried fel rhan o'r dadansoddiad hwn. Bwriedir i'r data tywydd hyn gynrychioli'r cyfnod rhwng 2011 a 2040 ac mae'n cynrychioli tybiaethau penodol ynglŷn â newid yn yr hinsawdd (allyriadau uchel, senario 50 canradd) yn unol â methodoleg TM59 CIBSE. Y nod yw cynrychioli haf eithaf cynnes (h.y. cynhesach na blwyddyn nodweddiadol) gyda phosibilrwydd o 1 mewn 7 y ceir tywydd tebyg neu boethach na blwyddyn nodweddiadol.
- Mae'r risg o orgynhesu wedi cael ei hasesu yn seiliedig ar ‘adeiladau Categori I’, h.y. mae'n tybio bod yr anheddau yn debygol iawn o fod yn cael eu meddiannu gan bobl sy'n agored i niwed a phobl fregus. O ganlyniad, mae Maen Prawf A yn mynd yn llymach; caiff y trothwy uchaf ar gyfer tymheredd cysur ei leihau 1 °C.

4.8 Yn gyffredinol, mae'r dull gweithredu hwn yn arwain at brawf eithaf trwyadl o orgynhesu. Mae'n ystyried hafau sy'n gynhesach na'r nodweddiadol ac mae'n anelu at ddiogelu aelodau o'r boblogaeth sy'n fwy agored i niwed. Fodd bynnag, mae digwyddiadau tywydd mwy eithafol, megis cyfnodau o dywydd poeth pan fydd tymereddau gryn dipyn yn uwch na'r cyfartaledd cyfredol, yn cynnig cyfle cyfyngedig i ymaddasu i dymereddau uwch a disgwylid iddynt gael mwy o effaith andwyol ar gysur ac iechyd.

4.9 Mae gwaith modelu efelychu thermol dynamig wedi cael ei wneud drwy ddefnyddio is-set o'r modelau a ddefnyddiwyd ar gyfer gwaith yr Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol, fel y dengys Tabl 1 isod. Cafodd yr anheddau eu dewis gan gydnabod gwahaniaethau cyfyngedig rhwng teipolegau penodol o anheddau a nodweddion dylunio/adeiladu.

**Tabl 1: Teipolegau o anheddau a ddefnyddiwyd i asesu'r risg o orgynhesu ac effaith strategaethau lliniaru i Gymru**

| Math | Math o annedd | Maint | Gweddau | Strategaeth awyru | System wresogi | Math o adeilad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1. | Rhandy/Fflat | 2b4p | Un wedd | Awyru Naturiol | Unigol | Cymharol uchel |
| 1b. | | | | Awyru Echdynnu Mecanyddol | Unigol | |
| 2. | Rhandy/Fflat | 2b4p | Dwy wedd | Awyru Naturiol | Unigol | Cymharol Uchel |
| 2b. | | | | Awyru Echdynnu Mecanyddol | Unigol | |
| 3. | Tŷ pâr | 3b5p | Tair gwedd | Awyru Naturiol | Unigol | Cerrig |

4.10 Rhestrir y pum pecyn lleihau risg a werthuswyd yn Nhabl 2 isod. Mae'r pecynnau lleihau risg wedi cael eu cynllunio i flaenoriaethu mesurau goddefol a mesurau newid ymddygiad yn lle mesurau gweithredol. Noder, wrth asesu'r risg o orgynhesu ac effaith strategaethau lliniaru, y tybir bod yr anheddau yn cael eu meddiannu yn ystod y dydd yn unol â methodoleg CIBSE TM59.

**Tabl 2: Pecynnau lleihau risg**

| | Mesurau goddefol | Mesurau gweithredol | Ymddygiad meddianwyr |
|---|---|---|---|
| Pecyn 1 | **Cysgodlenni mewnol** ar bob ffenestr ac eithrio'r ffasâd gogleddol; dellt fertigol ar ffasadau dwyreiniol a gorllewinol a dellt llorweddol ar ffasadau deheuol i sicrhau cysgodi effeithiol.<br>Tybir bod llenni Fenis lliw golau (cyfernod cysgodi o 0.61 a ffracsiwn pelydrol tonfedd fer o 0.3). | - | Cysgodlenni mewnol yn cael eu tynnu ar y ffasadau dwyreiniol, gorllewinol a deheuol i leihau enillion solar. Tybir bod cysgodlenni a reolir gan y meddiannydd a fodelwyd drwy ddefnyddio'r proffil canlynol:<br>· Pelydriad trawol i dynnu cysgodlen - 200W/$m^2$<br>· Pelydriad trawol i godi cysgodlen - 150 W/$m^2$<br>Ffenestri yn cael eu cau pan fydd y tymheredd allanol 3°C yn uwch na'r tymheredd gweithiol mewnol. |
| Pecyn 2 | **Gwydr â gwerth g is** (0.4) gyda lefel trawsyrru golau uchel (0.7).<br>**Gostwng cymarebau gwydr mewn fflatiau** i 25% o'r arwynebedd llawr, o 28% mewn fflat ag un wedd a 47% mewn fflat â dwy wedd (heb leihau arwynebedd gwydr y gellir ei agor). | - | Ffenestri yn cael eu cau pan fydd y tymheredd allanol 3°C yn uwch na'r tymheredd gweithiol mewnol. |

| | Mesurau goddefol | Mesurau gweithredol | Ymddygiad meddianwyr |
|---|---|---|---|
| Pecyn 3 | **Dull cysgodi allanol sefydlog** er mwyn caniatáu ar gyfer awyru ynghyd ag awyru diogel yn ystod y nos. Fe'i modelwyd fel:<br>· Caeadau allanol â lwfrau mewn tai<br>· Cysgodi llorweddol sefydlog â throthwy uchder o 50° ar gyfer ffenestri sy'n wynebu tua'r de mewn fflatiau Lwfrau ôl-dynadwy ar y ffasadau dwyreiniol, gorllewinol a gogleddol mewn fflatiau<br>**Gostwng cymarebau gwydr mewn fflatiau** i 25% o'r arwynebedd llawr, ac mae pob un wedi'i fodelu fel ffenestr y gellir ei hagor ar wahân i'r ffenestri yn yr ystafelloedd ymolchi, toiledau ac ystafelloedd ymolchi en-suite.<br>**Ffenestri y gellir eu hagor ychwanegol ar drydedd wedd ar gyfer tŷ pâr** er mwyn hyrwyddo croes-awyru a sicrhau cymhareb o 20% rhwng cyfanswm y gwydr a'r arwynebedd llawr. | - | Dyfeisiau cysgodi a reolir gan feddianwyr a fodelwyd drwy ddefnyddio'r proffil canlynol:<br>· Pelydriad trawol i weithredu dyfais gysgodi - 200 $W/m^2$<br>· Pelydriad trawol i godi'r ddyfais gysgodi - 150 $W/m^2$<br>Ffenestri yn cael eu cau pan fydd y tymheredd allanol 3°C yn uwch na'r tymheredd gweithiol mewnol.<br>Awyru diogel yn ystod y nos. Ffenestri ystafelloedd yn cael eu hagor i 30° rhwng 23:00 ac 8:00 o'r gloch, os bydd y tymheredd am 23:00 yn uwch na 23°C. Pan fydd y tymheredd yn is na 23°C am 23:000 awr, tybir y bydd ffenestri ystafelloedd gwely ar gau drwy'r nos. |
| Pecyn 4 | **Fel ar gyfer Pecyn 3 ynghyd â màs thermol uchel**[2].<br>Ar gyfer tŷ pâr cerrig, mae hyn yn cynnwys:<br>· Blocwaith trwm a phlastr dwys (gwlyb) ar gyfer waliau allanol, waliau cydrannol a pharwydydd mewnol<br>· Trawstiau concrit wedi'u rhag-gastio â sgrîd ar gyfer nenfwd/llawr mewnol<br>Ar gyfer rhandai sydd â ffrâm goncrit ac adeiladwaith mewnlenwi, mae hyn yn cynnwys:<br>· Blocwaith trwm a phlastr dwys (gwlyb) ar gyfer waliau allanol, waliau cydrannol a pharwydydd mewnol<br>· Plastr dwys (nenfwd), slab concrit a sgrîd ar gyfer lloriau cydrannol<br>· Plastr dwys (nenfwd) a slab concrit ar gyfer to (dec cynnes) | - | Fel ar gyfer Pecyn 3, ynghyd ag awyru diogel gyda'r hwyr ac yn ystod y nos, ni waeth a oes rhywun yn defnyddio'r ystafell ai peidio.<br>Ffenestri'r ystafell fyw ac ystafelloedd gwely yn cael eu hagor i 30° rhwng 23:00 ac 8:00 o'r gloch, os bydd y tymheredd am 23:00 yn uwch na 23°C. Pan fydd y tymheredd yn is na 23°C am 23:00 o'r gloch, tybir y bydd ffenestri ar gau drwy'r nos.<br>Tybir y bydd drysau patio yn y tŷ pâr ar gau drwy'r nos. |

[2] Dosbarthiad yn unol â chonfensiynau SAP 2012 (Awst 2017, f7.01), Atodiad 5

| | Mesurau goddefol | Mesurau gweithredol | Ymddygiad meddianwyr |
|---|---|---|---|
| Pecyn 5 | Fel ar gyfer Pecyn 3 | Oeri gweithredol (pympiau gwres gwrthdroadwy) gyda thymheredd gosodedig o 24°C.<br>Cymhareb Effeithlonrwydd Ynni o 3.2 yn y modd oeri. | Fel ar gyfer Pecyn 3 |

**Canlyniadau**


4.11 Cyflwynir y canlyniadau isod. Maent yn cynnwys yr allbynnau o'r gwaith modelu efelychu thermol dynamig ar gyfer y pum teipoleg o annedd.

4.12 Mae'r teipolegau o fflatiau yn dangos risg uchel o orgynhesu ac maent yn uwch na Maen Prawf A CIBSE TM59 ar gyfer y senario sylfaenol heb unrhyw fesurau lliniaru (a labelir yn P0). Mae nifer yr oriau o orgynhesu yn graddol leihau ar gyfer pecynnau lliniaru 1 i 5. Mae pecynnau 2, 3, 4 a 5 i gyd yn cydymffurfio â Maen Prawf A. Nid yw'r un o'r teipolegau o fflatiau yn mynd dros nifer yr oriau o orgynhesu o dan Faen Prawf B.


4.13 Mae'r tŷ pâr yn cydymffurfio â Maen Prawf A a Maen Prawf B ar gyfer y senario sylfaenol. Nid oes angen unrhyw fesurau lliniaru i reoli'r risg o orgynhesu.

4.14 Yn gyffredinol, mae'r canlyniadau yn awgrymu bod y ffocws ar randai yn benodol. At hynny, mae'n awgrymu y gellid cyflwyno mesurau goddefol rhesymol i reoli'r risg o orgynhesu yn ddigonol.


**Ffigur 1: Canran yr oriau o orgynhesu – Anheddau sy'n cael eu hawyru'n naturiol – Maen Prawf A**



**Ffigur 2: Canran yr oriau o orgynhesu – Anheddau sy'n cael eu hawyru'n naturiol – Maen Prawf B**



**Ffigur 3: Canran yr oriau o orgynhesu – Anheddau sy'n cael eu hawyru'n fecanyddol – Maen Prawf A**



**Ffigur 4: Canran yr oriau o orgynhesu – Anheddau sy'n cael eu hawyru'n fecanyddol – Maen Prawf B**

